

BBC



Adroddiad Blynyddol
a Chyfrifon
2017/18

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC **2017/18**

Cyflwynwyd gerbron y Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

(h) Hawlfraint y BBC 2018

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o bbc.co.uk/annualreport

Dyluniwyd gan Emperor
emperor.works

Cyfieithwyd gan Prysg

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erthygl 37)

Cynnwys

t.02

Y BBC

Cipolwg ar y flwyddyn, cynnwys clodwiw a'n strwythur



Perfformiad a chyd-destun y farchnad

t.59

Pecynnau data'r Gwledydd

t.150

t.168

Datganiadau ariannol manwl


t.08

Rhageiriau gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

t.240

Perfformiad yn erbyn ymrwymadau cyhoeddus

t.125



Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Llywodraethu

t.88

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Sut rydym wedi bodloni gofynion ein dibenion cyhoeddus

t.18

t.66

Cyllid a gweithrediadau



Trosolwg

02 Cipolwg ar y flwyddyn

Adroddiad strategol

08 Neges gan y Cadeirydd
10 Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
16 Ein strwythur adrodd
18 Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
20 – *Newyddion a gwybodaeth ddiduedd*
24 – *Dysgu i bobl o bob oedran*
28 – *Allbwn creadigol, nodedig, o safon*
38 – *Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU*
52 – *Cyflwyno'r DU i'r byd*
59 Perfformiad a chyd-destun y farchnad
67 Adolygiad ariannol y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
69 Trosolwg ariannol
74 Ein pobl
78 Datblygu ein pobl
79 Amrywiaeth
84 Gwaith elusennol
86 Cynaliadwyedd amgylcheddol

Llywodraethu

90 Bwrdd y BBC
92 Adroddiad Llywodraethu
93 Adroddiad Cydnabyddiaeth
101 Datgeliadau cyflogau
107 Barn SAG ar ddatgeliadau cyflogau
108 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau
109 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
113 Risgiau a Chyffleoedd
117 Datganiad ynghylch Hyfywedd
118 Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
119 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
121 Adroddiad Masnachu Teg
123 Adroddiad Rheoleiddio
124 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
125 Perfformiad yn erbyn ymrwymadau cyhoeddus
150 Pecynnau data'r gwledydd
167 Barn SAG ar becynnau data'r Gwledydd

Datganiadau ariannol

169 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
185 Datganiad cyfunol o incwm
185 Datganiad cyfunol o incwm/(colled) cynhwysfawr
186 Mantolen gyfunol
187 Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti
188 Datganiad llif arian parod cyfunol
189 Themâu allweddol ar gyfer y BBC
190 Nodiadau i'r cyfrifon

Gwybodaeth ychwanegol

240 Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
264 Mynegai
265 Credydau delweddu
266 Gwybodaeth gyswllt ac adborth

Cipolwg ar y flwyddyn

Yn ystod blwyddyn lawn gyntaf Siarter Frenhinol newydd, dathlodd Radio Lleol y BBC ei ben-blwydd yn 50, cafodd BBC iPlayer ei flwyddyn orau erioed a chyhoeddwyd y byddai BBC Worldwide a BBC Studios yn cyfuno i greu un sefydliad masnachol. Rydym yn parhau i gyflwyno cynnwys clodwiw ar deledu, radio ac ar-lein i gynulleidfaoedd ledled y DU a ledled y byd.

92%

Cyrhaeddiad o ran oedolion

Canran yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.
Targed: 92-95%

Blue Planet II

Y rhaglen hanes naturiol drawiadol *Blue Planet II* oedd rhaglen fwyaf poblogaidd y flwyddyn ar BBC iPlayer, gyda 4.8 miliwn o geisiadau am y bennod gyntaf. Arweiniodd effaith y rhaglen at newid eang yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o wastraff plastig.



7/10

Argraff gyffredinol

Argraff gyffredinol cynulleidfaoedd o'r BBC (cyfartaledd cymedrig).
Targed: 6-7/10

BBC World Service

Wrth i World Service wynebu ei broses ehangu fwyaf ers y 1940au, gwnaethom gyrraedd gynulleidfa fyd-eang o 279 miliwn o bobl ledled y byd bob wythnos, sef y nifer uchaf erioed. Erbyn yr haf hwn, bydd ein gwasanaethau newyddion rhyngwladol yn darlledu ar-lein, ar y teledu, ac ar y radio mewn mwy na 40 o ieithoedd.

Lansiwyd 12 o wasanaethau newydd:

- Pidgin
- Afaan Oromoo
- Amhareg
- Tigrinya
- Corëeg
- Gwjarati
- Marati
- Punjabeg
- Telwgw
- Igbo
- Ioruba
- Serbeg

19:12

Cyfanswm yr amser a dreulir

Faint o amser y mae cynulleidfaoedd oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd.
Targed: 18:15-19:45

Radio Lleol y BBC

Dathlodd Radio Lleol y BBC, sy'n cynnwys 40 o orsafoedd radio lleol ledled Lloegr ac Ynysoedd y Sianel, gyda mwy na chwe miliwn o wrandawyr, ei ben-blwydd yn 50.





48m

Etholiad Cyffredinol

Ymwelodd bron i 48 miliwn o borwyr yn y DU â gwefan ac ap newyddion y BBC yn ystod wythnos yr Etholiad Cyffredinol – y nifer fwyaf erioed.

£34m

Gwnaethom gyhoeddi ein buddsoddiad mwyaf mewn gwasanaethau plant mewn cenhedlaeth – £34 miliwn ychwanegol.



BBC Studios

Gwnaethom gyhoeddi y byddai BBC Worldwide a BBC Studios yn cyfuno, gan integreiddio prosesau cynhyrchu, gwerthu a dosbarthu rhaglenni mewn un sefydliad masnachol. Bydd yn cynhyrchu rhaglenni fel *Strictly Come Dancing*, *EastEnders*, *Countryfile* a drama boblogaidd BBC One yn ystod y dydd *Shakespeare & Hathaway*.



272m

Cafodd BBC iPlayer ei flwyddyn orau erioed yn 2017. Gyda llu o 'box-sets', rhaglenni poblogaidd o'r archif a mwy o bersonoli, cafodd 272 miliwn o raglenni ar gyfartaledd eu ffrydio bob mis gan wylwyr.



Three Girls

Aeth y ddrama a enillodd wobwr BAFTA i'r afael â straeon gwir dioddefwyr meithrin perthynas amhriodol a thrais rhywiol yn Rochdale. Helpodd y rhaglen, a wylwyd gan fwy nag wyth miliwn o bobl, i hyrwyddo deiseb i Sara Robotham gael ei chydnabod am ei rôl yn tynnu sylw at y sgandal.



Darllediadau chwaraeon byw

Gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i ail-greu darlledu chwaraeon am ddim. Gan weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant chwaraeon a gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol, ein nod yw cyflwyno mwy o chwaraeon i fwy o bobl.

Cynnwys clodwiw

Rydym yn buddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau clodwiw ar deledu, radio ac ar-lein.

4

Gwobr y Gymdeithas Darlledu Ryngwladol Tachwedd 2017

10

Gwobrau Urdd y Wasg Ddarlledu Mawrth 2018

Y BBC yn cael ei enwi yn Ddarlledwr y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Cyfryngau Amrywiol

17

o Wobrau Teledu yr Academi Brydeinig Mai 2018

7

Gwobr yr Academi Brydeinig yn yr Alban Tachwedd 2017



6

Gwobr Darlledu Digidol Gorffennaf 2017

6

Gwobr Plant yr Academi Brydeinig Tachwedd 2017



18

o Wobrau Rhaglenni RTS Mawrth 2018



37

o Wobrau'r Diwydiant Sain a Radio Hydref 2017

8

Gwobr Grierson
Tachwedd 2017



11

o Wobrau
Newyddiaduraeth
Teledu RTS
Mawrth 2018

16

o Wobrau'r Academi
Brydeinig yng
Nghymru Hydref 2017

6


Gwobr Teledu
Cenedlaethol
Ionawr 2018

15

o Wobrau Crefft
Teledu yr Academi
Brydeinig Ebrill 2018

8

Gwobr Darlledu
Mawrth 2018



6

Gwobr Rhwydwaith
Amrywiaeth Greadigol
Mehefin 2017

8

Gwobr Comedy.co.uk
Ionawr 2018

6

Gwobr Urdd yr
Awduron
Ionawr 2018

Hysbysu. Addysgu. Diddanu.

Cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf sy'n ddifyr, mentrus, addysgol a chlodwiw.



75%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol o ran **hysbysu, addysgu a diddanu** pobl yn y DU (8% yn dweud ei fod yn aneffeithiol)

75%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol o ran **hysbysu** pobl yn y DU (9% yn dweud ei fod yn aneffeithiol)

72%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol o ran **addysgu** pobl yn y DU (9% yn dweud ei fod yn aneffeithiol)

77%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol o ran **diddanu** pobl yn y DU (7% yn dweud ei fod yn aneffeithiol)

Ipsos MORI: 3,568 o oedolion 16+ yn y DU, Ebrill-Mai 2018.

Rydym yn creu cynnwys beiddgar...

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 02 i 05 a 28 i 37

Rhaglenni dogfen sy'n annog newid.

Enillodd *Blue Planet II* y Wobr Effaith Arbennig yn yr NTAs am ei rôl yn codi ymwybyddiaeth o effaith angheuol gwastraff plastig.

Y rhaglen deledu gyntaf lle roedd pob aelod o'r cast yn awtistig.

Lansiodd CBeebies y gyfres deledu wedi'i hanimeiddio *Pablo*.

Defnyddio technoleg i ehangu apêl cynnwys.

Fel rhan o *Ŵyl Civilisations*, gwnaethom lansio cyfres o adnoddau digidol yn cynnwys ap Realiti Rhithwir *Civilisations*.

Llunio partneriaethau dynamig ledled y DU.

O Ddinas Diwylliant Hull i Super Movers gydag Uwch Gynghrair Lloegr; o Tomorrow's World i Opera Passion gyda'r Tŷ Opera Brenhinol a'r V&A.

Podlediadau clodwiw gan un o gynhyrchwyr podlediadau mwyaf y byd. Rydym yn creu podlediadau pwrpasol, difyr a dadlennol i gynulleidfa eang yn cynnwys y genhedlaeth newydd sy'n gwrandao mwy a mwy ar-lein.

Sianel y Flwyddyn. Enillodd BBC One Sianel y Flwyddyn yng Ngwobrau Rhaglenni RTS.

... yn darlledu ar sawl sianel...

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 18 i 58

Teledu

Naw gwasanaeth teledu ledled y DU, gan gynnwys BBC Three, sy'n wasanaeth ar-lein yn unig i bobl ifanc.

Gwasanaethau teledu cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Radio

Deg rhwydwaith radio ledled y DU a dau wasanaeth radio cenedlaethol yr un yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

40 o orsafoedd radio lleol ledled Lloegr ac Ynysoedd y Sianel.

Teledu, radio a gwasanaethau ar-lein BBC World Service mewn mwy na 40 o ieithoedd.

Ar-lein

Gwasanaethau ar-lein y BBC yn cynnwys Newyddion, Chwaraeon, Tywydd, CBBC, CBeebies, iPlayer ac iPlayer Radio, Botwm Coch y BBC a'n harchif eang drwy amrywiaeth o ddyfeisiau sy'n cysylltu â'r rhyngwrwyd yn cynnwys llechi, ffonau deallus a setiau teledu sy'n cysylltu â'r rhyngwrwyd – yn ogystal â chyfrifiaduron.

... yn gweithio gyda thalent o fewn holl ddiwydiannau creadigol y DU.

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 74 i 83 ac ar dudalen 144

Rydym yn cyflawni ein dibenion cyhoeddus...

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 18 i 58

... ac yn sicrhau gwerth am arian i'n cynulleidfaoedd.

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 66-71 a 74-77

Staff y BBC

Mae ein pobl yn dalentog, amrywiol, ymroddedig ac angerddol. Nhw yw ein hasgwrn cefn.

Partneriaethau

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ein hangerdd am greadigrwydd, ansawdd a natur nodedig.

Buddsoddiad

Mae'r BBC yn fuddsoddwr mawr yn niwydiannau creadigol y DU, gan gyfrannu cannoedd o filiynau o bunnoedd i'r sector ehangach.

Rhannu gwybodaeth

Mae peirianwyr y BBC bob amser yn arwain datblygiadau technolegol. Rydym yn cynnig 'canolfan ragoriaeth', gan rannu datblygiadau ac arfer gorau ledled y diwydiant.

Hyfforddiant

Rydym yn ymrwymedig i gynnig cyfleoedd i bawb. Ers 2014, prentisiaid sy'n cyfrif am 1.9% o'n gweithlu a'r llynedd, gwnaethom lansio cynllun £1 miliwn i recriwtio, hyfforddi a datblygu newyddiadurwyr ag anabledau.

1. Darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch.
2. Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran.
3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau.
4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi creadigol ledled y DU.
5. Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

Buddsoddi cymaint o arian â phosibl yn darparu cynnwys a gwasanaethau gwych.

Lleihau gorbenion

Roedd 94% o wariant rheoladwy'r BBC eleni yn canolbwyntio ar gynnwys a chyflawni, gyda dim ond 6% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad.

Lleihau gwariant ar dalent

Mae cyfanswm ein gwariant ar dalent ar y sgrin ac ar yr awyr wedi'i leihau i 11.1% o'n gwariant mewnol ar gynnwys.

Bil cyflogau uwch reolwyr

Mae'r gymhareb uwch reolwyr i gyfanswm y cyflogeion gwasanaeth cyhoeddus bellach yn 1.5% ac mae'r bil cyflogau ar gyfer uwch reolwyr wedi leihau mwy na £36 miliwn ers 2009.

Cyfanswm yr arbedion costau

Cafodd £160 miliwn o arbedion blynyddol eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod cyfanswm yr arbedion yn cyfateb i £244 miliwn. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau 67 a 70.

Neges gan y Cadeirydd



“Nid yw gwerth ein rôl fel un o’r ffynonellau newyddion cywir a diduedd yr ymddiriedir ynddi fwyaf, yn y DU a ledled y byd, wedi lleihau yn yr oes ddigidol. Yn hytrach mae wedi cyhyddu.”

Syr David Clementi
Cadeirydd

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn yn cwmpasu'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018, sef y flwyddyn ariannol gyntaf lle bu Bwrdd unedol a threfniadau llywodraethu newydd ar waith yn y BBC.

Mae'r trefniadau hyn bellach yn gwahaniaethu'n glir rhwng y broses o lywodraethu'r BBC, sydd yn nwylo'r Bwrdd newydd, a'r broses allanol o reoleiddio'r BBC, sydd yn nwylo Ofcom. Efallai am y tro cyntaf yn hanes y BBC, maent yn galluogi'r gorfforaeth i siarad yn glir ag un llais, ac i atebolrwydd fod mewn un pâr o ddwylo, heb unrhyw amwysedd.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd wedi talu sylw i ystod eang o faterion sy'n wynebu'r BBC, gan gynnwys: meithrin cydberthynas effeithiol â'n rheoleiddiwr newydd, Ofcom; yn fewnol, gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn lle teg a boddhaol i weithio ynddo; ac yn allanol, helpu'r BBC i ateb yr heriau y mae'n eu hwynebu gan nifer gynyddol o gystadleuwyr byd-eang.

Rwy'n ymfalchio yn y cynnydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn, y ffordd y mae ein prosesau llywodraethu newydd wedi'u hymgorffori, a'r hyn mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni yn ei flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol iawn na fu'r amgylchedd o gwmpas y BBC – yn gystadleuol, yn ariannol, yn dechnolegol – fyth yn fwy anodd. Mae hyn yn rhywbeth y gwnaethom ei drafod

yn fanwl yng Nghynllun Blynyddol 2018/19, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, ac mae'n bwysig ystyried yr Adroddiad Blynyddol hwn yn y cyd-destun hwnnw.

Mae holl aelodau'r Bwrdd yn llwyr ymwybodol mai ein cyfrifoldeb cyntaf yw gwasanaethu a diogelu budd y cyhoedd, yn bennaf drwy sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r pum diben cyhoeddus a amlinellir yn ein Siarter, yr adroddwn yn eu herbyn yma.

Efallai y bydd rhai o'r farn bod y dibenion cyhoeddus hyn yn rhwymedigaethau a orfodwyd arnom, neu'n rhyw fath o faich. Fel Cadeirydd y BBC, rwy'n eu gweld yn wahanol. Y dibenion cyhoeddus hyn sy'n ein gosod ar wahân i ddarlledwyr eraill ac yn tanlinellu'r ffaith bod gennym rôl arbennig i'w chwarae. Maent yn cynrychioli ein contract â'r cyhoedd, ac maent yn hanfodol bwysig fel dull sylfaenol ein cynulleidfaoedd o'n dwyn i gyfrif.

Yn ystod y flwyddyn hon, mae ymrwymiad cryf ein staff i gyflawni'r dibenion hyn wedi gwneud cryn argraff arnaf. Wrth i'r sefydliad barhau i fynd i'r afael â materion allweddol, fel tegwch a chyflogau, mae ein pobl wedi parhau i gadw anghenion ein cynulleidfaoedd ar frig yr agenda. Mae'r graddau y mae cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn dod yn bwysicach mewn byd sy'n newid yn gyflym hefyd yn rhywbeth a'm trawodd.

Mae newyddion yn enghraifft dda. Mae ein cynulleidfaoedd wedi dibynnu ar y BBC ers amser hir fel y man y gallant droi ato am newyddion y gallant ymddiried ynddo a dadansoddiadau y gallant ddibynny arnynt. Eleni, BBC Newyddion oedd prif ddarparwr newyddion y DU a dewis ffynhonnell cynulleidfaoedd o ran gwybodaeth yr ymddiriedir ynddi o hyd. Yn gyffredinol, cyrhaeddodd BBC Newyddion gyfartaledd wythnosol o dros 80% o oedolion yn y DU. Parhaodd BBC Newyddion Ar-lein i ddenu 30 miliwn o borwyr yn y DU bob wythnos ar gyfartaledd yn 2017, tra llwyddodd ap BBC Newyddion i ddenu 7.8 miliwn o borwyr bob mis ar gyfartaledd.

Dangoswyd y ffaith mai at y BBC y mae'r wlad yn troi er mwyn deall yr hyn sy'n digwydd ar adegau allweddol unwaith eto yn ystod wythnos yr Etholiad Cyffredinol fis Mehefin diwethaf, pan ddaeth bron i 48 miliwn o borwyr yn y DU i safle ac ap newyddion y BBC – y nifer fwyaf erioed.

Mae'n amlwg i mi mai tyfu, nid dirywio, y mae gwerth ein rôl fel un o'r ffynonellau newyddion cywir a diduedd yr ymddiriedir ynddi fwyaf, yn y DU a ledled y byd, yn yr oes ddigidol. Y rheswm dros hyn yw ein bod bellach yn byw mewn oes pan fo ymddiriedaeth yn beth prin, a phan fo'r gwirionedd a chywirdeb dan y lach fwyfwy.

Mae 'newyddion ffug' wedi dod yn anos i'w herio. Gall honiadau ffug gyrraedd pob cwr o'r byd mewn eiliadau. Mae adlais y cyfryngau cymdeithasol yn atgyfnerthu ein safbwyntiau ni ein hunain am y byd a gall sianelau cyfryngau newydd siarad â grwpiau caeëdig o bobl heb eu herio. Mae'n mynd yn anos gwahaniaethu rhwng y ffeithiol a'r ffug, y gwirionedd a barn, rhagfynegiad a haeriad.

Yn y dirwedd hon, ni fu rôl hanesyddol y BBC fel tywysydd dibynadwy fyth yn bwysicach. Mae'n gyfrifoldeb rydym yn ei gymryd o ddirif ac rydym wedi ymateb gyda mentrau fel ehangu ein gwasanaeth cadarnhau ffeithiau, Reality Check, sydd wedi'i gynllunio i fynd at wraidd y gwahanol honiadau a gwrth-honiadau sy'n amgylchynu'r agenda newyddion. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno fersiwn deledu, ac roeddem yn falch o weld effaith y gwasanaeth hwn yn cael ei chydabod yn ddiweddar pan enillodd Reality Check wobwr arloesedd gan Voice of the Listener and Viewer.

Maes pwysig arall lle mae cynulleidfaoedd yn dibynnu arnom yw cynnwys gwreiddiol o'r DU. Blaenoriaeth y BBC erioed fu rhaglennu Prydeinig o ansawdd uchel, ac mae'n rhan o'n cenhadaeth gyhoeddus i adlewyrchu a chynrychioli cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU.

Mae adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn pwysleisio'r graddau y mae ein cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi rhaglenni sy'n siarad â nhw'n uniongyrchol am eu bywydau, neu'n dweud rhywbeth arwyddocaol am y wlad a'r gymdeithas y maent yn byw ynddynt. Ond mae hefyd yn tynnu sylw at y bygythiadau sydd bellach yn wynebu cynnwys gwreiddiol, Prydeinig ar draws y diwydiant.

Ar adeg pan fo'r DU yn cael ei phortreadu fwyfwy fel gwlad ddarniog a rhanedig, rhaid i'r BBC gynnal ei statws fel y man sy'n dod â'r wlad ynghyd ac yn ei helpu i'w deall ei hun. Mae hyn yn golygu sicrhau bod ein hallbwn creadigol yn portreadu natur gyfoethog ac ehangder DU fwyfwy amrywiol a datganoledig, a bod ei holl leisiau gwahanol yn cael eu clywed. Mae hefyd yn golygu atgoffa ein holl gymunedau o'r hyn sy'n gyffredin rhyngddynt, yn ogystal â'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol.

Mae'r BBC bob amser wedi dod â'r wlad gyfan ynghyd er mwyn dathlu digwyddiadau cenedlaethol mawr, fel Priodas Frenhinol, Jiwbilî neu'r Gemau Olympaidd. Dyma hefyd y man lle rhennir munudau a sgysiau cenedlaethol – boed hynny'n gynulleidfaoedd o bob oedran yn dod ynghyd yn eu miliynau ar gyfer *Strictly*, *Doctor Who* neu *Blue Planet II*, cynulleidfaoedd yn dychwelyd blwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer sioeau fel *Just a Minute* a *Desert Island Discs*, neu allbwn sy'n coffáu adegau pwysig yn ein hanes ar y sgrîn ac ar yr awyr, fel rhaglennu eleni ar y Rhyfel Byd Cyntaf a'r ymgyrch dros sicrhau'r bleidlais i ferched.

Mae'r Adroddiad Blynnyddol hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'n perfformiad yn erbyn ein dibenion cyhoeddus. Mae'n bwysig tanlinellu, yn ogystal â nodi blwyddyn gyntaf trefniadau gweithredu newydd y BBC, fod hwn hefyd yn nodi blwyddyn gyntaf newidiadau i'r ffordd rydym yn mesur ein perfformiad. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o ystadegau yn edrych yn wahanol eleni ac efallai na fydd modd eu cymharu'n uniongyrchol â blynnyddoedd blaenorol.

Fel mae adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ei danlinellu, mae'r farchnad o'n cwmpas yn dod yn fwy byd-eang a chystadleuol. Wynebwn fygythiad i gynnwys Prydeinig o arfordir gorllewinol America, ac mae angen i ni ymateb i arferion ac anghenion ein cynulleidfaoedd sy'n newid yn gyflym yn yr oes ddigidol. Rhaid gosod hyn oll yng nghyd-destun ariannol y BBC sy'n anos nag erioed.

“Mae'r graddau y mae cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn dod yn bwysicach mewn byd sy'n newid yn gyflym yn beth trawiadol i mi.”

Wrth i'r BBC agosáu at ei ganmlwyddiant yn 2022, credaf fod ei rôl o fewn y DU yn tyfu'n fwyfwy gwerthfawr. Rwy'n falch o'r cynnydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn, ond rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o'r heriau sydd o'n blaenau.

David Clementi

Syr David Clementi
Cadeirydd
21 Mehefin 2018

Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol



“Ni fu'r BBC erioed mor hanfodol wrth wraidd cryfder creadigol a diwylliannol y DU.”

Tony Hall
Yr Arglwydd Hall o Benbedw CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol a
Phrif Olygydd

Mae wedi bod yn flwyddyn anhygoel o newid, her a llwyddiant creadigol i'r BBC. Yn anad dim, gobeithiaf fod yr Adroddiad Blynyddol hwn eleni yn creu darlun o sefydliad sy'n rhagori yn greadigol, ac yn llywio'r sgwrs genedlaethol â chynnwys sy'n newid y ffordd y mae pobl yn gweld y byd. Pwy arall heblaw am y BBC a allai, er enghraifft, sbarduno sgwrs hanfodol am fater fel plastigau, fel yr hyn a ddigwyddodd yn sgil cyfres ryfeddol *Blue Planet II*?

Ond y tu hwnt i hyn, mae'r Adroddiad yn adrodd hanes sefydliad sy'n symud yn gyflym er mwyn addasu i amgylchedd newidiol – yn gystadleuol ac yn y DU ei hun. Rydym yn ateb yr heriau hyn mewn ystod eang o ffyrdd, er enghraifft drwy ddod â'n busnesau cynhyrchu a dosbarthu ynghyd yn y BBC Studios newydd. Neu, o ran hynny, drwy fuddsoddi mewn cynnwys ar gyfer pob un o'r gwledydd; buddsoddi £34 miliwn mewn cynnwys i blant; neu drwy ymrwymo i ad-drefnu'r hyn a wnawn yn lleol ac yn rhanbarthol ledled Lloegr.

Hefyd, cyfeiriwn at yr ailwampio parhaus – adeiladu BBC a all ateb yr heriau a berir gan arferion newidiol cynulleidfaoedd ifanc a'r newid byd-eang o ran cynhyrchu cynnwys tuag at nifer fach o gystadleuwyr a leolir yn yr UD. P'un a yw'n sôn am ein ffocws parhaus ar gynnwys Prydeinig gwych; canolbwyntio ar feithrin a datblygu talent ifanc newydd; neu barhau i ail-greu'r ffordd rydym yn darparu cynnwys fideo a sain ar-lein, credaf fod yr Adroddiad hwn yn dangos BBC sy'n addasu ac yn newid er budd ei holl ddefnyddwyr.

Hoffwn ddechrau, fodd bynnag, drwy dalu teyrnged i'r gwaith anhygoel y mae ein timau newyddion wedi'i wneud mewn blwyddyn hynod o anodd a heriol; un o'r anoddaf o fewn cof efallai.

Dechreuodd drwy alw Etholiad Cyffredinol annisgwyl, a gadwodd ein timau gwleidyddol ar flaenau eu traed dim ond dwy flynedd ar ôl yr etholiad diwethaf a llai na blwyddyn ers refferendwm yr UE.

Ar wahân i ddatblygiadau gwleidyddol ymgyrch etholiadol ddwys, mae pob un ohonom yn cofio'r gyfres o ymosodiadau terfysgol erchyll a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwnnw, yn ogystal â thrasiedi arswydus Tŵr Grenfell. Dangosodd timau yn Llundain a Manceinion gryn broffesiynoldeb a gwydnwch aruthrol wrth ohebu ar y digwyddiadau ofnadwy hyn, weithiau mewn amgylchiadau anodd eu dirnad.

Gwasanaethu cymunedau lleol

Mae'r sylw y mae'r BBC yn ei roi i ddigwyddiadau cenedlaethol fel ymgyrch fomio Arena Manceinion, ymosodiadau Llundain a thân Tŵr Grenfell wrth wraidd yr hyn a wnawn, ond mae hefyd yn bwysig cydnabod rôl ein gwasanaethau radio lleol yma, sy'n cyrraedd mwy na chwe miliwn o wrandawyr bob wythnos.

Fel rwyf wedi'i weld fy hun yn ystod cynifer o ymweliadau â'n gorsafodd radio lleol ledled y wlad, mae timau lleol bob amser yno i'w cymunedau lleol pan fo eu hangen fwyaf, boed hynny i ddarlledu newyddion sy'n digwydd ar y pryd neu am wybodaeth a chynghor a all eu cadw'n ddiogel pan fo tywydd eithriadol neu

lifogydd. Ac maent yn dal i fod yno ymhell ar ôl i sylw cenedlaethol ddarford.

Ym Manceinion, roedd yn bwerus clywed sut y gwnaeth pobl droi at eu radio lleol yn sgil y bomio am gysur a chymorth. Yn lle gorffen am 1am, darlledodd sioe ateb y ffôn hwyr BBC Radio Manchester tan 5am, gan dderbyn tua theingwaith ei nifer arferol o alwadau – gyda phob un yn awyddus i sôn am eu profiadau neu rannu manylion y caredigrwydd neu'r cymorth anhygoel a welwyd.

Gwnaeth ein hatgoffa o rywbeth hollbwysig: bod radio lleol yn rhan o gig a gwaed ein cymunedau; yn rhan o'r hyn sy'n eu diffinio. Nid darlledu i gynulleidfaoedd a wna radio lleol gwych, ond darlledu gyda nhw.

Dyna pam roedd yn fraint gennyf allu cyhoeddi ein hymrwymiad i fuddsoddi yn Radio Lleol y BBC at y dyfodol, ar adeg ei hanner canmlwyddiant ym mis Tachwedd. Ein nod yw ail-greu radio lleol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu lleisiau lleol yn well, yn dathlu hunaniaethau lleol, yn meithrin talent newydd ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd lleol ar lwyfannau digidol.

Dod â'r wlad ynghyd

O fewn pythefnos i ymgyrch fomio Manceinion, daeth y wlad ynghyd ar gyfer cyngerdd codi arian, sef One Love Manchester. Rwy'n falch o'r rôl y llwyddodd y BBC i'w chwarae wrth helpu i gynnal digwyddiad a wnaeth godi bron i ddwy filiwn a hanner o bunnoedd i'r dioddefwyr a'u teuluoedd yn ystod y gyngerdd yn unig.

Darlledwyd y gyngerdd i gynulleidfa deledu o bron i 12 miliwn yn y DU un

“Bu’n flwyddyn sydd wedi profi unwaith eto pam yr ymddiriedir yn BBC Newyddion ac y dibynnir arni gymaint, ond hefyd pam bod ei hangen gymaint.”

o’r uchaf yn ystod y flwyddyn. Ac fel darlledwr y gyngerdd i’r rhwydweithiau rhyngwladol, bu modd i ni chwarae ein rhan wrth ei chyflwyno i gynulleidfa fyd-eang o ddegau o filiynau, mewn mwy na 50 o wledydd ledled y byd.

I mi, roedd yn foment a danlinellodd natur unigryw rôl y BBC yn y DU: drwy radio lleol, cynrychioli cymunedau i’w hunain; fel y darlledwr cenedlaethol, dod â’r wlad ynghyd ar adegau pwysig; ac fel dylanwad byd-eang, yn cyflwyno llais na gwerthoedd Prydain i’r byd.

Cyflwyno’r DU i’r byd

Mae’r dasg olaf hon – adlewyrchu’r DU, ei diwylliant a’i gwerthoedd i’r byd – yn rhan annatod o’n cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus. Eleni, cyrhaeddodd y BBC gynulleidfa fyd-eang wythnosol o 376 miliwn o bobl ledled y byd, sef y nifer fwyaf erioed, ac rydym wedi ymestyn ein rôl yn sylweddol drwy fynd ati i ehangu BBC World Service i’r graddau mwyaf mewn 70 mlynedd.

Diolch i fuddsoddiad newydd, a ariannwyd gan y Llywodraeth, a gynlluniwyd i helpu i gynyddu effaith a chyrhaeddiad rhyngwladol y DU, rydym bellach yn gweithredu mewn mwy na 40 o ieithoedd – gan lansio 12 o wasanaethau iaith newydd yn ystod y flwyddyn, o Gorëeg i Pidgin i Bwnjabeg. Rydym hefyd wedi agor swyddfeydd newydd ac estynedig mewn lleoliadau o Lagos i Bangkok, ac o Cairo i Seoul. Yn y cyfamser, mae’r World Service wedi parhau i gyflwyno’r gorau o ddiwylliant y DU i weddill y byd, o’r Proms i ŵyl Caeredin i Gwpan yr FA.

Wrth gwrs, mae gohebu o bedwar ban byd yn llawn peryglon, ac ni welwyd hyn yn unman yn fwy trasig na Kabul, lle, ym mis Mai 2017, cafodd Mohammed Nazir, un o yrwyr y BBC, ei ladd pan ffrwydrodd bom wrth iddo gludo cydweithwyr i’r gwaith. Roedd Mohammed

yn gydweithiwr poblogaidd a adawodd deulu ifanc ar ei ôl. Roedd ei golled yn enfawr i’w deulu, ei ffrindiau, a’r BBC.

Yn fwy diweddar, cafwyd y newyddion ofnadwy bod ein cydweithiwr Ahmad Shah wedi’i ladd wrth weithio i BBC Newyddion yn Nhalai Khost. Bu farw ar ddiwrnod trychinebus i newyddiaduraeth yn Afghanistan, gyda naw o newyddiadurwyr a ffotograffwyr yn cael eu lladd mewn ymgyrchoedd bomio yn Kabul. Roedd Ahmad yn newyddiadurwr talentog ac yn gydweithiwr poblogaidd, uchel ei fri. Rydym yn parhau i wneud popeth a allwn i gefnogi ei deulu a’i ffrindiau.

Rydym hefyd wedi uno ag eraill er mwyn tynnu sylw at achos ein staff yn BBC Persia sydd, gyda’u teuluoedd, yn cael eu hafonyddu a’u herlyn gan yr awdurdodau yn Iran. Eleni, gwnaethom gyflwyno eu hachos gerbron Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, y tro cyntaf erioed i’r BBC apelio i’r Cenhedloedd Unedig.

Ymddiriedaeth a chywirdeb

Ar y cyfan bu’n flwyddyn sydd wedi profi unwaith eto pam yr ymddiriedir yn BBC Newyddion ac y dibynnir arni gymaint, ond hefyd pam bod ei hangen cymaint. Yn ogystal â’r gwasanaethau newyddion rydym yn eu darparu, credwn y gall y BBC hefyd chwarae rôl hanfodol wrth helpu cynulleidfa oedd i drechu camwybodaeth, drwy arwain y ffordd o ran cywirdeb newyddion.

Rydym yn hynod ymwybodol, os yw’n aml yn anodd i oedolion ddweud y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy’n wir ac yn anwir, ei bod hi hyd yn oed yn anos i bobl ifanc. Rydym yn benderfynol o ddefnyddio profiad ac arbenigedd digyfelyb ein staff newyddion er mwyn helpu cynulleidfa oedd ifanc i feithrin eu sgiliau meddwl yn feiriadol a dod yn newyddion-lythrennog.


Dyna pam mae mwy na 1,000 o ysgolion ledled y wlad bellach yn cael cynnig gwasanaeth mentora yn bersonol, ar-lein neu mewn digwyddiadau grŵp, gan newyddiadurwyr y BBC, er mwyn helpu myfyrwyr i adnabod newyddion go iawn ac anwybyddu gwybodaeth anwir.

Gall pob ysgol gael gafael ar ddeunydd ar-lein, gweithgareddau ystafell ddosbarth a thiworialau fideo am ddim drwy wefan Bwletin Ysgol. Rydym hefyd wedi lansio ap BBC iReporter, a ddatblygwyd gan stiwdios llwyddiannus Aardman, sy’n galluogi pobl ifanc 11-18 oed i brofi pwysau gwneud penderfyniadau bod yn newyddiadurwr gyda’r BBC yng nghanol yr ystafell newyddion.

Buddsoddi mewn plant a phobl ifanc

Gan ddangos arwydd pellach o’n hymrwymiad i gefnogi pobl ifanc yn yr amgylchedd cyfryngau a geir heddiw, roedd

“Mae cymryd risgiau gyda lleisiau newydd ffres o flaen y camera a’r tu ôl iddo yn hollbwysig i’r BBC ac i sicrhau ei fod yn gwasanaethu’r cyhoedd yn y ffordd orau bosibl.”



Comedi glodwif BBC Three, *This Country*



Y ffigurau uchaf erioed ar gyfer BBC iPlayer

Cyfrannodd ein 'box sets' ar iPlayer adeg y Nadolig at wythnosau gorau erioed y gwasanaeth, gyda bron i 80 miliwn o geisiadau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

y BBC yn falch o gynnal Uwchgynhadledd Cyfryngau Byd-eang Plant am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr. Ein nod oedd dwyn ynghyd leisiau arweiniol ym maes y cyfryngau, technoleg a thu hwnt, o bob cwr o'r byd, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion a wynebier gan bobl ifanc a'u grymuso i reoli eu dyfodol digidol.

Yn ystod y digwyddiad, gwnaethom lansio Own It, sef gwefan newydd a gynlluniwyd i helpu plant 9-12 oed i feithrin yr hyder a'r gwydnwch sydd eu hangen arnynt er mwyn ateb yr heriau a wynebiant ar-lein bob dydd.

Dyma'r cynnyrch cyntaf i gael ei lansio o fuddsoddiad mwyaf y BBC mewn gwasanaethau plant mewn cenhedlaeth: £34 miliwn ychwanegol ar gyfer cynnwys i blant. Yn fwy diweddar cyflwynwyd BBC Buzz i'w ategu, sef ap i blant 8-12 oed sy'n rhoi amrywiaeth o ffeithiau diddorol, llawn ysbrydoliaeth i blant bob dydd, ac sy'n eu hannog i rannu eu diddordebau a'u hymdrechion creadigol.

Mae'r mentrau hyn yn enghreifftiau gwych

"I mi roedd yn enghraifft hynod bwerus o'r effaith y gall darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei chael wrth roi llais i'r rheini na fyddent fel arall yn cael eu clywed efallai."

o'r ffordd rydym yn defnyddio'r buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau plant i gynnal CBBC a CBeebies, sydd wedi perfformio'n arbennig o dda ymhlith plant o dan 6 oed er gwaethaf mwy o gystadleuaeth, ac i gynyddu ein huchelgais creadigol yn fwy, gan fwyhau ein cynnwys yn y gofod digidol.

Ac rwy'n ymfalchio'n fawr yn y ffaith mai BBC Bitesize yw'r safle addysg penodedig mwyaf poblogaidd o hyd yn y DU, ac yntau ar fin dathlu ugain mlynedd, gyda The Mind Set yn ymuno ag ef, sef rhwydwaith hyfforddi rhwng cymheiriaid cenedlaethol cyntaf y DU i fyfyrwyr TGAU a myfyrwyr cymwysterau Cenedlaethol yr Alban.

Bod yn creadigol a chymryd risgiau

Wrth gwrs, mae lefel yr uchelgais creadigol honno yn dal i fod yn uchel ym mhob rhan o'n hallbwn. Fel erioed, bu'r flwyddyn hon, yn anad dim, yn ymwneud â'n rhaglenni a'n hymrwymiad i fod yn creadigol a chymryd risgiau. Roedd hyn yn rhywbeth a nodwyd gennyf ar ddechrau'r flwyddyn fel ein blaenoriaeth gyntaf wrth i ni geisio ail-greu'r BBC i genhedlaeth newydd, ac nis gwelwyd unrhyw le mor amlwg nag yn ansawdd a natur nodedig ein hallbwn ar yr awyr ac ar y sgrin.

Mae cyfresi nodedig fel *Blue Planet II* ar BBC One wedi profi unwaith eto, pan ewch ati i greu teledu o'r radd flaenaf, fod cynulleidfaoedd o bob oedran yn ymateb. Mae rhaglenni mawr fel *Civilisations* ar BBC Two a *Living with the Gods* ar Radio 4 wedi dangos yr hyn y gall y BBC ei wneud, lle nad oes unrhyw gymhariaeth.

O ran drama, mae llwyddiannau mawr fel *Line of Duty*, *Doctor Foster* a *Doctor Who* ar ei newydd wedd wedi dangos

bod cynulleidfaoedd Prydeinig yn dal i ddyheu am ddod ynghyd er mwyn gwyllo teledu y mae'n rhaid ei weld. Mae cyfresi fel *Poldark*, *The Replacement*, *Trust me*, *Broken*, *Clique*, *Shakespeare & Hathaway* a *Peaky Blinders*, sydd wedi ennill gwobr BAFTA, wedi cyfareddu cynulleidfaoedd.

Rydym wedi gwneud iddynt chwerthin gyda'i gilydd wrth wyllo rhaglenni comedi fel *Peter Kay's Car Share*, *Still Game*, *Two Doors Down*, *The Young Offenders* a *Man Like Mobeen*. Rydym wedi rhoi'r newyddion dyddiol diweddaraf iddynt o *Today* i *The Daily Politics* i *5 live Drive* i *Newsnight*, ac wedi cynnig safbwyntiau newydd iddynt am hanes gyda sioeau fel *A House Through Time* a *Back in Time for Tea*. Ac rydym wedi parhau i'w diddanu gyda phopeth o *Casualty* a *The Archers* i *The News Quiz* a *The Mash Report*, i *Murder in Successville*, sydd wedi ennill gwobr BAFTA, a'r gyfres fwyaf poblogaidd erioed o *Strictly*.

Arloesi ar gyfer ein cynulleidfaoedd

Yn y cyfamser, rydym wedi mynd ati fwyfwy i arbrofi wrth gyflwyno cynnwys i'n cynulleidfaoedd. Eleni lansiodd Radio'r BBC ei phodlediadau cyntaf a wnaed yn benodol ar gyfer y cyfrwng, ac ymunodd syniadau newydd fel *The Naked Podcast* gan BBC Radio Sheffield bodlediadau poblogaidd fel *Political Thinking* ar Radio 4 gyda Nick Robinson a *Flintoff, Savage and the Ping Pong Guy* gan 5 live – a gafodd ei lawrlwytho hanner miliwn o weithiau, sef y nifer fwyaf erioed, ym mis Mawrth.

Gyda BBC Ideas, rydym yn arbrofi gyda llwyfan fideo ffurf fer sy'n ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys ffeithiol yr ymddiriedir ynddo, gan gyflwyno

Y ddrama glodwiw, Three Girls



Lansiad swyddogol cyfnod Hull fel Dinas Diwylliant y DU

Dathlu Hull Dinas Diwylliant y DU 2017

Bu ein partneriaeth â Dinas Diwylliant Hull 2017 yn llwyddiant ysgubol ac yn enghraifft wych o'r BBC yn gweithio gyda sefydliad allanol. Gwnaethom addo 'hoelio sylw ar Hull' yn 2017 a rhagorwyd ar hynny. Dyma rai o uchafbwyntiau'r BBC o flwyddyn arbennig Hull:

- Cafodd gŵyl gair llafar genedlaethol bwysig, *Contains Strong Language*, ei lansio yn Hull ym mis Medi. Darlledwyd digwyddiadau ar draws holl orsafoedd radio rhwydwaith y BBC.
- Gwnaeth miloedd o bobl fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw wedi'u trefnu gan y BBC yn Hull yn ystod 2017. Yn eu plith roedd Big Weekend Radio 1, cyngerdd I Feel Love Radio 2 a Gŵyl Uproot Radio 3.
- Am y tro cyntaf ers 1930, gadawodd Proms y BBC Lundain a pherfformiwyd Prom ar lan y dŵr yn Hull.
- Ymhlith yr uchafbwyntiau teledu roedd rhaglen ddogfen *Through the Lens of Larkin* ar BBC Four, cyfres deithio *Yorkshire Wolds Way*, yn cynnwys ardal wledig Dwyrain Swydd Efrog, a *Welcome to Hull*, rhaglen ddogfen ar BBC Two a edrychodd ar effaith Dinas Diwylliant ar Hull.
- Cynhyrchodd BBC Radio Humberside 200 o ddarllediadau allanol yn ystod y flwyddyn ac ymhlith rhaglenni'r BBC a ddarlledwyd o Hull yn 2017 roedd *Songs of Praise*, *Any Questions*, *The Jeremy Vine Show*, *The Listening Project*, *The One Show* a *BBC Breakfast*.

defnyddwyr prysur i syniadau a safbwyntiau ysgogol. Eleni gwnaethom hefyd ail-greu gwasanaeth BBC Weather er mwyn cynnig profiad hyd yn oed yn well – gan gynnwys gweddnewidiad, data newydd a nodweddion digidol newydd fel canran 'y siawns o law' a chanllaw tymheredd 'teimlo fel'.

Gydag iPlayer, mae personoli bellach wrth wraidd y dyluniad. Erbyn hyn mae tua 15 miliwn o bobl wedi mewngofnodi bob mis fel y gallwn gynnig gwasanaethau wedi'u teilwra iddynt, a ddisgwyllir ganddynt fwyfwy. Mae 'box sets' fel *Top of the Lake*, *Requiem* ac ôl-gatalog llawn *Peaky Blinders* – a ryddhawyd



gennym i gyd-fynd â'r gyfres ddiweddaraf – wedi galluogi gwylwyr i wyllo'r cyfresi y maent am eu gweld pan fo'n gyfleus iddynt.

Yn wir, gwnaeth y rhaglennu drama a ryddhawyd gennym ar iPlayer adeg y Nadolig i gyd-fynd â phopeth arall a gynigiwyd ar ein hamserlenni arwain at ei wythnosau orau erioed, gyda bron i 80 miliwn o geisiadau i wyllo rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Ar y cyfan, 2017 oedd blwyddyn orau iPlayer erioed, gyda chyfanswm y geisiadau i fyny 11%.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at y gwaith arloesol sy'n digwydd y tu ôl i'r lenni. Eleni, cynhaliwyd nifer o brosiectau mawr gennym er mwyn moderneiddio ein system ddarlledu a'i gwneud yn fwy cadarn – gan gynnwys cyflwyno seilwaith newydd ar gyfer 'darlledu' rhaglennu rhwydwaith a rhaglennu'r gwledydd a system amserlennu teledu newydd – i gyd heb amharu ar ein gwylwyr.

Adrodd straeon pwysig

Eleni, rwyf wedi bod yn hynod falch o raglenni sydd wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol at drafodaethau cyhoeddus neu sydd wedi ymdrin â rhai o'r problemau dyrys a wynebir mewn cymdeithas.

Mae cyfresi llwyddiannus fel *Hospital* ac *Ambulance* yn parhau i daflu goleuni dybryd ar feysydd sy'n hollbwysig i'r genedl. Ac maent yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n datgelu gwir gymhlethdod drwy ganolbwyntio ar y penderfyniadau arbennig o anodd y mae'n rhaid i staff y GIG eu gwneud bob dydd. Yn y cyfamser, gwnaeth *Surgeons: At the Edge of Life* ehangu cynulleidfadau rhaglennu gwyddonol yn sylweddol wrth greu ymateb anhygoel ar y cyfryngau cymdeithasol, yn arbennig ymhlith gwylwyr iau.

Mae rhaglenni dogfen hynod ddiddorol fel *Rio Ferdinand: Being Mum and Dad*, *Chris Packham: Asperger's and Me*, a *My Dad, the Peace Deal and Me* gan Patrick Kielty, wedi archwilio materion pwysig drwy brofiadau go iawn. Gwnaeth rhaglenni fel *Growing Up In Care* a *My Extraordinary Skin* wneud yr un peth ar Radio 1 a 1Xtra, a gwnaeth *The Fix* ar Radio 4 ddwyn ynghyd 12 o feddyliau ifanc mwyaf disglair y wlad i ymdrin â phroblemau mwyaf cymhleth cymdeithas. Ac mae dramâu ffeithiol fel *The Moorside* a *Three Girls*, sydd wedi ennill sawl gwobr, wedi adrodd straeon heriol a phwysig y mae angen eu hadrodd yn fawr iawn.

Roedd *Three Girls* yn ddrama hynod bwerus a aeth i'r afael â straeon gwir dioddefwyr meithrin perthynas amhriodol a thrais rhywiol yn Rochdale. Nid dim ond y ffaith bod mwy nag wyth miliwn o bobl wedi'i gwyllo a wnaeth ddangos ei phwysigrwydd i gynulleidfaoedd. Gwnaeth y ffaith bod mwy na 300,000 o bobl, o fewn ychydig ddiwrnodau, wedi arwyddo deiseb i Sara Rowbotham – a gafodd ei chwarae'n gelfydd gan Maxine Peake – gael ei chydabod am ei rôl yn tynnu sylw at y sgandal wneud hynny hefyd. I mi, roedd yn enghraifft hynod bwerus o'r effaith y gall darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei chael wrth roi llais i'r rheini na fyddent fel arall yn cael eu clywed efallai.

Buddsoddi mewn talent newydd

Wrth wraidd hyn mae ein penderfyniad i ddarganfod a chefnogi talent newydd, ledled y wlad. Roeddwn yn falch, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, pan ddaeth arweinwyr creadigol o bob rhan o'r BBC ynghyd er mwyn nodi talent fwyaf cyffrous y DU ar y sgrin ac oddi arni – gan lunio Rhestr Talent Newydd a oedd yn cynnwys dros 200 o sêr darlledu'r dyfodol.

Cynhyrchodd BBC Drama 85 awr o gynnwys y llynedd am £97 miliwn – yr un gost â dwy gyfres o *The Crown* ar Netflix. Mae £97 miliwn/\$130 miliwn yn darparu'r canlyniol i chi:

BBC Drama – £97 miliwn

- 18 o gyfresi/tua 85 awr o gynnwys
- Gwylwyd gan 74% o oedolion yn y DU
- Gwerthfawrogiad gwylwyr: 8.7/10

Ffynonellau: BARB, SYG, Populus, GfK

The Crown – \$130 miliwn

- 2 gyfres/tua 20 awr o gynnwys
- Gwylwyd gan 14% o oedolion yn y DU
- Gwerthfawrogiad gwylwyr: 8.2/10

“Ni fu cyfresi Prydeinig sy'n adlewyrchu'r genedl gyfan ac yn taro deuddeg gyda chynulleidfaoedd Prydeinig fyth yn fwy pwysig.”

Roedd hyn wrth wraidd ein penderfyniad i ddod â BBC Studios a BBC Worldwide ynghyd eleni. Credwn mai un sefydliad sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu cynnwys Prydeinig o'r radd flaenaf yw'r ffordd orau o sicrhau y gall y BBC helpu i ddiogelu dyfodol cynnwys Prydeinig a pharhau i chwarae ei rôl hanfodol yn cefnogi llwyddiant economi creadigol y DU.

Her ariannol

Hon yw un o'r heriau mwyaf dybryd y mae angen i ni ymateb iddi wrth i ni geisio ail-greu'r BBC. Ac mae angen i ni wneud hynny mewn cyd-destun ariannol sy'n anoddach nag erioed.

Yn syml, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi lleihau wrth i'r farchnad dyfu. Ers 2010, pan gafodd ffrîr drwydded ei rhewi, ac y bu'n ofynnol i'r BBC gyflawni rhwymedigaethau newydd, gan gynnwys ariannu'r World Service, mae ein cyllid wedi lleihau mewn termau real. Yn y cyfamser, mae'r farchnad ehangach o'n cwmplas wedi cael ei gweddnewid yn aruthrol, gydag uwch-chwyddiant fwyfwy cyflym mewn meysydd allweddol fel drama a chomedi, hawliau chwaraeon a chostau talent.

Wrth wraidd ein dull o gynnal gwariant a chyflawni rhwymedigaethau ariannol newydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf roedd rhaglen rheoli costau sylweddol a helaeth. Rydym wedi gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac ailgyfeirio gwariant a symleiddio gweithdrefnau mewn ffordd sy'n cefnogi BBC mwy cynaliadwy a chreadigol.

Fel y noda Anne Bulford yn ei hadolygiad ariannol fel y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, rydym wedi gwneud cryn dipyn er mwyn creu BBC symlach, mwy darbodus a mwy effeithlon. Rydym wedi lleihau gorbenion i lefelau sy'n arwain y diwydiant: dim ond 6% o'n costau rheoladwy. Mae hyn yn well na'r rhan fwyaf yn y sector preifat, ac mae'n golygu ein bod yn perthyn i'r 25% o sefydliadau mwyaf effeithlon nid er elw a reoleiddir gan feincnodau yn y DU. Gyda'i gilydd, erbyn diwedd 2018 byddwn wedi cyflawni mwy na £200 miliwn o arbedion cylchol blynyddol.

Wrth gwrs, mae mwy i'w wneud. Gwyddom y bydd angen i ni anelu hyd yn oed yn uwch. Mae llawer mwy o heriau o'n blaenau wrth i ni geisio cyflawni ein targedau o ran cyflawni arbedion ac ymateb i'r heriau ariannol sylweddol a wynebwn yn awr. Mae'r her fwyaf dybryd o'r rhain, wrth gwrs, yn deillio

Mae sicrhau bod cronfa o dalent newydd ar gael yn hanfodol i ddyfodol y BBC a diwydiannau creadigol ehangach y DU. Mae cymryd risgiau gyda lleisiau newydd ffres o flaen y camera a'r tu ôl iddo yn hollbwysig i'r BBC ac i sicrhau ei fod yn gwasanaethu'r cyhoedd yn y ffordd orau bosibl.

Drwy gefnogi syniadau a safbwyntiau newydd, a thrwy gymryd risgiau creadigol, bydd y BBC, nid yn unig yn adlewyrchu holl amrywiaeth Prydain fodern yn well, ond bydd hefyd yn cyflwyno rhaglennu sydd hyd yn oed yn fwy diddorol, perthnasol ac yn torri tir newydd. Mae cyfresi comedi llwyddiannus fel *This Country* a *Famalam* yn enghreifftiau gwych o'n hymrwymiad i gefnogi lleisiau cyffrous newydd, ac ystyriaeth fod hyn yn rhan ganolog o'n cenhadaeth fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

Mae 17 o wobrau BAFTA a 18 o wobrau rhaglenni RTS yn adrodd cyfrolau am lwyddiannau creadigol y BBC eleni. Rwyf mor falch bod yr ymrwymiad i gymryd risgiau, adrodd straeon pwysig, a buddsoddi mewn talent newydd wedi'i gydnabod mor eang gan gynulleidfaoedd a'r diwydiant fel ei gilydd.

Adlewyrchu'r DU gyfan

Yn fy marn i, ni fu rhaglenni fel y rhai a nodir yma – cyfresi Prydeinig o'r radd flaenaf sy'n adlewyrchu'r genedl gyfan ac yn taro deuddeg gyda chynulleidfaoedd Prydeinig – erioed yn fwy pwysig. Nac ychwaith y fffaith, wrth i ni ymateb i anghenion DU fwyfwy amrywiol a datganoledig, ein bod yn gwneud newidiadau mawr er mwyn buddsoddi mwy yn ein gwledydd.

Yn yr Alban, rydym yn lansio sianel newydd sbon, gydag awr newyddion arbennig a fydd yn cyfuno newyddion o'r Alban a gweddill y DU. Yng Nghymru, rydym yn canolbwyntio ar fuddsoddi yn BBC One ac iPlayer, ac yn atgyfnerthu ein gwasanaethau symudol. Ac yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn gweithio ar wasanaeth newyddion ar-lein gydag arlwy newyddion gwell drwy gydol yr wythnos.

Ynghyd â'n gwasanaethau newyddion, rydym hefyd wedi ymrwmo'n fwy i adrodd straeon ein gwledydd. Mae'r canolfannau cynhyrchu drama sydd gennym yng Nghaerdydd, Glasgow a Belfast yn helpu i ddenu syniadau a thalent, darganfod a datblygu talent leol, a chreu swyddi a buddsoddiad newydd. Ac eleni mae rhaglenni fel *Keeping Faith* yng Nghymru, *Shetland* yn yr Alban a *Come Home* yng Ngogledd Iwerddon wedi helpu i daflu goleuni ar ein gwledydd a siarad yn uniongyrchol â'u cymunedau.

Ein rôl o ran creadigrwydd Prydeinig

Ar hyn o bryd, mae hyn yn annatod. Yn y DU, rydym yn hoffi rhaglenni byd-eang mawr sydd wedi'u cynllunio i deithio'n eang ac sydd ag apêl ryngwladol, ond rydym hefyd am gael cynnwys sydd â rhywbeth dyls a pherthnasol i'w ddweud am ein cymdeithas ac a all ein helpu i'n deall ni ein hunain fel gwlad.

Ni allai hyn fod yn fwy hanfodol ar adeg pan fo'r DU yn teimlo'n fwyfwy darniog gartref ac yn ceisio ailddiffinio ei hunaniaeth dramor. Eto i gyd, ni fu cynnwys Prydeinig yn wynebu mwy o fygythiad erioed. Mae ein hamgylchedd cyfryngau ni heddiw yn fwyfwy byd-eang, ac yn cael ei ddominyddu fwyfwy gan nifer fach o gewri yn yr UD sydd â grym creadigol ac ariannol anhygoel.

Mae hyn wedi bod o fudd mawr i gynulleidfaoedd wrth wella ansawdd a chynnig mwy o ddewis. Ond mae hefyd wedi cynyddu costau ar draws y farchnad. Ac mae wedi gwneud hynny ar adeg pan fo mwy o bwysau ar gyllideb y BBC – sef y buddsoddwyr unigol mwyaf mewn talent a syniadau Prydeinig ers cryn amser – a phan fo'n gallu i ariannu cynnwys Prydeinig gwreiddiol wedi crebachu. Canlyniad hyn oll yw bod risg wirioneddol i'r arlwy Prydeinig y mae cynulleidfaoedd Prydeinig yn dibynnu arno. Ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau. Yn wir, dros y 10 mlynedd nesaf, disgwyliwn weld bwlch mawr iawn rhwng y cyfanswm a gaiff ei wario ar gynnwys y DU nawr a'r swm a gaiff ei wario yn y dyfodol.

o'r ffaith y bydd cost trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed – a ariannwyd gan y Llywodraeth yn flaenorol – yn cael ei throsglwyddo i'r BBC o 2020. Bydd hyn yn arwain at wneud penderfyniadau anodd yn y dyfodol, ond yr hyn sy'n glir yw ein bod ni, fel sefydliad, yn ymrwymedig i'n nod o fod mor effeithlon â phosibl.

Tegwch ac amrywiaeth

Yn ogystal â phwysau ariannol, rydym hefyd yn wynebu heriau sefydliadol eraill. Nid lleiaf yw sicrhau mai'r BBC yw un o'r llefydd gorau a thecaf i weithio ynddo a bod ein gweithlu yn adlewyrchu'r wlad i gyd.

Mae'r BBC yn credu mewn cydraddoldeb: ni ddylai neb gael cyflog gwahanol ar sail rhyw. Yn fwy na hynny, cydnabyddwn fod gennym rôl arbennig i'w chwarae wrth gynrychioli'r DU ac arwain y ffordd. Dyna pam ein bod yn benderfynol o ddangos esiampl o ran cyflog a chydaddoldeb rhwng y rhywiau.

Gwyddom nad yw'n ddigon dweud bod ein bwch cyflog rhwng y rhywiau yn llai na'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill yn y cyfryngau. Mae'r cyhoedd, yn gwbl gywir, yn disgwyl i ni gyrraedd safon uwch. Dyna pam ein bod wedi ymrwymo i gau'r bwch cyflog rhwng y rhywiau erbyn 2020 – rhywbeth nad yw'r un sefydliad mawr arall yn y cyfryngau wedi'i wneud, hyd y gwyddom – a pham ein bod am weld nifer gyfartal o ddynion a merched ar ein tonfeddi awyr erbyn y flwyddyn honno.

Hefyd, rydym yn llwyr ymrwymedig i gyflog cyfartal. Gwyddom nad yw hyn yn broblem strwythurol ar draws y BBC, ond gwyddom hefyd fod angen i ni fynd i'r afael â phroblemau go iawn a phwysig o hyd ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn i wneud hynny. Fel rhan o hyn, rydym am sicrhau bod pob unigolyn o fewn y BBC yn cael y cyfle i gamu ymlaen yn y sefydliad, waeth beth fo'i rywedd, hil, anabledd neu gefndir. Rydym wedi bod yn edrych ar hyn yn ofalus dros y misoedd diwethaf ac wrthi'n amlinellu cynlluniau i alluogi pobl dalentog i gamu ymlaen yn gyflymach o fewn y BBC, gan ganolbwyntio'n benodol ar gael mwy o ferched a mwy o bobl o gefndiroedd BAME ar y lefelau uchaf.

Ac rydym wedi addo y bydd ein gweithlu o leiaf yr un mor amrywiol ag unrhyw weithlu arall yn y diwydiant, os nad yn fwy amrywiol, erbyn 2020. Rydym eisoes ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed o sicrhau bod 15% o staff o gefndir BAME erbyn y flwyddyn honno, gyda'r gyfran yn cynyddu o 13.1% i 14.8% ers 2015. Yn y cyfamser, ym mis Mawrth 2018, roedd ein bwch cyflog BAME yn 0.4%.

Ond gwyddom fod llawer mwy i'w wneud. Ein nod fel sefydliad yw dod yn gryfach a bod yn fwy cynrychioliadol, yn ogystal â gosod y safon o ran cydraddoldeb a thegwch i'r wlad gyfan a wasanaethir gennym.

Ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd

Mae hyn oll yn gosod yr her y gwnaeth y BBC osod iddo'i hun ar ddechrau'r llynedd – ail-greu'r sefydliad ar gyfer cenhedlaeth newydd – mewn cyd-destun ehangach. Hyd yn oed dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld diwydiant y cyfryngau yn newid yn aruthrol. Mae cewri cyfryngau byd-eang yn cael eu prynu a'u gwerthu mewn ras am faint. Mae gan ddefnyddwyr fwy o ddewis a mwy o gystadleuaeth am eu hamser a'u sylw nag erioed. Mae arferion cynulleidfaoedd yn newid yn gyflymach nag erioed.

Ni welir hyn yn fwy amlwg nag ymhlith cynulleidfaoedd ifanc. Mae oedolion ifanc yn gwylio llai o deledu na phobl hŷn, ac maent yn gwrandao ar lawer llai o radio. Mewn ychydig flynyddoedd yn unig, mae fideo ar-lein yn unig wedi tyfu o 5% o ddefnydd pobl ifanc i 25%. Mae ffrydio cerddoriaeth wedi tyfu o tua 10% i tua 30% o wrando.

Lle mae cynulleidfaoedd iau yn arwain y ffordd, bydd cynulleidfaoedd hŷn yn debygol o'u dilyn. Dyna pam ein bod wedi gosod yr her hon wrth wraidd ein strategaeth i ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd. Rydym am sicrhau ein bod yn parhau i gyrraedd pawb er mwyn hysbysu, addysgu a diddanu ar adeg pan fo'r genhadaeth honno yn bwysicach nag erioed.

Ni fu erioed mor bwysig i'r BBC sicrhau mai ef yw'r llais y mae'r DU yn ymddiried ynddo, gan ddarparu newyddion a gwybodaeth gywir a sicrhau bod pob safbwynt yn cael ei glywed. Ni fu'r BBC erioed mor hanfodol wrth wraidd cryfder creadigol a diwylliannol y DU. Ni fu erioed mor bwysig i atgyfnerthu llais byd-eang unigryw'r BBC, wrth i Brydain geisio ail-lunio ei chydberthynas â'r byd.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein cylch gwaith creadigol ac wedi cyflawni ein dibenion cyhoeddus. Maent yn dangos y bu hon yn flwyddyn neilltuol i'r BBC, ond rydym yn parhau i fod yn llwyr ymwybodol o'r heriau sy'n ein hwynebu wrth i ni geisio ail-greu'r BBC at y dyfodol.

Rwy'n ffyddiog iawn y gallwn lwyddo. Rwy'n benderfynol o sicrhau y gall BBC cryf fod yn hyrwyddwr pwerus i'r DU, gartref a thramor, yn y blynyddoedd i ddod.



Tony Hall, yr Arglwydd Hall o Benbedw CBE

Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd
21 Mehefin 2018

Ymateb i'n heriau

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018/19, lle nodwyd yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y misoedd i ddod er mwyn ateb yr heriau strategol a amlinellir yn y ddogfen hon.

Mae digon o waith bellach yn mynd rhagddo, ond ymhlith rhai o'r meysydd rydym yn canolbwyntio arnynt yn arbennig mae:

Mynd i'r afael â newyddion ffug

- Reality Check – ein gwasanaeth cadarnhau ffeithiau estynedig
- 'Newyddion araf' – sylw manylach a dadansoddi'r digwyddiadau
- Gwasanaethau newyddion ar-lein – gwneud mwy i gynulleidfaoedd iau ac anos eu cyrraedd
- Dealltwriaeth o'r cyfryngau – mentora arbenigol mewn ysgolion ledled y DU

Buddsoddi mewn cynnwys, talent newydd a lleisiau newydd o bob cwr o'r DU

- Talent Brydeinig – comisiynu cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf o bob cwr o'r DU
- Radio lleol – buddsoddiad newydd mewn lleisiau lleol a gwasanaethau lleol
- Y gwledydd – trawsnewid gwasanaethau Gwledydd y BBC, gan gynnwys sianel newydd yn yr Alban

Ail-greu'r ffordd rydym yn cyflwyno ein cynnwys

- iPlayer – ail-greu drwy fwy o bersonoli a gwell profiad i ddefnyddwyr
- Sain – llwyfan mwy uchelgeisiol a greddfodol ar gyfer ein holl gynnwys radio a sain

Cyflwyno'r DU i'r byd

- BBC World Service – yr ehangu mwyaf ers y 1940au
- BBC Studios – menter newydd sbon er mwyn cyflwyno creadigrwydd Prydeinig i gynulleidfaoedd byd-eang newydd

Gellir cael rhagor o fanylion am y rhain a'n holl flaenoriaethau strategol ar gyfer ail-greu'r BBC yn ein Cynllun Blynyddol: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/annual_plan_2018

Ein strwythur adrodd

Mae'r ffordd y cawn ein llywodraethu a'n hariannu wedi'i sefydlu gan y Siarter Frenhinol. Y Siarter a'r Cytundeb ategol yw sail gyfansoddiadol y BBC – maent yn nodi ein dibenion cyhoeddus, yn gwarantu ein hannibyniaeth ac yn amlinellu dyletswyddau'r Bwrdd.

Daeth ein Siarter bresennol yn weithredol ar 1 Ionawr 2017 yn dilyn proses adolygu Siarter eang a gynhaliwyd gan y Llywodraeth.

Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, rhoddwyd trefniadau llywodraethu a rheoleiddio newydd ar waith a sefydlodd un Bwrdd ar gyfer y BBC ac a roddodd y cyfrifoldeb o reoleiddio'r BBC yn llwyr i Ofcom.

Diwygiodd y Siarter newydd y dibenion cyhoeddus, yr adroddwn yn eu herbyn yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae'r Siarter a'r Cytundeb, ynghyd â'n rhwymedigaethau llywodraethu a rheoleiddio, yn diffinio'r ffordd rydym yn gweithredu a'r ffordd rydym yn adrodd am ein gweithgarwch a'n cynnydd.

Llywodraethu

Bwrdd y BBC

Caiiff y Bwrdd, a sefydlwyd ar 3 Ebrill 2017, ei gadeirio gan Syr David Clementi, gyda deg cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus. Gwna hyn drwy:

- bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y BBC
- sefydlu'r cylch gwaith creadigol
- pennu cyllideb y BBC
- pennu'r fframwaith ar gyfer asesu perfformiad.

Mae'r Bwrdd yn gwneud ei benderfyniadau er budd y cyhoedd ac mae'n gyfrifol am ein holl weithgareddau yn cynnwys y gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, yn ogystal â'n gweithgareddau masnachol, yn y DU a ledled y byd.

Mae'r Bwrdd yn dangos ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau drwy gyhoeddi dwy ddogfen lywodraethu allweddol; y Cynllun Blynyddol sy'n edrych tuag at y dyfodol a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn.

Cynllun Blynyddol

Rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol yn nodi ein bwriadau a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Cynllun Blynyddol yn rhan hanfodol o'n hatebolrwydd i dalwyr ffi'r drwydded ac mae'n ddogfen allweddol yn y gydberthynas rhwng y BBC ac Ofcom. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer barnu p'un a ydym wedi cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus.

Mae'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am dri maes:

- cynlluniau creadigol y BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod
- strategaeth tair blynedd a chynllun gwaith y BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod
- cyfraniad pob un o wasanaethau'r BBC at ei natur nodedig.

Rheoleiddio allanol

Adroddiad Blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus a'r graddau y mae'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun Blynyddol (yn ogystal ag ymrwymïadau rheoleiddiol ac ymrwymïadau eraill) wedi'u cyflawni. Caiff ei gyhoeddi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

Un o'r newidiadau allweddol yn yr Adroddiad Blynyddol eleni yw ei fod wedi'i strwythuro o amgylch adrodd sut rydym wedi bodloni pob un o'r dibenion cyhoeddus.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn dal i adrodd am 2017/18 gyfan yn erbyn Trwydded Gwasanaeth flaenorol Ymddiriedolaeth y BBC a gofynion Haen 2 Ofcom. Mae hyn am na ddaeth fframwaith gweithredu Ofcom yn weithredol tan 1 Ionawr 2018 ar gyfer targedau'r flwyddyn galendr a than 1 Ebrill 2018 ar gyfer targedau'r flwyddyn ariannol.

Ofcom

Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yw corff rheoleiddio darlledu, telathrebu a phost y DU.

Cymerodd Ofcom gyfrifoldeb rheoleiddiol llawn am y BBC ar 3 Ebrill 2017, ar yr un pryd ag y dechreuodd y Bwrdd newydd lywodraethu yn hytrach nag Ymddiriedolaeth y BBC. Mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC drwy fframwaith gweithredu a thrwy bennu trwydded ar gyfer y BBC sy'n cynnwys yr amodau rheoleiddio y mae'n ofynnol i'r BBC eu bodloni. Mae Ofcom hefyd yn asesu perfformiad, yn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol ac yn rheoleiddio'r rhyngweithio rhwng gweithgarwch masnachol y BBC a'i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn rheoleiddio cynnwys ac allbwn y BBC yn erbyn ei God Darlledu.

Y trefniadau archwilio

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Syr Amyas Morse KCB yw archwilydd allanol y BBC a chaiff ei gefnogi yn ei rôl gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG).

Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilio, ardystio ac adrodd ar gyfrifon grŵp y BBC a chaiff ei benodi'n archwilydd is-gwmnïau perthnasol y BBC oni fydd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a'r BBC yn cytuno fel arall. Mae'r SAG hefyd yn cynnal archwiliadau gwerth am arian ar y defnydd o ffi'r drwydded ac mewn perthynas â gweithgareddau masnachol y BBC. Mae Syr Amyas a'r SAG yn annibynnol ar Lywodraeth.


Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Mae dibenion cyhoeddus y BBC wedi'u cynnwys yn y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb ac maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae'r dibenion cyhoeddus yn amlinellu ein gwerthoedd wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu ac maent yn rhoi fframwaith clir ar gyfer ein dwyn i gyfrif. Mae'r tudalennau canlynol yn nodi sut rydym wedi bodloni gofynion y dibenion cyhoeddus hynny.

Mae rôl y BBC mewn bywyd yn y DU yn glir o'r hyn a nodir isod; pan ofynnir i bobl ddewis yr un darparwr cyfryngau sy'n gwneud fwyaf dros bobl yn y Deyrnas Unedig, y BBC a ddewisir amlaf ar draws amrywiaeth o nodweddion.

O'r holl ddarparwyr cyfryngau (teledu, radio, cylchgronau, gwefannau, apiau neu gyfryngau cymdeithasol), pa un sy'n gwneud y mwyaf i/sydd â'r mwyaf o...



- a. Helpu pobl yn y DU i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch
- b. Helpu pobl yn y DU i ddysgu pethau newydd
- c. Cynnwys a gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl yn y DU
- d. Cynnwys a gwasanaethau creadigol i bobl yn y DU
- e. Cynnwys a gwasanaethau nodedig i bobl yn y DU
- f. Cynnwys a gwasanaethau sy'n berthnasol i bobl yn y DU
- g. Adlewyrchu bywyd mewn rhannau gwahanol o'r DU
- h. Adlewyrchu'r DU i weddill y byd

Ffynhonnell: Ipsos MORi ar gyfer y BBC, 3,568 o oedolion 16+ yn y DU, Ebrill-Mai 2018.

1

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 20 i 23

2


Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 24 i 27

Strictly Come Dancing


3

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

 Darllenwch fwy ar dudalennau 28 i 37


4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig

 Darllenwch fwy ar dudalennau 38 i 51

5

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

 Darllenwch fwy ar dudalennau 52 i 58

1 Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

Diben pwysicaf y BBC yw hysbysu. Mae'r newyddion o bwys i bob dinesydd. Mewn democratiaeth, mae'n wasanaeth cyhoeddus hanfodol. Mae angen i bob aelod o'r cyhoedd weld gwybodaeth ddibynadwy er mwyn deall y byd o'u cwmpas a gwneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain, eu cymunedau, eu gwledydd a'u dyfodol ar y cyd.

Mewn oes mor ganlyniadol – lle mae'r newyddion yn cyfrif a lle ceir cystadleuaeth mor frwd ynghylch y ffordd y caiff straeon eu hadrodd – mae angen BBC annibynnol, diduedd a chywir yn fwy nag erioed.





Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU, gan ddarparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ond mae'r cyd-destun strategol ar gyfer y gwaith hwnnw wedi dod yn fwy heriol nag erioed. Mae technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol wedi cyfrannu at bolareiddio ein trafodaeth genedlaethol. Mae gwahaniaethau cenedliadol, gwleidyddol a chymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae newyddion ffug yn dwysáu'r her honno drwy amharu ar ymddiriedaeth yn y cyfryngau, yn cynnwys y BBC, a phylur llinell rhwng realiti a 'ffeithiau amgen' fel y'u gelwir. O ystyried yr heriau hyn, mae'n dyst i ansawdd ein newyddiaduraeth mai yn BBC Newyddion yr ymddiriedir fwyaf: pan ofynnir i bobl ddewis yr un ffynhonnell maent yn troi ati gyntaf ar gyfer newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf, BBC Newyddion a ddewisir amlaf, ac a gaiff ei enwi gan 55% o gynulleidfaeodd, bum gwaith yn fwy na'r darparwr nesaf agosaf (ITV).

Ond caiff y tueddiadau hyn eu hamlygu yn y ddemograffeg y mae'r BBC yn ei chael hi'n anoddaf ei gyrraedd. Mae pobl dan 35 oed yn enwedig yn treulio llai o amser gyda BBC Newyddion ac mae hyn yn arbennig o amlwg mewn grwpiau demograffig cymdeithasol llai cefnog.

Bydd yn heriol mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae BBC Newyddion yn parhau i wneud cynlluniau i gyflawni'r

arbedion blynyddol sy'n ofynnol gan setliad ffi'r drwydded 2015. Bydd cyflawni'r arbedion hyn hefyd yn ein helpu i wneud buddsoddiad ychwanegol mewn cynnwys newydd ar gyfer ein cynulleidfaeodd.

Eleni, gwnaethom barhau i ddarparu allbwn gwybodaeth, newyddion, materion cyfoes a ffeithiol dibynadwy yr ymddiriedir ynddo gan gyrraedd y safonau golygyddol uchaf. Rydym wedi ceisio cyrraedd a gwasanaethu pob cynulleidfa gyda'r allbwn hwn, er mwyn cyfrannu at gymdeithas fwy gwybodus, dinasyddiaeth fwy gweithredol a byd o ddealltwriaeth ddyfnach. Rydym yn falch o'r ffaith y defnyddir gwasanaethau BBC Newyddion gan wyth o bob deg oedolyn yn y DU bob wythnos ac mae 73% o oedolion o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd heddiw. Ond rydym yn ymwybodol bod yr heriau a wynebwn wedi cynyddu law yn llaw â phwysigrwydd ein rôl.



night






Mae'r angen am BBC annibynnol, diduedd a chywir yn fwy nag erioed... ond mae'r cyd-destun strategol ar gyfer y gwaith hwn yn fwy heriol nag erioed.

O'r holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, cylchgronau, gwefannau, apiau neu gyfryngau cymdeithasol), pa un ffynhonnell rydych fwyaf tebygol o droi ati...

...i gael newyddion diduedd

...i gael y newyddion rydych yn ymddiried ynddo fwyaf

...i gael newyddion cywir



Ffynhonnell: Ipsos MORI, 2,467 o oedolion 15+ yn y DU sy'n dilyn y newyddion, Mawrth-Ebrill 2018.

Cyflwyno gwybodaeth a newyddion diduedd

Bu hon yn flwyddyn llawn digwyddiadau newyddion enfawr unwaith eto – yr Etholiad Cyffredinol dirybudd, yr ymosodiadau terfysgol yn Llundain a Manceinion, a thân dinistriol Tŵr Grenfell, yn ogystal â'r tywydd eithriadol a gafwyd ledled y DU. Bu hefyd yn flwyddyn llawn pryderon ynghylch gwybodaeth anghywir a newyddion ffug.

Drwy gydol yr amser, BBC Newyddion oedd y darparwr newyddion mwyaf o hyd ynghyd â ffynhonnell fwyaf dewisol y DU o wybodaeth ddibynadwy, o fwletinâu newyddion y dydd i faterion cyfoes ar y radio, i ffyrdd cynyddol arloesol o adrodd straeon.

Cyrhaeddodd BBC Newyddion dros 80% o oedolion yn y DU bob wythnos ar gyfartaledd a pharhaodd BBC Newyddion Ar-lein i ddenu 30 miliwn o borwyr yn y DU bob wythnos ar gyfartaledd yn 2017.

Denodd yr Etholiad Cyffredinol dirybudd gynulleidfaoedd enfawr ac arweiniodd hyn at y cyfnod prysuraf erioed yn hanes BBC Newyddion Ar-lein, gyda 47.8 miliwn o borwyr yn y DU yn ymweld â safle ac ap y BBC yn ystod wythnos y bleidlais.

Gwnaethom gynnal rhaglen arbennig o bob cwr o'r DU, gan roi llwyfan i'r cynulleidfaoedd. Daeth y *BBC Election Debate* yn fyw o Gaergrawnt; darlledwyd rhaglenni arbennig o *Question Time* yn cynnwys arweinwyr y pleidiau o Efrog a Chaeredin, gyda rhaglen arbennig arall yn benodol ar gyfer Gogledd Iwerddon; daeth *Election Questions* o Abertawe a Bryste; a chynhaliwyd *Newsbeat Youth Debate* ym Manceinion. Cyfwelodd Andrew Neil arweinwyr y pleidiau gwleidyddol mwyaf hefyd.

Dewisodd cynulleidfaoedd mawr deledu'r BBC ar gyfer darllediadau o'r etholiad dros nos a thrwy gydol diwrnod y canlyniadau. Cyrhaeddodd rhaglennu'r canlyniadau cyn 7am 19.1 miliwn o oedolion ar bob sianel, a chyrrhaeddodd darllediadau'r diwrnod canlynol bron i 17 miliwn o wylwyr, gan godi i 24 miliwn gyda bwletinâu newyddion a *Question Time*.

Roedd y tân yn Nhŵr Grenfell yn stori enfawr ac ofnadwy. Bu'r BBC yn gohebu o'r lleoliad am sawl wythnos, yn cynnwys darllediadau allanol *Victoria Derbyshire*. Gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar y stori ac yn benodol ar *Newsnight* y BBC, drwy newyddiaduraeth ymchwiliol ffrensieg Chris Cook ar gladin a diogelwch tân, a chyfrif clodwiw a manwl Katie Razzall o ffawd trigolion y 21ain llawr, rhoddwyd cyfle i'r trigolion adrodd eu straeon eu hunain.

Gwnaethom roi sylw eang ar draws pob allbwn i'r ymosodiadau terfysgol dychrynlyd a effeithiodd ar y DU.

Gwnaethom barhau i ddadansoddi effaith Brexit, gan lansio dadansoddiad misol fesul sector ar faterion fel pysgota a'r sector technoleg.

Parhaodd BBC Newyddion i gyflwyno'r straeon diweddaraf drwy gydol y flwyddyn, yn benodol gwenwyno Sergei Skripal yng Nghaersallong a'r datgeliadau ynghylch cyfarfodydd y cyn Ysgrifennydd Datblygu Rhyngwladol yn Israel, a arweiniodd at ei diswyddiad yn y pen draw.

Fel bob amser, cyflwynodd y BBC adroddiadau rhyngwladol dewr a threiddiol i gynulleidfaoedd y DU – o Syria, er bod mynediad i'r wlad yn anodd a pheryglus, i Myanmar i Yemen.

Parhaodd *Panorama* i gyflwyno ymchwiliadau cudd dylanwadol, gan ddarlledu'r ymchwiliad pwysig i Bapurau Paradwys, a'r ymchwiliad cudd a enillodd wobr BAFTA i ganolfan symud mewnffudwyr yn ogystal ag eitemau golygyddol ar Facebook a sepsis.

Mae'n brawf o ansawdd ein newyddiaduraeth bod cynulleidfaoedd yn parhau i ystyried mai BBC Newyddion yw'r darparwr mwyaf dibynadwy. Ond gwyddom fod angen parhau i ganolbwyntio ar natur ddiuedd ar ôl cyfres o ddigwyddiadau polareiddio – y bleidlais ar annibyniaeth yn yr Alban, Refferendwm yr UE ac Etholiad Cyffredinol 2017 – ac oherwydd y gall barn gyhoeddus ar faterion y dydd groesi llinellau pleidiau traddodiadol. Eleni, roedd 54% o oedolion o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran cyflwyno newyddion a materion cyfoes sy'n ddiuedd ond roedd 26% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. Mae cynulleidfaoedd yn parhau i ystyried mai BBC Newyddion yw'r darparwr mwyaf diduedd – pan ofynnir i bobl enwi'r un ffynhonnell maent yn troi ati gyntaf i gael darllediadau newyddion diduedd, y BBC a ddewisir amlaf, ymhell ar y blaen i'r darparwr agosaf nesaf. Fodd bynnag, nid ydym yn llaesu dwylo mewn perthynas â hyn, ac mae natur ddiuedd yn faes y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn ofalus.

Pan ddaw i ymgysylltu â phobl ifanc, cyrrhaeddodd BBC Newyddion fwy na 70% o bobl ifanc 16-34 oed bob wythnos ar gyfartaledd. Er mwyn ceisio cynnal hyn, rydym yn parhau i geisio ffyrdd o wneud ein newyddion hyd yn oed yn fwy perthnasol, gan adeiladu ar y lefelau uchel o ymddiriedaeth sydd gan bobl ifanc yn BBC Newyddion.

Rydym eisoes wedi bod yn gwneud mwy er mwyn cyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol.

47.8m

Denodd yr Etholiad Cyffredinol gynulleidfaoedd enfawr ac arweiniodd hyn at y cyfnod prysuraf erioed yn hanes BBC Newyddion Ar-lein yn ystod wythnos y bleidlais.



Trafodaeth ar yr Etholiad ar y BBC



Uchod: Gohebdd Clive Myrie ar ran BBC Newyddion o reng flaen argyfwng ffoaduriaid Rohingya

Chwith: Gohebdd Nikki Fox ar sefydliadau i blant ag anableddau a gaiff eu rhedeg gan y wladwriaeth yn Ukraine

Canolbwyntiodd Victoria Derbyshire, a enwyd yn gyflwynydd rhwydwaith y flwyddyn yng ngwobrau RTS, ar fater iechyd sy'n effeithio ar fywydau llawer o ferched ledled y DU, sef mewnbliadau rhywl yn y wain, yn ogystal â'i chyfweiliadau clodwiw â'r pêldroedwyr a gafodd eu cam-drin yn rhywiol. Mae ei rhaglen yn parhau i gael effaith y tu hwnt i deledu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Parhaodd BBC Radio 5 live, a enillodd chwe gwobr ARIA, i arloesi er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Cyrhaeddodd prosiect #mumtakeover yr orsaf, lle cafwyd rhaglen fyw yn trafod materion cyfoes mewn perthynas â bod yn fam ac iechyd meddwl, fwy na 3.5 miliwn o bobl ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddenu merched rhwng 25 a 34 oed yn bennaf.

Canolbwyntiodd *BBC Breakfast* ar brofiadau pobl ag anghenion addysgol arbennig a'u teuluoedd, yn ogystal â herio eu cyflwynwyr i ailsefyll TGAU mathemateg.

Parhaodd BBC Three i gyflwyno materion cyfoes i gynulleidfa ifanc, gyda dulliau gweithredu arloesol fel y gyfres *Sex, Drugs & Murder: Life in the Red Light Zone*, cipolwg digyfaddawd ar fywyd gweithwyr rhyw yn Holbeck yn Leeds, y lle cyntaf yn y DU lle mae'n gyfreithlon i werthu rhyw. Mae'r rhaglen wedi cael 12 miliwn o geisiadau ar iPlayer ers ei lansio.

Mae ein brand BBC Stories wedi ein helpu i ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o gynulleidfaoedd, yn cynnwys merched, pobl ifanc a grwpiau llai cefnog.

Ac mae Newsbeat BBC Radio 1 wedi bod yn mynd i'r afael â materion iechyd meddwl gyda phrosiect *My Mind and Me*.

Nid yw'r pryderon ynghylch gwybodaeth anghywir ar-lein wedi lleihau eleni. Cynyddodd brwydr y BBC yn erbyn newyddion ffug a'r ymgyrch ar gyfer llythrennedd yn y cyfryngau wrth i ni lansio gêm ryngweithiol ar-lein, BBC iReporter, a grëwyd gan stiwdios animeiddio Aardman. Mae'r gêm yn galluogi chwaraewyr i roi cynnig ar fod yn ohebydd i'r BBC yng nghanol yr ystafell newyddion, gan eu helpu i adnabod 'newyddion ffug'. Mae

hwn yn un o amrywiaeth o adnoddau am ddim i ysgolion a dosbarthiadau chweched dosbarth ledled y DU.

Parhaodd Reality Check, ein tîm gwirio ffeithiau a ehangwyd, i ddadansoddi sion a damcaniaethu ar-lein. Gwnaethom gyflwyno fersiwn arbennig o Reality Check ar y teledu yn ystod yr Etholiad Cyffredinol, lle aeth Steph McGovern i'r afael â materion fel trethi a phensiynau.

Drwy fuddsoddi yn ein newyddiaduraeth fideo a data, llwyddom i roi profiadau mwy personol i'n cynulleidfaoedd, fel y prosiect clodwiw NHS Tracker, sy'n galluogi defnyddwyr i ddysgu sut mae eu gwasanaeth lleol yn perfformio yn erbyn targedau allweddol.

Rydym hefyd wedi bod yn canfod ffyrdd hyd yn oed mwy arloesol i bobl archwilio'r byd o'u cwmpas, gyda'n prosiect realiti rhitwir *Damning The Nile*, yn cynnig profiad fideo 360 gradd.

Rydym wedi canolbwyntio ar y tywydd mewn mwy nag un ffordd eleni. Gan weithio gyda'n darparwr newydd, MeteoGroup, gwnaethom lansio gwasanaeth tywydd newydd, gyda mwy o ddata, graffeg newydd ar-yr-awyr a dyluniad mwy cyfoes gyda mapiau mwy realistig.

A denodd y tywydd gwael dros y gaeaf gynulleidfaoedd enfawr i'r BBC. Trodd 69% o oedolion yn y DU at ddarllediadau newyddion Rhwydwaith y BBC ar y teledu yn ystod wythnos 26 Chwefror, wrth i'r 'Dihiryn o'r Dwyrain' daro rhannau o'r DU, a gwelwyd y ffigurau uchaf erioed ar gyfer BBC Weather ar-lein gyda 24.9 miliwn o borwyr yn y DU yn yr un wythnos. Trodd cynulleidfaoedd hefyd at ddarllediadau rhanbarthol, gyda chynulleidfa o 8.6 miliwn ar gyfartaledd ledled y DU ar gyfer bwletinaw 6.30pm ar 1 Mawrth, sef y ffigur uchaf a welwyd ers pum mlynedd.

Drwy gydol y flwyddyn, mae BBC Newyddion wedi parhau i hysbysu ei gynulleidfaoedd gan gyflwyno adroddiadau yn ddiuedd, yn gywir ac yn annibynnol.



Parhaodd BBC Newyddion Ar-lein i ddenu 30 miliwn o borwyr bob wythnos ar gyfartaledd yn 2017



Parhaodd BBC Radio 5 live i arloesi er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd

2 Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

O'i ddyddiau cynharaf, mae'r BBC wedi hysbysu, addysgu a diddanu plant y DU. Mae ein hallbwn i blant yn helpu cenedlaethau i ddatblygu eu sgiliau iaith, eu sgiliau darllen a'u sgiliau cymdeithasol mewn ffyrdd hwyliog, chwareus. Wrth iddynt dyfu drwy blentyndod ac i mewn i'w harddegau, mae cynnwys plant y BBC yn tyfu gyda nhw, gan eu diddanu ond hefyd eu helpu i ganfod eu ffordd yn y byd o'u hamgylch, dysgu beth sy'n tanio eu chwilfrydedd ac yn eu hysbrydoli i ddsygu.

Yn y cyfryngau byd-eang heddiw sydd wedi'i fasnacheiddio'n sylweddol, mae mor bwysig ag erioed i arddel gwerthoedd ymddiriedaeth, diogelwch a hwyl sy'n golygu bod plant a'u rhieni yn gwerthfawrogi'r BBC.

Mae'r genhedlaeth hon o blant yn ymgorffori'r trawsnewidiad digidol. Dyma'r grŵp cynulleidfa sy'n newid gyflymaf. Dyna pam y gwnaethom gyhoeddi'r llynedd ein bod am fuddsoddi £34 miliwn ychwanegol i'n cynnwys ar gyfer plant ac rydym yn buddsoddi mwy mewn cynnwys digidol gan sicrhau bod ein sianelau daearol yn parhau i ddangos cynnwys o ansawdd sy'n adlewyrchu ein holl gynulleidfa.

Er mai teledu yw prif lwyfan gwyllo i blant o hyd, mae'r hyn maent yn ei ystyried yn 'deledu' a sut maent yn ei gyrchu yn esblygu'n gyflym. Mae cynnwys plant wedi parhau i ffynnu ar iPlayer gydag 1.1 biliwn o geisiadau yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae 43% o blant 5-11 oed bellach yn defnyddio eu ffonau symudol i wyllo'r teledu ac mae plant 5-15 oed bellach yn treulio mwy o amser bob wythnos ar-lein nag yn gwyllo'r teledu. O ganlyniad, mae cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog CBBC ymysg ei chynulleidfa darged sef plant 6-12 oed wedi gostwng i lai na 25% yn 2017/18. Nid yw'r

ffigurau ar-lein wedi gwneud iawn am y gostyngiad hwn eto. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad CBeebies ymysg plant dan 6 oed wedi aros yn llawer mwy sefydlog, er gwaethaf cystadleuaeth gynyddol. Ac mae canran y plant dan 16 oed sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos yn uchel o hyd ar 83%.

Ni fu rôl unigryw'r BBC mewn cyfryngau i blant erioed mor bwysig. Ni yw buddsoddw'r mwyaf y DU o bell ffordd mewn cynnwys brodorol. Rydym yn adlewyrchu amrywiaeth genedlaethol a lleisiau plant Prydain mewn ffordd hollol unigryw. Ac rydym yn chwarae rhan unigryw mewn dysgu ffurfiol – gydag adnoddau gwerthfawr y mae plant, rhieni ac athrawon fel ei gilydd yn ymddiried ynddynt.

Eleni hefyd gwnaethom ddechrau trawsnewid ein harlwy addysgol ac ym mis Mawrth gwnaethom nodi amrywiaeth o flaenoriaethau, yn cynnwys gwella cyfraddau llythrennedd ac agor y byd cyflogaeth i bobl ifanc.

Wrth i ni geisio ail-greu'r BBC i genhedlaeth newydd, rydym yn wynebu heriau go iawn wrth feithrin cydberthynas gydol oes gyda chynulleidfa oed ifanc. Ar yr un pryd, rydym wedi dechrau trawsnewid ein cenhadaeth mewn addysg drwy weithio i alluogi pawb i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys addysgol, gwasanaethau a phrofiadau cyfranogol gan y BBC, gan bartneriaid a'n gilydd.





Mae mor bwysig ag erioed i arddel gwerthoedd ymddiriedaeth, diogelwch a hwyl sy'n golygu bod plant a'u rhieni yn gwerthfawrogi'r BBC.

83%

Cyrhaeddiad dan 16 oed
% y plant dan 16 oed sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

(Meh17 – Maw18)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

06:12

Cyfanswm yr amser a dreulir (y pen)

Faint o amser y mae plant dan 16 oed yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos (oo:mm).

(Meh17 – Maw18)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

67%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddysgu pethau newydd.

(14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

7/10

Canfyddiad plant dan 16 oed o'r BBC: sgôr gymedrig allan o 10.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

62%

% y rhieni sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu.

(9% o'r farn ei fod yn aneffeithiol)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

Cyflenwi dysgu i bobl o bob oedran

PLANT

Mae diben allbwn y BBC i blant yr un fath o hyd: hysbysu, addysgu a diddanu ein cynulleidfaoedd ifanc. Ond mae'n rhaid i ni esblygu'r hyn a wnawn a sut y gwnawn hynny wrth i arferion defnyddio ein cynulleidfaoedd ifanc barhau i newid yn gyflym. Rydym yn dal i helpu plant i ddatblygu eu sgiliau iaith, darllen a'u sgiliau cymdeithasol, ond, bellach, mae angen i ni hefyd eu helpu i ganfod eu ffordd yn y byd digidol a'u helpu i wneud eu profiadau ar-lein yn ddiogel.

Wrth i blant wyllo mwy o gynnwys o dramor, mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi mewn cynnwys nodedig o ansawdd uchel o'r DU sy'n adlewyrchu ein holl gynulleidfa. Ond mae'n mynd yn fwyfwy anodd cyrraedd cynulleidfaoedd iau drwy lwyfannau traddodiadol. Cyrhaeddodd YouTube ac YouTube Kids 73% o blant 6-12 oed. Mae hyn yn her wirioneddol i'r BBC ac er mwyn ymateb yn effeithiol, mae angen i ni wneud pethau'n wahanol.

Eleni, gwelwyd newid strategol yn y ffordd rydym yn cyflwyno ein cynnwys i gynulleidfaoedd. Mae ein dwy sianel linellol yn bwysig i ni o hyd a nhw yw'r 'ffenestr siop' ar gyfer ein cynnwys o hyd, ond rydym yn symud tuag at arlwy aml-lwyfan mwy datblygedig a chysylltliol a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar ein harlwy digidol.

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi y byddem yn buddsoddi £34 miliwn ychwanegol yn ein cynnwys i blant ac rydym wedi dechrau gwneud hynny ar ein holl lwyfannau. Rydym wedi buddsoddi mwy mewn cynnwys digidol tra'n sicrhau bod ein sianelau daearol yn parhau i ddangos cynnwys o ansawdd sy'n adlewyrchu ein holl gynulleidfa. O'r animeiddiad newydd cyn oedran ysgol *Bitz and Bob* i *Creeped Out*, drama gyfforus wedi'i hanelu at ein cynulleidfa hŷn, gwelwyd cynnwys newydd a ffres yn 2017 sy'n parhau i wthio ffiniau. Y llynedd, ni oedd comisiynydd mwyaf cynnwys yn y DU o bell ffordd, gyda 95% o'n holl gomisiynau yn dod gan ein tîm mewnol neu gan gwmnïau annibynnol yn y DU. Ac rydym yn creu cynnwys unigryw; dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflwyno drama fyw *Waffle the Wonderdog* i CBeebies, a chafodd plant cyn oedran ysgol a'u rhieni eu cyfareddu gan *The Tempest* wrth i ni gyflwyno mwy o Shakespeare ar y sianel. Gwnaethom gyflwyno *Dennis &*

78%

Bitesize: % y disgyblion a gyrhaeddir
% y disgyblion ysgol uwchradd sy'n defnyddio Bitesize

2016/17: 80%

Ffynhonnell: YouGov

41%

Bitesize: % y disgyblion a gyrhaeddir
% y disgyblion ysgol gynradd sy'n defnyddio Bitesize.

2016/17: 45%

Ffynhonnell: YouGov

82%

Bitesize: % y defnyddwyr dan 16 oed
sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu gyda'u gwaith ysgol/gwaith cartref

2016/17: 81%

Ffynhonnell: YouGov

64%

Bitesize: % y defnyddwyr ysgol
uwchradd sy'n dweud bod Bitesize wedi eu helpu i gael graddau gwell

2016/17: 57%

Ffynhonnell: YouGov

Gnasher i genhedlaeth newydd o wylwyr CBBC gyda fersiwn hollol newydd, ac mae *Jamie Johnson* yn cyflwyno drama bêl-droed i'n cefnogwyr chwaraeon ifanc. Ac mae *Newsround* yn dal i gyflwyno'r newyddion mewn ffordd y gall plant ei deall ac uniaethu â hi, a chafodd lawer o ganmoliaeth y llynedd am ei ffordd o fynd i'r afael â straeon cenedlaethol yn cynnwys y bomio ym Manceinion.

Rydym hefyd yn newid y ffordd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod mor effeithlon â phosibl, gan ganolbwyntio ar lai o frandiau allweddol sy'n cyflwyno ar ein holl lwyfannau, ac rydym wedi symleiddio ein proses gomisiynu i adlewyrchu hyn.

Ar gyfer ein cynulleidfaoedd hŷn, rydym wedi lansio cyfrif CBBC ar Instagram wrth i ni barhau i addasu i anghenion newidiol y gynulleidfa, ac mae gan ein sianelau YouTube gyfanswm o bron i 700,000 o danysgrifwyr erbyn hyn.

Mae cynnwys plant wedi parhau i ffynnu ar iPlayer, gydag 1.1 biliwn o geisiadau yn y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gynnal Uwchgynhadledd Cyfryngau Byd

Plant ym Manceinion. Gyda phrif araith gan Ddug Caergrawnt, daeth yr Uwchgynhadledd ag arweinwyr ynghyd o bob cwr o'r byd i drafod y materion sy'n wynebu'r diwydiant cyfryngau i blant ar hyn o bryd a'r rhai y bydd angen i ni fynd i'r afael â nhw yn y dyfodol.

Ym mis Mawrth, gwnaethom lansio ein gŵyl gyntaf erioed i blant, CBBC Summer Social. Summer Social, a gynhelir yn Lerpwl ym mis Awst 2018, fydd ein digwyddiad awyr agored mwyaf erioed ac mae'n dangos ein dyhead i ymgysylltu hyd yn oed mwy â'n cynulleidfa.

DYSGU

Eleni, dechreuodd y BBC drawsnewid yr hyn a wnawn yn y byd addysg er mwyn cyflawni ein diben cyhoeddus i gefnogi dysgu i bobl o bob oedran, ynghyd ag ail-greu'r BBC ar gyfer cenedlaeth newydd.

Cefnogi dysgwyr

Wrth iddo nesáu at ei ben-blwydd yn 20 oed, BBC Bitesize yw conglfaen ein harlwy addysg gan gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u hanghenion astudio ac adolygu, lle bynnat y bônt yn y DU. Dyma'r safle addysg penodedig mwyaf poblogaidd yn

y DU – gan gyrraedd tua 80% o fyfyrwyr uwchradd a thua 40% o fyfyrwyr cynradd. O'r sawl sy'n defnyddio Bitesize wrth astudio ac adolygu ar gyfer eu harholiadau TGAU/Nationals, mae 78% o'r farn bod Bitesize wedi eu helpu i baratoi'n well ar gyfer eu harholiadau ac mae 54% o'r farn ei fod wedi eu helpu i gael canlyniadau gwell yn eu harholiadau TGAU/Nationals.

Rydym wedi dechrau ar y broses o drawsnewid Bitesize er mwyn helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial academaidd drwy ddarparu gwasanaeth mwy strwythuredig, wedi'i deilwra i'r dysgwyr unigol. Gall myfyrwyr hyn bellach fewngofnodi i gael Bitesize mwy personol sy'n cofio pwy ydyn nhw a beth maent yn ei astudio. Byddwn yn adeiladu ar y camau cychwynnol hyn er mwyn cyflwyno cynnwys dysgu a chynnwys rhyngweithiol newydd addasol.

Helpu athrawon

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cymorth i athrawon. Mae 60% ohonynt yn defnyddio deunydd y BBC yn eu hystafelloedd dosbarth ac mae BBC Teach yn dwyn ynghyd gynnwys gorau'r BBC ochr yn ochr â ffilmiau byr clodwiw – sydd oll yn gysylltiedig â'r cwricwlwm. Rydym hefyd yn cyflwyno Gwersi Byw rhyngweithiol i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth a chynnwys sain addysgol drwy'r Radio i Ysgolion.

Ymgyrchoedd addysgol

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau i gyflwyno ymgyrchoedd addysgol pwysig sy'n mynd i'r afael â materion ledled y DU.

Yn ystod y 18 mis diwethaf, cofrestrodd mwy na 40% o ysgolion cynradd yn y DU ar gyfer Terrific Scientific, ein partneriaeth fawr â Wellcome a 30 o sefydliadau eraill a phrifysgolion, wedi'i chynllunio i ysbrydoli gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd a helpu i atal yr argyfwng STEM yn y DU. Cafodd ein hadnoddau eu lawrlwytho 125,000 o weithiau ac mae naw o bob deg athro sy'n eu defnyddio yn dweud eu bod yn bwriadu defnyddio'r deunydd eto, gan ddangos ei waddol.

Ym mis Ionawr, gwnaethom lansio Super Movers, partneriaeth ag Uwch Gynghrair Lloegr a Cynghrair Pêl-droed Proffesiynol yr Alban er mwyn helpu i gael plant i wneud ymarfer corff. Mae Super Movers yn helpu athrawon a rhieni drwy gyfrwng ffilmiau syml, hwyliog sy'n annog plant i symud wrth ddygu.

Ymysg yr ymgyrchoedd eraill mae The Mind Set, sy'n cynnig cyngor ymarferol i fyfyrwyr yn ystod eu harholiadau; Deg Darn sy'n parhau i ysbrydoli plant drwy gerddoriaeth glasurol; ac Academi Radio 1 sy'n annog plant ifanc i gyflawni eu potensial.

Cefnogi dysgu i oedolion

Rydym yn cefnogi dysgu i oedolion drwy ein partneriaeth â'r Brifysgol Agored. Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol Agored yn buddsoddi mewn 12-15 o brosiectau'r BBC, yn amrywio o gyfresi pwysig fel *Civilisations* a *Blue Planet II*, i brosiectau mwy arbrofol fel eitemau digidol byr ar gyfer BBC Three a fideolediadau ar gyfer BBC Ideas. Ym mhob achos, nod Y Brifysgol Agored yw ehangu'r cyfleoedd dysgu a gyflwynir gan y rhaglenni hyn a chynnig teithiau dysgu pellach i alluogi cynulleidfaoedd i archwilio pynciau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae Tomorrow's World wedi bod yn bartneriaeth ar draws y BBC wedi'i hanelu at oedolion 25-44 oed, sydd wedi cysylltu cynulleidfaoedd sydd â'r meddyliau craffaf a sefydliadau gwyddoniaeth mwyaf y DU, yn cynnwys y Grŵp Amgueddfa Wyddoniaeth, Wellcome, Y Brifysgol Agored a'r Gymdeithas Frenhinol. Mae wedi bod yn ddathliad cyhoeddus o bopeth gwyddonol, yn cynnwys digwyddiad Tomorrow's World Live gydag Eric Schmidt a Brian Cox.

Gwelediaeth addysgol newydd

Mewn oes lle cydnabyddir mai addysg yw'r elfen bwysicaf wrth bennu cyfleoedd mewn bywyd, rydym wedi bod yn ystyried sut y gall y BBC adeiladu ar ein cryfderau presennol a sicrhau bod popeth a wnawn yn y maes hwn yn cael effaith. Rydym wedi

ymgyngori â rhanddeiliaid mewn addysg a busnes er mwyn nodi meysydd allweddol lle gall y BBC gael effaith gadarnhaol.

Ym mis Mawrth, gwnaethom nodi'r blaenoriaethau, y byddwn yn eu harchwilio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau:

- Gwella cyfraddau llythrennedd drwy ganolbwyntio ar blant cyn oedran ysgol er mwyn gwrth-droi'r ffaith y gall y plant pump oed mwyaf difreintiedig fod 19 mis ar ei hôl hi o gymharu â'u cyfoedion mwy cefnog o ran datblygiad geirfa pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol
- Hyrwyddo anghenion ehangach plant drwy feithrin gwydnwch a hunan-barch a thrwy gefnogi iechyd meddwl i'r un graddau â'r ffordd rydym yn cefnogi eu hanghenion academaidd ar hyn o bryd
- Agor byd cyflogaeth i bobl ifanc ar adeg lle mae ymchwil ddiweddar gan y CBI wedi datgelu bod 84% o fusnesau'r DU o'r farn nad yw ansawdd y cyngor gyrfaoedd a gaiff pobl ifanc yn ddigon da
- Archwilio cyfleoedd sy'n ei gwneud hi'n haws i oedolion ailhyfforddi; rhoi'r sgiliau iddynt ffynnu mewn marchnad lafur newidiol a byd cynyddol ddigidol.



Daeth 134,000 o gynigion i law ar gyfer cystadleuaeth stori fer 500 o Eiriau Radio 2, sef y nifer uchaf erioed

Cyflwynodd *The Tempest* ar CBeebies Shakespeare i blant cyn oedran ysgol

3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

Mae cynnal ein hehangder ac amrywiaeth unigryw o allbwn ag ymrwymiad i'r safonau cynhyrchu a'r safonau golygyddol uchaf wrth wraidd yr hyn a wna'r BBC. Eleni, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cynnwys newydd a gwreiddiol o bob cwr o'r DU; gan gymryd risgiau creadigol ond gan hefyd gynnal cydbwysedd rhwng cyfresi newydd a ffefrynnau sy'n dychwelyd, oll wedi'u hanelu at wasanaethu ein cynulleidfaoedd.

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos sut rydym wedi cyflawni'r diben hwn. Rydym yn cyflwyno gwybodaeth fesul genre – ffeithiol, y celfyddydau, drama, adloniant, comedi, chwaraeon a cherddoriaeth – ac mae'r wybodaeth hon yn dangos bod ein hallbwn ar y teledu ac ar y radio yn unigryw o ran ei natur nodedig ac o ran ei ffocws ar gynnwys Prydeinig o bob cwr o'r DU.





Mae'r tudalennau hyn yn adrodd hanes cryf y creadigrwydd Prydeinig, yr ansawdd a'r risgiau sy'n flaenoriaeth o ran allbwn ar y BBC. Maent yn dangos sefydliad sydd wedi cyrraedd y brig o ran ei allu creadigol, gan osod y safonau drwy gyflwyno ehangder eithriadol o gynnwys nodedig o ansawdd uchel. Yn wir, mae 72% o ddefnyddwyr rheolaidd o'r farn bod Teledu'r BBC yn effeithiol wrth ddarparu cynnwys a gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd, ac mae 81% o ddefnyddwyr wythnosol o'r farn bod Radio'r BBC o ansawdd uchel.

Ond mae cynnal yr ansawdd y mae cynulleidfaoedd yn ei fynnu yn gynyddol anodd mewn byd lle mae'r dewis sydd ar gael o fewn rhai genres yn uwch nag erioed o'r blaen. Mae'r BBC yn parhau i chwilio am fuddsoddiad gan ddarparwyr eraill er mwyn lleihau'r galw ar ffi'r drwydded, ond nid oes cymaint o gyfleoedd o'r fath ar gael ac nid ydynt mor ddiadrol ag yr oeddent yn y gorffennol.

Ar yr un pryd, mae cynnal y cyrhaeddiad a'r amser y mae cynulleidfaoedd yn ei dreulio gyda'n hallbwn yr un mor anodd, pan fo cymaint o ddewis arall ar gael iddynt.

Mae'r her fwyaf yn ymwneud â chynulleidfaoedd ifanc. Mae ein hamcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu bod pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed yn treulio cyfnodau tebyg o amser gyda BBC One, ITV a Netflix bob wythnos – tua dwy awr yr wythnos yr un. Mae pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn treulio mwy o amser gyda Netflix na chyda holl Deledu'r BBC, gan gynnwys iPlayer. Yn yr un modd, am y tro cyntaf, yn 2017/18, mae amcangyfrifon yn awgrymu bod pobl ifanc rhwng 15 a 34 oed yn treulio'r un faint o amser yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth â holl Radio'r BBC.

Ond rydym hefyd yn ymwybodol o faint yr her rydym yn ei hwynebu, yn arbennig gan gystadleuwyr rhyngwladol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod mewn sefyllfa dda i barhau i gynnig y cynnwys Prydeinig cartref gorau sy'n golygu cymaint i gynulleidfaoedd ym Mhrydain, ac yn gonglfaen i'r diwydiannau creadigol sy'n golygu bod y wlad hon ymhlith y goreuon ledled y byd.



My Family, Partition and Me: India 1947 gyda'r cyflwynydd Anita Rani a enillodd wobwr RTS



65%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran creadigrwydd.

(anefeithiol 13%)
Ffynhonnell: Ipsos MORI.

64%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran gwreiddioldeb.

(anefeithiol 14%)
Ffynhonnell: Ipsos MORI.

69%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o chwaethau.

(anefeithiol 13%)
Ffynhonnell: Ipsos MORI.

72%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd.

(anefeithiol 11%)
Ffynhonnell: Ipsos MORI.

Ansawdd a natur nodedig y BBC fesul llwyfan

Yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd **Nodedig**

TELEDU'R BBC

72%

canran y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol
(anefeithiol 7%)

68%

canran y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol
(anefeithiol 8%)

RADIO'R BBC

81%

canran y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol
(anefeithiol 6%)

77%

canran y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol
(anefeithiol 7%)

BBC AR-LEIN

74%

canran y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol
(anefeithiol 6%)

70%

canran y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol
(anefeithiol 6%)

Source: Ipsos MORI.

66%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n nodedig.

(anefeithiol 12%)
Ffynhonnell: Ipsos MORI.

Cyflwyno allbwn a gwasanaethau creadigol a nodedig o ansawdd uchel

FFEITHIOL

Eleni, diolch i gyfuniad unigryw o adloniant ac addysg ar bob un o'n llwyfannau, cafwyd cyfle i glywed straeon pwerus, tywyswyd cynulleidfaoedd ar deithiau darganfod a chrëwyd adegau syfrdanol a dynnodd sylw'r genedl.

Ar BBC One, roedd y rhaglen ddogfen *Alan Shearer: Dementia, Football and Me* yn agoriad llygad a chafodd honno a'r rhaglen ddirydnol *The Betrayed Girls* effaith emosïynol ar wylwyr, a rhoddodd *Ambulance* a *The Met: Policing London* fynediad digynsail i'r gwasanaethau brys ym Mhrydain; a heriodd *Mind Over Marathon* ddeg rhedwr i gystadlu ym Marathon Llundain ar ran Heads Together, sef ymgyrch a sefydlwyd gan Ddug a Duges Caergrawnt a'r Tywysog Harry i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Ar BBC Two, roedd *Hospital* (a ddenodd gyfartaledd o 2.4 miliwn fesul pennod yn nhyrnor un) a *Chris Packham: Asperger's and Me* (2.8 miliwn) yn ddynol iawn wrth adrodd eu straeon, gan ennill gwobrau a chanmoliaeth gan wylwyr a beirniaid fel ei gilydd. Chwaraeodd y rhaglen ddogfen strwythuredig *Exodus: My Journey to Europe* a'r gyfres hydredol *Generation Gifted* â fformatau ffeithiol uchelgeisiol, a chyflwynodd *Abortion on Trial*, a *My Family, Partition and Me: India 1947* sgyrsiau a straeon anodd yn ystod oriau brig. Rhoddodd *Louis Theroux: Dark States* gipolwg unigryw i wylwyr i UDA mewn cyfres hynod amserol a oedd yn boblogaidd gyda gwylwyr ifancach, a rhoddodd *The Detectives: Murder on the*

Streets gipolwg diddorol ar droseddau yn y DU. Dychwelodd *Back in Time for Tea* yn gryfach nag erioed, ac aeth 2.9 miliwn o wylwyr ar daith i ardal Champagne yn Ffrainc gydag *Absolutely Champs* gyda Joanna Lumley a Jennifer Saunders.

Chwaraeodd BBC Three ran flaenllaw yn yr ymgyrch gyda ffilmiau ffeithiol a oedd yn taro deuddeg â chynulleidfaoedd ifanc ac yn mynd i'r afael â phynciau sy'n bwysig iddynt. Roedd ffilmiau unigol yn seiliedig ar stori personol yn cynnwys *Chasing Dad: A Lifelong Addiction* a phrofodd y ddrama ffeithiol *Murdered for Being Different* yn boblogaidd, gyda *Drugsland* yn cynnig cyfres arsylwadol ddigyfaddawd drwy lygaid gweithwyr proffesiynol, defnyddwyr a delwyr.

Cyrhaeddodd Radio 4 ei chynulleidfa uchaf erioed ar yr awyr a chwaraeodd rhaglenni fel *You and Yours* a *Money Box* ran bwysig wrth roi cyngor a gwybodaeth i wrandawyr. Eleni, dathlodd *Gardeners' Question Time* 70 mlynedd o ateb cwestiynau garddwriaethol y DU ac edrychodd *Woman's Hour* ar y llefydd gorau a'r llefydd gwaethaf yn y DU i fod yn ferch. Aeth cyfresi newydd hefyd i'r afael â phynciau gwleidyddol a chymdeithasol pwysig. Yn *The Fix*, rhoddodd rai o bobl ifanc fwyaf disglair y wlad gynnig ar ddatrys problemau polisi cymhleth a daeth *Across the Red Line* â phobl at ei gilydd â gwahanol safbwyntiau ar fater gwleidyddol.

Cafodd math o blancion a ddisgrifiwyd fel rhan o anadl einioes y cefnforoedd ei enwi ar ôl Blue Planet II; y tro cyntaf i rywogaeth gael ei enwi ar ôl rhaglen deledu Brydeinig.

Cynhyrchodd Radio 1, 1Xtra ac Asian Network amrywiaeth o gynnwys ffeithiol gan gynnig gwybodaeth a llwyfan i bobl ifancach, gan gynnwys *High Street Hijabis*, *Growing up in Care* a *My Extraordinary Skin*.

Llwyddodd y gyfres *Blue Planet II* a enillodd nifer o wobrau i hudo gwylwyr a dyma oedd y rhaglen deledu a wylwyd fwyaf yn ystod 2017, gyda mwy na 14 miliwn o bobl yn gwyllo'r bennod gyntaf. Llwyddodd hefyd i herio safbwyntiau byd-eang ar lygredd plastig. Archwiliodd *Dawn Chorus* a *Natural Histories* ar Radio 4 ddylanwad byd natur ar ddiwylliant a chymdeithas ac adroddodd straeon anifeiliaid a phlanhigion y DU, ac mae Trydariat y Dydd yr orsaf yn boblogaidd o hyd.



Cyfres nodedig BBC One, *Blue Planet II*



Hospital ar BBC Two

Y cyflwynydd David Olusoga yn Giza, yr Aiff



CIVILISATIONS

Roedd hon yn flwyddyn bwysig i deledu'r celfyddydau gyda *Civilisations* ar BBC Two – y tymor celfyddydol mwyaf uchelgeisiol ers *The Big Read* 15 mlynedd yn ôl.

Ategwyd y gyfres nodedig naw rhan, mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored ac wedi'i ffilmio mewn 31 o wledydd, gan amrywiaeth o raglennu ychwanegol ar deledu a radio'r BBC, gan gynnwys 11 o ffilmiau wedi'u comisiynu'n arbennig yn Rhanbarthau Lloegr.

Arweiniodd y gyfres at Wyl *Civilisations* – cydweithrediad â thros 300 o amgueddfeydd, orielaau, llyfrgelloedd ac archifau i dynnu sylw at gasgliadau'r DU ac ysgogi trafodaeth drwy gynnal dros 260 o ddiwyddiadau cyhoeddus. Er mwyn ategu'r wyl, agorodd y BBC dros 800 o ddarnau o archif, cyfres o adnoddau digidol, gan gynnwys ap *Civilisations* Augmented Reality, a gorsafoedd radio lleol cysylltiedig â digwyddiadau mewn amgueddfeydd.

Cynigiodd BBC Research & Development gyfleoedd i bartneriaid ddefnyddio technoleg ddigidol, gyda 93 o sefydliadau yn dod i weithdai a 28 yn cynnwys eitemau yn yr ap realiti estynedig. Dyfarnodd Art Fund 21 o grantiau i sefydliadau a oedd yn cymryd rhan. Roedd partneriaid yn yr Wyl hefyd yn cynnwys Culture 24, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cyngor Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol, Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol a Chyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban.

+ Darllenwch fwy ar dudalen 144

Archwiliodd rhaglenni gwyddonol Radio 4 megis *The Life Scientific* a *The Infinite Monkey Cage* bynciau gwyddonol cyfoes mewn ffyrdd sy'n apelio at eu cynulleidfau. Fel rhan o wythnos o raglennu *Mars*, ystyriwyd ein cydberthynas â'r Blaned Goch o'r wyddoniaeth ddiweddaraf, i ffuglen wyddonol. Dathlodd Radio 4 hefyd hanner canmlwyddiant ers trawsblaniad cyntaf y galon, gan edrych ar y technegau llawfeddygol diweddaraf yn ogystal â'n cydberthynas athronyddol â'r galon.

Llwyddodd BBC Two unwaith eto i gynhyrchu cynnwys hanes clodwiw addysgiadol, gydag *Elizabeth I's Secret Agents* yn ennill gwobr RTS, a chafodd *A House Through Time* gan David Olusoga ganmoliaeth fawr gan ddenu cyfartaedd o 2.5 miliwn o wylwyr drwy gydol y gyfres.

Ceisiodd BBC Four ymdrin â straeon adnabyddus mewn ffyrdd arbenigol a manwl newydd. Ymhlith y llwyddiannau roedd yr hanes 'box set' *The Ruth Ellis Files: A Very British Crime Story* ac *England's Forgotten Queen: The Life and Death of Lady Jane Grey*.

Parhaodd Radio 4 i adlewyrchu adegau hanesyddol pwysig gydag amrywiaeth o gynnwys. Tynnodd *Partition Voices* sylw at y straeon nas adroddwyd gan Asiaid Prydeinig a Phrydeinwyr Trefedigaethol a fu'n dyst i'r rhaniad yn India. Er mwyn nodi canmlwyddiant Chwyldro Hydref, darlledodd yr orsaf y llyfr arloesol *Ten Days That Shook The World*. Yn *Our Man in the Middle East*, cyflwynodd Jeremy Bowen gyfres 25 rhan yn adrodd hanes personol y rhanbarth yn seiliedig ar ei ddegawdau yn gohebu. Ac enillodd *Reith Lectures* eleni, lle yr archwiliodd yr awdur llwyddiannus Hilary

Mantel hanes a ffuglen, wobwr rhaglen radio gorau'r flwyddyn Urdd y Wasg Ddarlledu.

Mae Radio 4 yn cynnig cyfleoedd i wrandawyr fyfyrio ar ffydd ac ystyried rôl crefydd yn y byd. Fel rhan o'i bartneriaeth ddiweddaraf ag Amgueddfa Prydain, archwiliodd Neil MacGregor rôl credoau a rennir wrth ddatblygu cymdeithasau drwy hanes yn y gyfres 30 rhan nodedig *Living with the Gods*. Parhaodd rhaglenni hirsefydledig Radio 4 *Sunday* a *Beyond Belief* i archwilio rôl crefydd yn y byd sydd ohoni, a thrafodd Moral Maze y materion moesegol sy'n sail i bynciau cyfoes. Ar y teledu, cyflwynodd *Pilgrimage: The Road to Santiago* sgysiau anodd a straeon am ffydd ac ysbrydoldeb yn ystod oriau brig ar BBC Two.

High Street Hijabis ar Radio 1



Cyflwyno allbwn a gwasanaethau creadigol a nodedig o ansawdd uchel

Cafodd BBC iPlayer ei flwyddyn orau erioed yn 2017. Gyda llu o 'box sets', rhaglenni poblogaidd o'r archif a mwy o bersonoli, cafodd 272 miliwn o raglenni ar gyfartaledd eu ffrydio bob mis gan wylwyr.

Drama iâs a chyffro ryngwladol BBC One, *McMafia*



Y CELFYDDYDAU

Cenhadaeth y BBC ym maes y celfyddydau yw sicrhau bod y DU yn parhau'n un o wledydd mwyaf creadigol y byd. Rydym yn cefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol ac yn comisiynu rhaglenni i apelio i'r cynulleidfaoedd ehangaf posibl – noda amcangyfrifon bod BBC Arts yn cyrraedd tua 6.5 miliwn o oedolion bob wythnos. Gwnaethom weithio ochr yn ochr â'r Tŷ Opera Brenhinol yn ystod tymor o berfformiadau a gweithgareddau digidol a gynlluniwyd i ymgysylltu â chynulleidfau newydd. Daeth #OperaPassion Day â'r wyth prif gwmi opera yn y DU ynghyd ar gyfer gwyl a wylwyd 500,000 o weithiau ar Facebook, gyda chynulleidfau teledu a radio o filiynau. Roedd pob eitem ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhaglen Ddogfen Gelfyddydol Orau Grierson 2017 yn un o'n rhaglenni dogfen teledu celfyddydol creadigol. Denodd BBC One gynulleidfaoedd mawr i'r celfyddydau gyda'r *Big Painting Challenge*, *Fake or Fortune* ac *Imagine*. Bu J K Rowling, Picasso a Vera Lynn yn destun rhaglenni dogfen ar BBC Two, ac ymdriniodd BBC Four â'r celfyddydau mewn ffordd fanwl ac arbrofol drwy dymhorau clodwiw ar gelfyddyd Japan a Mecsico, a rhaglenni dogfen ar Leonora Carrington, Muriel Spark a James Joyce.

Ar Radio 4, ystyriodd y gyfres *The Art of Living* sut mae celf wedi trawsnewid bywydau pobl, gan gynnwys cydweithrediad pwerus rhwng cerddorion a disgyblion ag anghenion addysgol. Daeth y rhaglen newydd *Only Artists* ag artistiaid ynghyd i drafod y broses creadigol mewn sgwrs ddi-ddorol ac agored. Yn ystod y flwyddyn, mae'r BBC wedi cynnig darllediadau heb eu hail o'r celfyddydau drwy *Front Row* ar Radio 4 a BBC Two, *Book Club* ar Radio 2, *Free Thinking* ac *Open Book* ar Radio 3 a *The Film Show* ar Radio 4, *The Arts Show* ar BBC Northern Ireland a *Culture Studio* ar BBC Scotland.

DRAMA

Mae'n amlwg ein bod yn byw mewn oes euraidd o ran drama Brydeinig ac mae'r BBC yn greiddiol i hynny gyda'i ymrwymiad i gynhyrchu rhaglennu gwreiddiol, amrywiol ac eithriadol.

Cynigiodd cyfresi poblogaidd ar BBC One fel *Line Of Duty* (a ddenodd gynulleidfau gyfartalog o 9.9 miliwn o wylwyr ar gyfer ei phenod olaf) a *Doctor Foster* (a ddenodd gyfartaledd o 8.9 miliwn o wylwyr drwy gydol y gyfres), a wnaed heb bartneriaid rhwngwladol, brofiadau teledu a gwyllo cyfun gwerth eu gweld i gynulleidfaoedd, felly hefyd y rhifyn Nadolig arbennig o *Doctor Who* lle yr ail-grëwyd Peter Capaldi i gyflwyno Jodie Whittaker, yn ogystal â *Broken a Shetland*. Wrth i ddramâu nodedig fel y gyfres lwyddiannus *Three Girls* a'r gyfres iâs a chyffro fyd-eang ddiweddar *McMafia* (y bennod agoriadol oedd y bedwaredd ddrama fwyaf poblogaidd ar BBC iPlayer erioed) gyfrannu at drafodaethau cyhoeddus a'r ddealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas. Parhaodd dramâu ar BBC Two i adrodd straeon cymhellol a beiddgar, gyda'r gyfres *Peaky Blinders* a enillodd wobwr BAFTA yn dychwelyd ar gyfer y gyfres fwyaf llwyddiannus erioed, y ddrama am gyflwr y genedl *Collateral* (y ddrama newydd fwyaf a lanswyd gan BBC Two ers 2015, gan ddenu 4.8 miliwn o wylwyr), *King Charles III* a rhaglennu sy'n

annog gwylwyr i feddwl megis *The Boy With The Topknot* a *Man In An Orange Shirt* a ddangosodd amrywiaeth greadigol y sianel.

Bu arlwy drama BBC Three eleni yn wreiddiol, yn arloesol ac yn greadigol, gydag *Overshadowed* yn cael ei gyflwyno'n llwyr drwy flogiau'r prif gymeriad a *Five By Five*, cyfres o ffilmiau byr gan awduron newydd wedi'i churadu gan Idris Elba.

Mae BBC Drama wedi mentro ac wedi dangos uchelgais wrth gynhyrchu drama Brydeinig newydd a gwreiddiol eleni, ond gan hefyd gynnal ansawdd uchel cyfresi a oedd yn dychwelyd fel *Silent Witness*, a ddenodd 8.7 miliwn o wylwyr i'r bennod gyntaf, a *Death In Paradise*, sy'n un o hen ffefrynnau'r gwylwyr. Mae'r BBC yn adnabyddus am ei ddramâu cyfnod moethus ac ni wnaeth siomi eleni, gyda *Little Women*, *The Miniaturist* a *Call The Midwife* (a ddenodd uchafbwynt o 9.6 miliwn o wylwyr yn ystod cyfres saith), pob un ohonynt yn cynnwys cymeriadau benywaidd cryf yn ganolbwynt iddynt.

Cynigiodd 'box sets' BBC iPlayer fel *Top Of The Lake*, *Gunpowder* a *Requiem* gyfle i wylwyr wylwyr y sioeau y maent am eu gwyllo, yn y ffordd o'u dewis, sy'n apelio'n arbennig i gynulleidfaoedd ifancach. O ganlyniad i'r amrywiaeth o raglennu drama a dychwelodd i BBC iPlayer dros gyfnod y Nadolig, cafodd iPlayer ei wythnosau



TOMORROW'S WORLD

Partneriaeth ar draws y BBC sydd wedi cysylltu cynulleidfaoedd â meddyliau craffaf a sefydliadau gwyddoniaeth mwyaf y DU, yn cynnwys Grŵp yr Amgueddfa Wyddoniaeth, Wellcome, Y Brifysgol Agored a'r Gymdeithas Frenhinol. Mae wedi bod yn ddatliad cyhoeddus o bopeth gwyddonol, yn cynnwys digwyddiad Tomorrow's World Live gydag Eric Schmidt a Brian Cox.

gorau erioed (yn ystod yr wythnos rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, cawfyd bron i 80 miliwn o geisiadau i wyllo).

Parhaodd Radio 4 i arbrofi â gwahanol fathau o ddrama er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd: yr ail gyfres o ddrama gynllwyn arloesol yr orsaf a ddarllwyd ar ffurf ddigidol yn gyntaf *Tracks* oedd y rhaglen Radio 4 yr ymwelwyd â hi fwyaf ar-lein yn ystod wythnos ei lansio. Mae'r orsaf yn cynnig amrywiaeth sylweddol o ddrama, o addasiadau o lenyddiaeth adnabyddus i waith ysgrifennu newydd ar gyfer y radio. Adlewyrchodd dramâu megis y gyfres fawr ar dsariaid Rwsia yr agenda materion cyfoes. Dros un diwrnod, darllwyd Radio 4 ddramateiddiad pwysig o nofel Salman Rushdie *Midnight's Children* fel rhan o raglennu'r BBC i gofnodi Rhaniad India. Llwyddodd *Anansi Boys* gan Neil Gaiman i ddiddanu gwrandawyr a dychwelodd y gyfres *Riot Girls* – dramâu a ysgrifennwyd gan ferched a oedd yn cynnwys cymeriadau benywaidd eithriadol. Parhaodd Radio 3 hefyd i ddarlledu drama nodedig eleni, gyda thymhorau yn cynnwys ffocws ar Joe Orton a *Breaking Free a Century of Russian Culture*, a oedd yn cynnwys ddramateiddiad clodwiv o *Fathers and Sons* gan Turgenev, yn ogystal â chynhyrchiad newydd o ddrama radio eiconig Louis MacNeice, *The Dark Tower*.

ADLONIAINT

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r BBC wedi cyflwyno amrywiaeth o adloniant i gartrefi'r genedl, o raglenni mawr nos Sadwrn ar BBC One i raglenni cwis clyfar ac arloesol ar BBC Four, gan gyflawni'r addewid i ysgogi sgwrs genedlaethol ac adlewyrchu amrywiaeth y DU.

Ar BBC One, cafodd *Strictly Come Dancing* ei chyfres fwyaf llwyddiannus hyd yma, gyda 13 miliwn o wylwyr yn gwyllo'r rownd derfynol fyw. Dyma'r enghraifft berffaith o fformat Prydeinig yn mynd o nerth i nerth yn y DU, ond hefyd yn llwyddo ar raddfa fyd-eang. Erbyn hyn, mae dros 55 o wledydd wedi prynu trwydded fformat y sioe. Hefyd ar BBC One, roedd y cyfresi llwyddiannus a ddychwelodd yn cynnwys *Michael McIntyre's Big Show*, *The Apprentice* ac *All Round to Mrs Brown's* a llwyddodd pob

un ohonynt i ddenu cynulleidfaoedd mawr. Gwnaethom hefyd gyflawni ein haddewid i gyflwyno fformatau newydd a chyffrous ar nos Sadwrn ar ffurf *All Together Now* ac *Even Better Than The Real Thing*. Mae hyn oll, yn ogystal â digwyddiadau blynyddol megis *Eurovision*, *Plant mewn Angen* a *Comic Relief* yn profi pan ddaw'r genedl at ei gilydd, ei bod yn troi at BBC One.

BBC Two yw cartref rhaglenni cwis yn ogystal ag adloniant ffeithiol sy'n destun siarad. Yn gwmni i *University Challenge*, *Mastermind* ac *Eggheads*, cyflwynwyd cyfresi newydd fel *Letterbox*. Bu *The Mash Report* yn llwyddiant ysgubol i'r sianel, gyda chlipiau a chynnwys o'r sioe yn cyrraedd miliynau o bobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae *Dragons' Den* a *Top Gear* yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd ifancach nas gwasanaethir yn ddigonol.

Chineke! a'r soddgrythor Sheku Kanneh-Mason



PROMS 2017

Cynhaliwyd mwy na 90 o gyngherddau yn cynnwys cerddoriaeth o'r radd flaenaf fel rhan o Proms y BBC, a daeth dros 300,000 o bobl i'r cyngherddau hynny.

Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd perfformiad cyntaf Chineke! – cerddorfa gyntaf Ewrop â'r rhan fwyaf o gerddorion yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig – a'r Relaxed Prom cyntaf, a oedd yn addas i

blant ac oedolion ag awtistiaeth, namau cyfathrebu neu namau synhwyraidd ac anableddau dysgu. Yn ogystal, am y tro cyntaf mewn hanes diweddar, teithiodd Proms y BBC y tu allan i Lundain i Hull fel rhan o'r gyfres *Proms at...* a dychwelodd i faes parcio yn Peckham ar gyfer rhaglen bellgyrhaeddol yn cynnwys Cerddorfa a Chôr Ieuencid The Multi-Story. Rhannwyd cynnwys hefyd drwy'r BBC World Service.

Cyflwyno allbwn a gwasanaethau creadigol a nodedig o ansawdd uchel



Comedi BBC *Three Man Like Mobeen*

COMEDI

Fel cartref i gomedd Prydeinig, nid oes unrhyw ddarlledwr arall mor ymrwymedig i ddarganfod a meithrin sêr y dyfodol a hyrwyddo portreadau o'n cymeriad cenedlaethol amrywiol. O'r rheini sy'n cymryd eu camau perfformio cyntaf fel Charlie a Daisy-May Cooper o'r rhaglen ddogfen ffug *This Country* a enillodd lawer o wobrau, i arddangos y sêr mwyaf sefydledig fel Alison Steadman a John Cleese yn *Hold The Sunset*. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gyflwyno wynebau a lleisiau talentog prif ffrwd, gyda *Comedy Playhouse* ar BBC One, *New On Two* ar BBC Two a *Slices* ar BBC Three sydd wedi arwain at gomisiynu llawer o gyfresi newydd a chyffrous.

Ar BBC One, parhaodd *Peter Kay's Car Share*, *Not Going Out*, rhifynnau arbennig o *Mrs Brown's Boys*, *Still Game* a *Tracey Breaks The News* i swyno cynulleidfaoedd. Ar BBC Two, cafwyd mwy o ganmoliaeth i *Inside No 9*, *Mum*, *Upstart Crow*, *W1A*, *Frankie Boyle's New World Order* a *Two Doors Down*, ynghyd â chyfresi newydd o *Motherland* a dychwelodd hirddisgwyliedig *The League Of Gentlemen*. Darlledwyd cyfres olaf *Detectorists* ar BBC Four, a biopigau ar ffurf *Brian Purn: The Tribute* ac *Eric, Ernie & Me*.

BBC Three yw'r cartref naturiol ar gyfer mentro wrth gyflwyno lleisiau newydd nodedig o hyd; mae'r dull beiddgar hwn o gomisiynu wedi arwain at sawl llwyddiant megis *People Just Do Nothing*, *The Young Offenders*, *Man Like Mobeen*, *Josh* a *Witless*.

Mae Radio'r BBC yn parhau i hyrwyddo sêr newydd ym maes comedi ac mae

llawer o'n rhaglenni comedi yn apelio at gynulleidfaoedd craidd mawr a gwrandawyr ifancach newydd. Eleni, dychwelodd comedi i Radio 1 gan gyflwyno slot hwyrnos newydd a bu'r podlediadau nodedig o gymorth wrth roi llwyfan i genhedlaeth newydd o ddigrifwyr ifanc. Gyda rowndiau cychwynnol yn cael eu cynnal ledled y DU, llwyddodd *New Comedy Award* Radio 4 unwaith eto i gydnabod digrifwyr newydd a chroesawodd yr orsaf enillydd 2014 Lee Ridley, sef *Lost Voice Guy*, yn ôl. A dychwelodd y ddigrifwraig lwyddiannus Mae Martin â'i *Guide to 21st Century...* gan drafod dibyniaeth eleni. Mae comedi ar Radio 4 yn cynnig cymysgedd o sioeau poblogaidd a chomedi newydd i wrandawyr. Dathlodd Nicholas Parsons hannercanmlwyddiant *Just A Minute* ac mae *The News Quiz* wedi bod yn diddanu cynulleidfaoedd â chomedi cyfoes ers 40 mlynedd. Dychwelodd y clasur *The Hitchhiker's Guide to the Galaxy* i Radio 4 gyda'r cast gwreiddiol a gwesteion arbennig, gan gynnwys y diweddar Athro Stephen Hawking. Roedd *Hampshire to Hollywood* gyda Miranda Hart yn rhaglen arbennig tair awr o hyd ar Radio 4 Extra.

Mae podlediadau comedi Radio 4 yn ymddangos yn rheolaidd ar frig siart podlediadau'r BBC ac roedd comisiynau eleni yn cynnwys comedi ar-lein ffurf fer *New Year New You* gan David Schneider. Mae BBC Three yn parhau i archwilio cyfleoedd ym maes comedi ar-lein ffurf fer, ac mae sioeau fel *Pls Like* a *Big Field* yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn sy'n cynnig llwybr i ffurfiau hwy.



Emancipation of Expressionism gan Boy Blue Entertainment

CULTURE UK

Canolbwyntiodd Culture UK, ein strategaeth bartneriaeth newydd a lansiwyd ac a ddatblygwyd ar y cyd â Chynghorau Celfyddydau Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a Creative Scotland, ar ddatblygiadau diwylliannol, gwaith comisiynu o dan arweiniad artistiaid ac arloesedd technolegol ledled y DU. Fel rhan o hyn, caiff cyllideb gomisiynu 'Artists First' £4 miliwn ei neilltuo i brosiectau teledu newydd gan sefydliadau celfyddydol fel Sadlers Wells, y Theatr Genedlaethol a Hull, Dinas Diwylliant y DU ac artistiaid fel Wayne McGregor, Phil Collins a Rachel Maclean.

Mae Performance Live, mewn partneriaeth ag Arts Council England a Chanolfan Gelfyddydau Battersea, yn cyflwyno rhai o'r artistiaid mwyaf cyffrous sy'n gweithio yn y byd perfformio heddiw ar BBC Two, a lansiwyd *Opera Passion* – gŵyl ddigidol fyw – gydag wyth cwmni opera yn y DU. Mae BBC R&D wedi dechrau gweithio gyda sector y celfyddydau, gan gynnig mynediad a hyfforddiant yn seiliedig ar adnoddau digidol a ddatblygwyd yn arbennig, gan gynnwys ap realiti estynedig *Civilisations*.

£4m

Cyllideb gomisiynu 'Artists First' i gefnogi prosiectau teledu newydd gan sefydliadau celfyddydol.



The Hitchhiker's Guide to the Galaxy, Radio 4



Gemau Olympaidd y Gaeaf
Dechreuwyd 22.2 miliwn o ffrydiau o'n darllediadau drwy lwyfannau digidol

CHWARAEON

Nod y BBC yw cyflwyno cynulleidfaoedd i'r digwyddiadau chwaraeon mawr sy'n uno'r genedl gan ar yr un pryd ddarparu'r newyddion a'r farn ddiweddaraf o bob rhan o'r byd chwaraeon. Er gwaethaf y gystadleuaeth eithriadol yn y farchnad darlledu chwaraeon, nod y BBC yw sicrhau mai ef yw darlledwr chwaraeon mwyaf poblogaidd y DU o hyd. Rydym yn cynnig y gwasanaethau chwaraeon mwyaf poblogaidd ar y teledu, ar y radio ac ar-lein yn y DU.

Yn 2017, roeddem yn gyfrifol am tua 2% o'r chwaraeon a ddarlledwyd ar y teledu, ond gwnaethom lwyddo i ddenu mwy na 36% o'r gwylwyr. Mae rhai chwaraeon, pêl-droed yn benodol, yn chwarae rôl bwysig yn cynnal cydberthynas â chynulleidfaoedd iau a mwy amrywiol. Parhaodd ein hallbwn pêl-droed wythnosol, gyda *Match of the Day* yn ganolbwynt iddo, i ddiddanu a denu cynulleidfaoedd mawr yn 2017, gyda bron i 60% o'r rheini a oedd yn gwyllo unrhyw gêm yn Uwch Gynghrair Lloegr yn ei gwyllo ar Deledu'r BBC yn unig.

Gwefan BBC Sport yw'r wefan fwyaf poblogaidd yn y DU, gan ddenu 19 miliwn o borwyr unigryw yn y DU bob wythnos. Yn wir, mae ein harlwy chwaraeon yn arwain trawsnewidiad digidol y BBC, gan gyflwyno digwyddiadau a newyddion ychwanegol i gynulleidfaoedd drwy ategu ein harlwy linellol â chynnwys cynyddol bersonol. Mae ein gwasanaeth ffrydio ar-lein yn ailddyfeisio darlledu chwaraeon am ddim gyda'r cynnydd mwyaf o ran cynnwys chwaraeon byw ers cenhedlaeth. Bydd dros fil o oriau ychwanegol o chwaraeon byw ar gael i gynulleidfaoedd eu gwyllo ar-lein bob blwyddyn drwy BBC Sport a BBC iPlayer. Gall dilynwyr chwaraeon hefyd bersonoleiddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y gallant wyllo'r holl chwaraeon byw o'u dewis, pa bryd bynnag y bydd ar y BBC, ar gyfrifiaduron, ffonau symudol, llechi a setiau teledu cysylltiedig.

YN YSTOD 2017/18 DARLLEDWYD NIFER O DDIGWYDDIADAU CHWARAEON PWYSIG AR Y BBC:

WIMBLEDON

- Eleni, dathlwyd 80 mlynedd ers dechrau ei darlledu ar Deledu'r BBC a 90 mlynedd ers dechrau ei darlledu ar Radio'r BBC – sef y bartneriaeth fwyaf hirsefydledig ym maes darlledu chwaraeon.

CWPAN YR FA

- Cafodd y gystadleuaeth gwpan ddomestig enwocaf yn y byd pêl-droed sylw digyffelyb ar bob llwyfan darlledu gyda rhaglennu ategol yn rhan o bortffolio teledu, radio a digidol y BBC, a chyrrhaeddwyd 28.1 miliwn o bobl drwy setiau teledu yn unig.

PENCAMPWRIAETHAU ATHLETAU'R BYD

- Cynhaliwyd un o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf yr haf yn y Stadiwm Olympaidd yn Llundain a chyflwynodd y BBC ddarllediadau byw helaeth ar bob llwyfan darlledu. Cyrhaeddodd y darllediadau teledu bob nos uchafswm rheolaidd o dros 6 miliwn, gydag uchafswm brig o ychydig o dan 10 miliwn.

PENCAMPWRIAETH UNDEB RYGBI'R CHWE GWLAD 2018

- Nid oes unrhyw ddigwyddiad chwaraeon arall yn uno gwledydd y DU mewn cystadleuaeth mor gyfeillgar ond mor frwd. Rhannodd y BBC ddarllediadau teledu byw gydag ITV, gyda'r BBC yn unig yn cyrraedd dros 19 miliwn ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gynulleidfa. Cafwyd darllediadau byw llawn ar Radio'r BBC hefyd.

GEMAU OLYMPAIDD Y GAEAF YN NE KOREA

- Cyflwynwyd ein digwyddiad pwysig cyntaf fel rhan o'n partneriaeth saith mlynedd newydd gyda Discovery ar ein holl lwyfannau. Gwylodd nifer anhygoel, sef 33.3 miliwn, ein hallbwn teledu. A chafwyd newid sylweddol yn y ffordd y mae ein cynulleidfaoedd yn gwyllo yn ystod y Gemau, gyda 22.2 miliwn o ffrydiau yn cael eu dechrau ar ein llwyfannau digidol.

Y tu hwnt i'n ffocws pwysig ar y digwyddiadau mwyaf, gwnaethom barhau i ddarlledu amrywiaeth eang o chwaraeon. Ers Gemau Olympaidd 2016 yn Rio, rydym wedi dangos ar ein sianelau teledu rhwydwaith a Botwm Coch bencampwriaethau pwysig ar gyfer yr holl chwaraeon lle yr enillodd Prydain Fawr fedal aur; ac mae BBC Radio 5 live a 5 live sports extra wedi dangos 20 o fathau gwahanol o chwaraeon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Parhaodd BBC Radio 5 live a 5 live sports extra i gynnig amrywiaeth ehangach

o chwaraeon nag unrhyw ddarlledwr arall yn y DU. Roedd darllediadau o Gemau Paralympaidd y Gaeaf eleni yn Pyeongchang ar gael ar wefan BBC Sport a BBC Radio 5 live, lle y cyflwynodd JJ Chalmers y wybodaeth ddiweddaraf ac uchafbwyntiau o Dde Korea. Gyda 144 o sylwebaethau radio byw, rydym yn darlledu mwy o gemau Uwch Gynghrair Lloegr nag unrhyw ddarlledwr radio arall yn y DU, a darlledodd *Test Match Special* o bob un o gemau criced Lloegr yn ystod yr haf, wedi'i ategu gan wasanaeth clipiau digidol ar wefan BBC Sport.

Cyflwyno allbwn a gwasanaethau creadigol a nodedig o ansawdd uchel

CERDDORIAETH

Mae cerddoriaeth wrth wraidd llawer o wasanaethau mwyaf poblogaidd y BBC, gan ysbrydoli a diddanu cynulleidfaoedd â rhaglennu nodedig a chyflwyno'r goreuon o blith cerddoriaeth a digwyddiadau byw yn y DU i filiynau o bobl bob wythnos.

Cyflwynodd Radio 1 rai o'r enwau mwyaf ym maes cerddoriaeth i'r Teen Awards, sy'n cydnabod cyflawniadau arwyr yn eu harddegau ('Teen Heroes'). Dathlodd 1Xtra ei phen-blwydd yn 15 oed â digwyddiad 1Xtra Live arbennig ym Manceinion ac roedd rhaglennu nodedig yn cynnwys *1Xtra in Jamaica* a darllediadau o garnifalau yn Llundain, Nottingham a Leeds. Am y tro cyntaf, cynhaliwyd digwyddiad mwyaf blaenllaw BBC Asian Network, *Asian Network Live*, yn Birmingham gyda gweithgareddau allgymorth yn cael eu cynnal ledled y ddinas.

Dathlodd Radio 2, yr orsaf y gwrandewir arni fwyaf yn y DU, ei hanner canmlwyddiant drwy gyflwyno ei rhaglen *Soul Zone* ar nos Sadwrn o Fanceinion fel rhan o *All Star Party* cyntaf Radio 2. Adlewyrchwyd ymrwymiad yr orsaf i gerddoriaeth arbenigol yn y Gwobrau Gwerin, y gyfres *In Concert* yn dathlu artistiaid o'r pum degawd diwethaf a darllediadau o Wyl Jazz Cheltenham, Celtic Connections yn Glasgow a Gwobrau Theatr yr Evening Standard. Mae Radio 6 Music, a gyrhaeddodd ei nifer uchaf o wrandawyr erioed eleni, wedi hyrwyddo cerddoriaeth amgen ac annibynnol, gan gynnwys *Hip Hop Hooray*. Gyda thros 300 o berfformiadau byw, darlledodd 6 Music fwy o gerddoriaeth fyw nag unrhyw orsaf arall yn y DU.

Er mwyn ategu adegau nodedig, darlledodd Radio 3 *Music of the Reformation*, a saith opera i ategu rhaglenni teledu'r BBC, yn ogystal â digwyddiadau byw ledled y DU, gan gynnwys Gŵyl Jazz Llundain a chyngherddau o'r Barbican. Ar ddiwedd prosiect ar y cyd â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i ymchwilio i ddarnau o waith a aed yn angof gan gyfansoddwyr benywaidd, cynhaliwyd cyngerdd gala. Unwaith eto, cynhaliodd Radio 3 ddiwrnod o gyfansoddwyr

benywaidd er mwyn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched, a chomisynodd Lucy a Helen Pankhurst i gyfansoddi darn newydd a oedd ar gael am ddim i'r cyhoedd ei berfformio yn eu corau.

Roedd uchafbwyntiau BBC Music ar BBC One yn cynnwys tair rhaglen *At the BBC* gyda Harry Styles, Sam Smith ac U2, a lansiwyd *Sounds Like Friday Night*. Roedd digwyddiadau arbennig gan BBC Music yn cynnwys *Children in Need Rocks the 80s* a *Gospel Christmas* yn ogystal â chyngherdd codi arian *One Love Manchester*. Dathlodd BBC Two chwarter canmlwyddiant *Later... with Jools Holland* drwy ddarlledu cyngerdd ar y teledu. Gwylodd bron i 23 miliwn o bobl ddarllediadau helaeth y BBC o Glastonbury. Darlledodd BBC Four

o ddigwyddiadau *In Concert* Radio 2, *Live Lounge* Radio 1, Gwobr Mercury yn ogystal ag uchafbwyntiau Gwobrau Gwerin Radio 2 a Gwobrau'r Gymdeithas Cerddoriaeth Canu Gwlad. Archwiliodd Gregory Porter *Popular Voices* a chynigiwyd dealltwriaeth fanylach i ddilynwyr o gerddoriaeth a bywydau'r artistiaid dan sylw.

Gyda thros 300 o berfformiadau byw, darlledodd 6 Music fwy o gerddoriaeth fyw nag unrhyw orsaf arall yn y DU.



Asian Network Live yn Birmingham

Cyngerdd I Feel Love Radio 2



TYMOR GAY BRITANNIA

Tymor o straeon beiddgar a herfeiddiol i ddatlu hanner canmlwyddiant Deddf Troseddau Rhywiol 1967.

Arweiniwyd y tymor gan raglennu ar BBC Two a BBC Four, gyda chynnwys arall ar radio ac ar-lein, ac roedd yn cynnwys straeon a oedd yn datlu'r gymuned LGBTQ.

Cafodd y tymor ganmoliaeth uchel gan wylwyr a gwrandawyr gan lwyddo'n benodol i daro deuddeg ymhlith y gymuned a chael effaith gadarnhaol ar ei barn am y BBC.

Roedd rhaglenni teledu yn cynnwys *Against the Law* (a enwebwyd am wobwr BAFTA am y Ddrama Unigol Orau), *Man In An Orange Shirt* a gafodd ganmoliaeth uchel, *Prejudice And Pride: The People's History Of LGBTQ Britain* (a enwebwyd am Wobwr Broadcast Digital), *Queers*, *Growing Up Gay* ac *Is It Safe To Be Gay In The UK?*

Darlleddodd Radio 2 gyngerdd nos Sadwrn fyw yn ogystal â rhaglen ddogfen a gyflwynwyd gan Andrew Scott yn ystyried y pum degawd diwethaf o hanes Prydeinig drwy ddiwylliant hoyw a'i effaith ar gerddoriaeth boblogaidd. Yn nhyrnor *Loud and Proud* 6 Music, ystyriodd Tom Robinson yr agweddau cyfnwidiol tuag at gymunedau LGBTQ+ gan ddefnyddio bywyd a cherddoriaeth Labi Siffre fel lens. Ymhlith uchafbwyntiau Radio 4 roedd y rhestr *Queer Icons* a *From Shame to Pride* gyda Val McDermid, a darlleddodd Radio 1 hefyd raglenni dogfen Gay Britannia.

PODLEDIADAU

Mae'r BBC ymhlith cynhyrchwyr podlediadau mwyaf y byd ac eleni, comisynodd hefyd gyfresi newydd nad ydynt yn cynnwys rhaglenni a ddarledwyd ar yr awyr ac sy'n bodoli yn anad dim fel podlediadau. Mae lleisiau ifancach a gwahanol yn trafod amrywiol bynciau gan ddadansoddi diwylliant, bwrw goleuni ar y byd o'n cwmpas a rhannu profiadau personol. O gomediâu newydd Radio 1 i *GrownUpLand* Radio 4, *Fit and Fearless* 5 Llive a phodlediadau megis *The Boring Talks* ac *Unpopped*,

rhoddwyd cyfle i wrandawyr fwynhau amrywiaeth o wahanol gynnwys ar-lein wrth i ni ailddyfeisio Radio'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd. Ymunodd y rhain â phodlediadau eraill poblogaidd gan gyflwynwyr adnabyddus y BBC megis *Political Thinking* gyda Nick Robinson, *Brexitcast*, *Kermode and Mayo's Film Review*, *The Assassination* a *Fortunately with Fi and Jane*. Cyflwynodd Radio 4 Extra *Podcast Radio Hour* er mwyn rhoi'r cyfle i wrandawyr glywed gan y bobl sy'n creu'r podlediadau a argymhellir.



4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

Fel sefydliad, ein nod yw cynrychioli pawb – yr holl ddiwylliannau a lleisiau amrywiol sy'n rhan o'r DU. Ein busnes yw adrodd straeon a rhaid i ni sicrhau ein bod yn adrodd straeon y bydd pobl ledled y DU yn eu hadnabod, yn eu deall ac y gallant uniaethu â nhw. Dyna pam y mae'n rhaid i'r BBC, fel sefydliad gwirioneddol greadigol, gynnwys cynifer o leisiau a safbwyntiau â phosibl, yn ogystal â rhoi cyfleoedd i bobl o bob cefndir.

Wrth wraidd cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC mae anelu at gynrychioli'r DU gyfan, adlewyrchu'r wlad gyfan i'w hun a sicrhau bod ei holl leisiau amrywiol yn cael eu clywed. Rydym wedi gosod targedau ar yr awyr ac oddi ar yr awyr i ni ein hunain sydd mor heriol ag unrhyw dargedau yn niwydiant y cyfryngau yn y DU – er mwyn sicrhau, gydag amrywiaeth ac ehangder y rhaglenni a wnawn, bydd ein cynulleidfaoedd yn gallu gweld a chlywed lleisiau amrywiol ym mhopeth a wnawn.

Cydnabyddwn, ar adeg pan fo'r wlad yn teimlo'n rhanedig ac yn ddarniog, pan fo'r DU yn fwyfwy amrywiol a datganoledig, fod y cyfrifoldeb hwn yn bwysicach nag erioed efallai. Ledled y DU gyfan, gwyddom fod y cyhoedd am i ni wneud mwy i gynrychioli a phortreadu amrywiaeth lawn bywyd a chymuned drwy ein rhaglenni a'n gwasanaethau. Y llynedd gwnaethom adolygu ein rhaglenni a'n gwasanaethau yn y gwledydd, gan gyhoeddi newidiadau sylweddol a chryn fuddsoddi. Mae angen i'n rhaglenni gael eu creu ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae angen i'n gwasanaethau lleol a gwasanaethau'r gwledydd fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd ym mhobman.

Ond, yn ogystal â dangos beth sy'n ein gwneud yn wahanol, rhaid i ni hefyd ddathlu'r hyn sy'n uno'r wlad ar gyfer profiadau ar y cyd a sgwrs genedlaethol a rennir. Credwn fod gallu unigryw'r BBC i danlinellu'r hyn sy'n dod â'r wlad ynghyd yn ogystal â'r hyn sy'n gosod ei chymunedau ar wahân yn ased amhrisiadwy i'r DU ar adeg dyngedfennol. Mae'r tudalennau canlynol yn dangos sut rydym wedi cyflawni'r diben hwn drwy ein hallbwn amrywiol a thrwy ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr.

56%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw.

(aneffeithiol 20%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI.

62%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaeth sy'n berthnasol iddynt.

(aneffeithiol 17%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI.

55%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu'r rhan o'r DU lle maent yn byw.

(aneffeithiol 20%)


Ffynhonnell: Ipsos MORI.

56%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran gwasanaethu'r rhan o'r DU lle maent yn byw.

(aneffeithiol 19%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI.



Mae gallu unigryw'r BBC i danlinellu'r hyn sy'n dod â'r wlad ynghyd yn ogystal â'r hyn sy'n gosod ei chymunedau ar wahân yn ased amhrisiadwy i'r DU ar adeg dyngedfennol.

Adlewyrchu a chynrychioli gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

CYNNWYS AMRYWIOL

Ein nod yw sicrhau mai ni yw'r sefydliad mwyaf creadigol yn y byd – gan adlewyrchu, cynrychioli ac aros yn wirioneddol berthnasol i holl gymunedau'r DU. Dylai pob cynulleidfa deimlo bod y BBC yn cynnig rhywbeth iddi hi.

Rydym yn ymrwymedig i fesur ein perfformiad yn erbyn ein huchelgais i gyrraedd pob cynulleidfa drwy amrywiaeth o baneli cynulleidfaoedd, grwpiau ffocws ac arolygon boddhad.

Mae mwy o amrywiaeth o ran syniadau a phrofiad, a gyflawnir drwy weithlu mwy cynrychioliadol, yn ffactor allweddol ar gyfer y fath greadigrwydd. Dyna pam ein bod wedi ymrwymo i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau ar draws y BBC – o lefel mynediad hyd at lefel Bwrdd. Gwnaethom gyflawni targedau gweithlu amrywiol 2017 ac rydym yn raddol gyflawni ein targedau ar gyfer 2020 (darllenwch fwy yn adran Ein Pobl ar dudalen 74).

Ar draws ein gwasanaethau, cewch y cynnwys amrywiol gorau ar y sgrin ac oddi ar yr awyr. Ac rydym wedi gweld blwyddyn lwyddiannus o raglennu yn seiliedig ar bynciau cynhwysol.

Mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth genedlaethol yn amlwg drwy ein cynnwys diweddar. Gwnaeth *Moorside*, *Broken* a *Three Girls* adrodd straeon cymhleth dosbarth cymdeithasol a chymunedau yng Ngogledd Lloegr. Cafodd *Paula* ei ffilmio yng Ngogledd Iwerddon ac roedd *The Replacement* a *Trust Me* yn ddramâu o'r radd flaenaf o'r Alban.

Parhaodd merched i arwain y ffordd gydag ystod ehangach o leisiau a phrofiadau merched yn cael eu portreadu ar draws ein rhaglenni. Thandie Newton oedd seren cast cyfres pedwar o *Line of Duty* a dychwelodd sioe lwyddiannus *Doctor Foster*, gyda merch yn brif gymeriad, am ail gyfres ar BBC One. Cyhoeddwyd mai Jodie Whittaker fyddai'r Doctor benywaidd cyntaf erioed a phenodwyd Shirley Ballas yn Brif Feirniad ar *Strictly Come Dancing*.

Rhoddydwyd llwyfan i dalent o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) drwy *The Boy with the Top Knot* a ddaeth â chofiannau Indiaid ail genhedlaeth yn tyfu i fyny ym Mhrydain yn fyw.

Ymhlith y comisiynau newydd hefyd roedd *Man like Mobeen* Guz Khan a *Chinese Burn*. Wrth i Idris Elba gymryd yr awenau ar BBC Three cafwyd *Marcus The Wheelchair Boxer*, *Breaking Out In Bradford*, *Being A Working Class Barrister* a *Five By Five*, sef drama a adroddwyd mewn pum pennod fer.

Ymhlith yr uchafbwyntiau radio roedd *Carnival Weekend* 1Xtra gan ddarlledu o Notting Hill, Nottingham a Leeds a chyfres Levi Roots ar gerddoriaeth reggae ar draws y degawdau ar gyfer Radio 2.

Eleni, mae cynrychioli pobl ag anabledau wedi bod wrth wraidd amserlenni. Rydym wedi bod yn hyrwyddo cyflwynwyr anabl mewn sioeau brig ac rydym yn gweld ac yn clywed mwy o amrywiaeth ar draws ein cynnwys chwaraeon. Gwelwyd yr athletwr Paralympaidd Jonnie Peacock yn cystadlu ar *Strictly Come Dancing*. Cafwyd cyflwynwyr/gohebwyrs anabl i gyd ar gyfer Gemau Invictus a dilynodd *Without Limits: Vietnam* chwe theithiwr anabl ar eu hantur.

Darparodd Chris Packham gipolwg gwirioneddol yn *Asperger's and Me* a dychwelodd *The A Word* am ail gyfres. Nod cyfres iechyd meddwl Minds Matter y BBC oedd trechu'r stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl, a heriodd fideos ffurf fer BBC Three o'r gyfres *Things Not to Say* gamsyniadau ynghylch iechyd meddwl.

Ac aeth ein tymhorau o nerth i nerth. Wrth goffáu 70 mlynedd ers Rhannu India cafwyd *Partition: The Forgotten Story*, *Dangerous Borders: A Journey Across India and Pakistan* a *My Family, Partition and Me: India 1947*. Ac fel rhan o dymor Gay Britannia, a nododd hanner can mlynedd ers Deddf Troseddau Rhywiol 1967, cafwyd amrywiaeth o gynnwys ar draws teledu, radio ac ar-lein (gweler tudalen 37).

Portreadwyd y gymuned LGBT ymhellach gyda *Two Doors Down* a oedd yn cynnwys pâr hoyw rhyngiliol amlwg yn y prif rolau, gwelwyd y prif gymeriad Miriam Margolyes yn seren yn *Bucket* a chwaraeodd Pearl Mackie ran cydymaith hoyw agored, Bill Potts, yn *Doctor Who*.

Rydym wedi bod yn gweithio tuag at gynhwysiant mwy eilbeth ar y sgrin. Rydym yn gweld mwy o gymeriadau LGBT mewn rolau nad ydynt yn gysylltiedig â rhywioldeb na rhywedd, gyda llinellau stori a sefyllfaoedd sy'n gyffredin i bawb, sy'n ddilys ac mor gynrychioliadol â phosibl.

Mae cyflyrau iechyd hirdymor sy'n effeithio ar fywydau rhannau helaeth o'n cynulleidfa yn rhan o'n llinellau stori fwyfwy. Rydym am i bawb gael eu cynnwys – felly rydym yn ymgorffori'r lefelau uchaf o hygyrchedd ac arloesedd o fewn ein cynhyrchion digidol ar draws isdeitlo a disgrifiadau sain.

Cydnabyddwn fod angen i'n strategaethau cynnwys fod yn ystywyth ac yn flaengar er mwyn diwallu anghenion DU fodern a newidiol, a'r holl grwpiau a chymunedau a wasanaethwn. Felly, rydym yn dod i ddysgu mwy am ein cynulleidfaoedd drwy feithrin dealltwriaeth newydd, fwy amrywiol ohonynt sy'n bwydo i mewn yn uniongyrchol i benderfyniadau golygyddol a'r broses gomisiynu.

+ Darllenwch fwy yn Ein Pobl: Amrywiaeth ar dudalennau 79 i 83 a'r Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb ar dudalennau 240 i 263.



Without Limits: Vietnam
Mae ein Cod Ymarfer newydd yn gosod amrywiaeth wrth wraidd proses gomisiynu'r BBC

7/10

Y sgôr gyfartalog am argraff gyffredinol y mae pob grŵp cynulleidfa yn ei rhoi i'r BBC waeth beth fo'i oedran, rhywedd, grŵp cymdeithasol, tarddiad ethnig na daearyddiaeth.

Ffynhonnell: Kantar Media.

% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
Effeithiol	73%	74%	81%	65%	71%	76%	74%	75%	67%
Aneffeithiol	10%	8%	7%	11%	8%	9%	10%	8%	12%

% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
Effeithiol	56%	57%	64%	47%	51%	60%	58%	58%	48%
Aneffeithiol	22%	18%	18%	23%	21%	18%	20%	19%	29%

Cyrhaeddiad Teledu'r BBC: % pob grŵp cynulleidfa mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
2017/18	78%	82%	81%	80%	60%	82%	93%	81%	69%
2016/17	80%	84%	82%	82%	65%	85%	94%	83%	72%

Cyrhaeddiad Radio'r BBC: % pob grŵp cynulleidfa sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
2017/18	67%	62%	72%	56%	53%	64%	74%	68%	47%
2016/17	68%	61%	73%	55%	53%	64%	74%	68%	46%

Cyrhaeddiad BBC Ar-lein: % pob grŵp cynulleidfa sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob mis*

	Gwryw 15+	Benyw 15+	ABC1 15+	C2DE 15+	15-34	35-54	55+
2017/18	76%	71%	86%	58%	82%	84%	57%

Teledu'r BBC: Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
2017/18	07:41	08:49	08:08	08:27	02:59	06:25	13:53	08:42	04:23
2016/17	08:17	09:13	08:37	08:56	03:28	06:55	14:33	09:13	04:54

Radio'r BBC: Amser a dreulir yn gwrando ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
2017/18	10:38	09:30	10:57	09:00	04:39	09:17	15:10	11:10	04:41
2016/17	10:49	09:32	11:11	08:58	04:44	09:31	15:16	11:16	04:38

* Mesurau comScore MMX Multi-Platform o 15+ ac yn fisol.

Ffynhonnell: Ipsos MORI, BARB, RAJAR. Data cyrhaeddiad ar-lein ar dudalen 28 ac yma o comScore MMX Multi-Platform, DU, Cyfanswm Ymwelwyr Unigryw y mis, [P] Safleoedd y BBC, Hydref 2017-Mawrth 2018 (data bwrdd gwaith 15+, data symudol 18+); canrannau yn seiliedig ar boblogaethau cyffredinol y DU gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth SYG ac Arolwg Sefydliadau BARB.

Mae cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC a nodir yma ac ar dudalen 28 yn seiliedig ar 15+ munud.

Adlewyrchu a chynrychioli gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

Darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU

Mae'r BBC yn ymrwymedig i wasanaethu ei gynulleidfaoedd ledled y DU, gan ddarparu cynnwys nodedig a pherthnasol o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a helpu i gynnal cyrhaeddiad a chynnig cyfrwng effeithiol i adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau.

Gwasanaethau penodedig

Mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth o allbwn penodol, traws-genre ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr ar deledu, radio ac ar-lein. Mae pob ardal yn creu rhaglenni teledu a radio ar gyfer ei gynulleidfa leol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yn Glasgow, Caerdydd, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain.

Fel rhan o'n ffocws i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU, rydym yn gwneud rhagor o welliannau i'r ffordd rydym yn mesur ein perfformiad mewn gwahanol rannau o'r DU. Ni chaiff ffigurau cymharol ar gyfer perfformiad BBC Ar-lein yn ôl daearyddiaeth eu cynnwys eleni, ond caiff hyn ei gywiro mewn blynyddoedd dilynol.




Gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel canran o wariant cymwys

	2017	2016
Llundain	48.9%	49.4%
Yr Alban	9.1%	10.3%
Cymru	6.7%	5.8%
Gogledd Iwerddon	2.4%	3.1%
Cyfanswm y gwledydd	18.2%	19.2%
Canolbarth Lloegr	1.9%	1.5%
Gogledd Lloegr	18.4%	19.7%
De Lloegr	8.7%	7.6%
Aml-ranbarth*	3.9%	2.6%
Cyfanswm y rhanbarthau ac eithrio Llundain	32.9%	31.4%
Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau	51.1%	50.6%
Cyfanswm cyfan	100%	100%

Oriau allbwn Radio Lleol y BBC a radio'r gwledydd**

	2017	2016
Lloegr (ac eithrio Llundain)	222,946	225,020
Llundain	8,613	7,977
Yr Alban	11,866	11,977
Cymru	14,366	14,594
Gogledd Iwerddon	8,639	8,560

Cyflenwadau rhwydwaith


Caiff dros hanner teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 51.1% o'r tu allan i Lundain a mwy na 18% o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr.

* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Lundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw un rhanbarth na gwlad.

** Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol y BBC a radio'r gwledydd yn eu cynnwys ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw raglenni a gaiff eu hailddarlledu.

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 151 i 167



Y BBC yng Nghymru

Ym mlwyddyn gyntaf ailfuddsoddiad o £8.5 miliwn ychwanegol y flwyddyn o dan y Siarter, roedd yr effaith greadigol i'w gweld yn syth – a chyfrannodd at berfformiad cryf y BBC yng Nghymru.



Gan ganolbwyntio ar gyflwyno rhaglennu nodedig pwysig wedi'i wreiddio yng Nghymru i gynulleidfaedd ym mhob man, gwelodd BBC Cymru ei gynulleidfaedd uchaf erioed o ran cyfresi feithiol a drama ers mwy na degawd.

Cafodd cyfres *Valley Cops* – a daflodd gipolwg hynod ddiddorol ar blismona cymunedol yn y Cymoedd – ei chydgomisiynu gan BBC Cymru a BBC Three. Denodd y gyfres 346,000 o wylwyr, sy'n nifer dda iawn, ar BBC One Wales a chafodd ei darlledu'n ddiweddarach ar BBC One ledled y DU. Cafwyd llwyddiant tebyg yn achos *Keeping Faith* – cyfres wyth pennod gydag Eve Myles, a gydgomisiynwyd gan BBC Cymru ac S4C. Denodd y gyfres ar BBC One Wales 300,000 o wylwyr fesul pennod ar gyfartaledd – gyda mwy na 5 miliwn o geisiadau pellach i wylwyr gyfres ar iPlayer cyn diwedd mis Mawrth 2018. Yn wir, bu'n gymaint o lwyddiant, fel bod ail gyfres wrthi'n cael ei datblygu.

Cadwodd *Keeping Faith* gwmni da yn y flwyddyn fwyaf i ddrama Gymreig mewn cenhedlaeth, gyda'r drydedd gyfres a'r gyfres olaf o *Hinterland* a'r gyfres oruwchnaturiol *Requiem* hefyd yn denu cynulleidfaedd yng Nghymru a ledled y DU.

Ynghyd â drama, parhaodd BBC Cymru i feithrin ei ffocws ar gynulleidfaedd iau, gyda chyfres newydd o *Hayley a Young, Welsh and Pretty Minted* ill dwy yn gwneud eu marc ar BBC Three a BBC iPlayer, yn ogystal ag ar BBC One Wales.

Gan edrych ar draws gwasanaethau'r BBC, parhaodd perfformiad cynulleidfa 44 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2017/18

Teledu a Radio'r BBC yng Nghymru i fod yn uchel, wedi'i lywio gan berfformiad cryf BBC One Wales, Radio 1 a Radio 2. Hefyd, cynyddodd cynulleidfa Radio Cymru dros y cyfnod, ond mae cyrhaeddiad Radio Wales yn parhau i wynebu pwysau cystadleuol.

Ym mis Ionawr, dathlodd BBC Radio Cymru ei hail ben-blwydd drwy lansio ail wasanaeth brecwast, Radio Cymru 2, ar draws DAB a dyfeisiau symudol. Am y tro cyntaf, mae'r gwasanaeth newydd yn cynnig dewis go iawn i wrandawyr Cymraeg – gyda'r cymysgedd o adloniant a cherddoriaeth yn darparu dewis amgen i wasanaeth newyddion *Post Cyntaf* ar brif wasanaeth Radio Cymru.

Parhaodd Radio Wales i ddatblygu allbwn amrywiol – cafwyd sioe fyw nosweithiol newydd o Wrecsam, gyda Janice Long, a gwnaeth Eve Myles a Lucy Owen ymuno â'r tîm cyflwyno. Cafodd ymrwymiad yr orsaf i gomedi newydd ei atgyfnerthu hefyd gyda chomedi newydd sbon gan Ruth Jones, Splott, a phartneriaeth newydd â gŵyl gomedi Machynlleth.

Yn ddiweddarach eleni, rhoddir hwb i signal FM Radio Wales – gyda 175,000 o gartrefi yn gallu gwrandao ar yr orsaf drwy wasanaeth FM am y tro cyntaf.

O ran newyddion, arweiniodd yr ailfuddsoddiad o dan y Siarter at gryn dipyn o allbwn newydd a gwelliannau golygyddol, gyda lansiad llwyddiannus cyfres wleidyddol newydd *BBC Wales Live* ar BBC One Wales, wedi'i chyflwyno gan Bethan Rhys Roberts a Jason Mohammad; rhaglen drafod fisol newydd *The Hour*; a gohebwyr Gymreig arbenigol newydd

ar gyfer Brexit, Materion Cymdeithasol, Chwaraeon a Materion Cartref.

Hefyd, gwnaeth y rhaglen materion cyfoes newydd, *BBC Wales Investigates*, ei marc ar unwaith, wrth roi sylw arbennig i euogfarn Michael Stone am lofruddio Lin a Megan Russell.



Yn ystod y flwyddyn hefyd, gwelwyd twf sylweddol yn y defnydd o ddyfeisiau symudol ar gyfer ein cynnwys ar-lein. Gwnaeth y rhaglen gomedi fer, *Nige*, a datblygu gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol newydd, *BBC Sesh* – a ysbrydolwyd gan lwyddiant *The Social* yn yr Alban – ddefnyddio Facebook ac YouTube er mwyn helpu i sicrhau mwy o effaith gyda chynulleidfaedd iau.

Ym meysydd drama, ffeithiol a cherddoriaeth, cynrychiolodd gwariant cynhyrchu teledu rhwydwaith yng Nghymru 6.7% o gyfanswm buddsoddiad y BBC yn 2017, gan ragori ar y targed o 5% unwaith eto. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd cyfres olaf Peter Capaldi fel y Doctor, gyda Jodie Whittaker yn cael ei datgelu fel y Doctor benywaidd cyntaf erioed mewn rhaglen arbennig ar ddydd Nadolig.

Parhaodd rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C i chwarae rhan bwysig yn amserlen y sianel, gyda'r ddrama boblogaidd *Pobol y Cwm* a *Newyddion 9* yn gonglfeini yn amserlen y sianel gyda'r nos. Hefyd, parhaodd rhaglenni S4C i berfformio'n gryf ar BBC iPlayer gyda thua 90,000 o geisiadau i wylwyr cynnwys bob wythnos ar gyfartaledd. Ochr yn ochr â'r llwyddiant hwn, denodd BBC Cymru Fyw tua 50,000 o borwyr unigryw bob wythnos.

Yn ystod y flwyddyn, aeth y gwaith o ddatblygu canolfan ddarlledu £100 miliwn newydd BBC Cymru yn Sgwâr Canolog, Caerdydd rhagddo yn sylweddol. Fel rhan o hyn, cyhoeddodd S4C y byddai'n rhannu gwasanaethau darlledu yn yr adeilad newydd o'r flwyddyn nesaf, gan adeiladu ar ein cytundeb partneriaeth newydd llwyddiannus a lofnodwyd gennym o dan y Siarter newydd. Yn y cyfamser, cyhoeddodd Prifysgol Caerdydd y byddai'n adleoli ei hysgol newyddiaduraeth a'r cyfryngau i'r safle newydd o fis Medi 2018, er mwyn adeiladu ar ei phartneriaeth gref bresennol â'r BBC. Disgwylir i'r ganolfan newydd fod yn weithredol o ddiwedd 2019 pan fydd y gwaith gosod technolegol wedi'i gwblhau.

Perfformiad fesul gwasanaeth

Gwasanaethau penodedig	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £28.1 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad % y boblogaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn gwyllo neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth ar gyfer pob awr y'i defnyddiwyd
 Mae BBC Radio Wales yn wasanaeth llafar i oedolion, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru	£14.6m 2016/17: £14.2m	14.3% 2016/17: 13.9%	08:05 2016/17: 08:19	85.5 2016/17: 82.7	9.3c 2016/17: 9.1c
 Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.	£13.5m 2016/17: £13.6m	21.1%* 2016/17: 16.7%*	13:02 2016/17: 12:23	81.7 2016/17: 78.8	16.9c 2016/17: 22.6c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud a chynulleidfaoedd 15+ oed.

Ffynonellau: RAJAR (cyrhaeddiad radio ac amser fesul gwrandawr, data yn seiliedig ar yr Ardal Arolygu Gyfan – TSA); Mynegai Gwerthfawrogiad – Panel Pulse o 20,000 o oedolion yn y DU 16+ gan GfK (data yn seiliedig ar oedolion 16+ oed sy'n byw yn ardal BBC Cymru).

* BBC Radio Cymru: data RAJAR (cyrhaeddiad ac amser fesul gwrandawr) yn seiliedig ar 'Deall Cymraeg'; data Mynegai Gwerthfawrogiad yn seiliedig ar 'Siarad Cymraeg yn Rhugl' a Siarad Cymraeg ond nid yn Rhugl'. Mae BBC Radio Cymru yn cyrraedd 5.0% o'r boblogaeth 15+ gyffredinol yng Nghymru sy'n gwrando am 11:59 bob wythnos ar gyfartaledd, ac mae'n rhoi sgôr Mynegai Gwerthfawrogiad gyfartalog o 81.8.

72%

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw.

(aneffeithiol 10%)

51%

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw.

(aneffeithiol 23%)

82%

Cyrhaeddiad Teledu'r BBC
% yr oedolion yng Nghymru mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

2016/17: 85%

72%

Cyrhaeddiad Radio'r BBC
% yr oedolion yng Nghymru sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos.

2016/17: 71%

44%

Gwasanaethau newyddion penodedig Cymru ar y teledu
% yr oedolion yng Nghymru mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

2016/17: 47%

09:35

Amser Teledu'r BBC y pen
Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yng Nghymru (oo:mm).

2016/17: 10:18

11:49

Amser Radio'r BBC y pen
Amser a dreulir yn gwrando ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yng Nghymru (oo:mm).

2016/17: 11:39

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB, RAJAR.
Noder: Mae'r holl ffigurau cyrhaeddiad yn seiliedig ar oedolion 16+ felly ni fydd ffigurau 2016/17 ar gyfer Teledu a Radio'r BBC yn cyfateb i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/17 am eu bod yn seiliedig ar 4+ oed (Teledu) a 15+ oed (Radio).
Amser y pen yn seiliedig ar oedolion 16+ oed. Mae cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Mae cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud.

Y BBC yn yr Alban

Yn y flwyddyn pan wnaethom gyhoeddi buddsoddiad mawr newydd yn yr Alban – gan gynnwys sianel newydd ag awr newyddion penodedig am 9pm – roedd Brexit, Etholiad Cyffredinol annisgwyl a thywydd garw'r 'Dihiryn o'r Dwyrain' ymhlith tri o'r prif straeon a gafodd sylw timau newyddion BBC Scotland.

Fel rhan o'r darlledu etholiadol, cafwyd dadl yr arweinwyr ar y teledu a chyfres o raglenni *Ask the Leader*, rhifynnau estynedig o *Reporting Scotland*, cyfweiliadau radio, sesiynau ffonio i mewn a chynnwys wedi'i gyflwyno drwy'r cyfryngau cymdeithasol, wedi'i deilwra i gyrraedd cynulleidfaedd nas gwasanaethir yn ddigonol a chynulleidfaedd ifanc.

Wrth i dywydd gaeafol lesteirio'r rhan fwyaf o'r wlad, gwylodd cynulleidfaedd rifynnau min nos estynedig o *Reporting Scotland* – roedd y gynulleidfa o 930,000 am yr hanner awr gyntaf o raglen 28 Chwefror yn cynrychioli'r uchaf yn y 15 mlynedd diwethaf.

Yn *Humans for Sale*, BBC Scotland *Investigates* taflwyd goleuni ar fasnachu mewn pobl. Cafodd datgeliadau erchyll y rhaglen eu codi yng Nghwestiynau'r Prif Weinidog ym mis Mai a chyfeiriwyd atynt drwy gydol trafodaeth yn Holyrood ym mis Mehefin.

Ymhlith yr uchafbwyntiau drama ar deledu rhwydwaith roedd *Trust Me*, stori ias a chyffro seicolegol wedi'i lleoli yng Nghaeredin, a gwelwyd y ddrama dirgelwch a llofruddiaeth glodwiw, *Shetland* yn dychwelyd. Bydd y ddwy gyfres ddrama yn dychwelyd y flwyddyn nesaf a groesewir yn fawr. Hefyd, dychwelodd y ffefryn gyda phlant, *Raven*, i'r sgrin, ar CBBC, gydag Aisha Toussaint yn y brif rôl.

Roedd yn flwyddyn gref arall i gynrychiadau ffeithiol a'r celfyddydau o'r Alban. Yn *The Proclaimers: This is the Story*, gyda David Tennant yn adrodd, cafwyd hanes gyrfa 30 mlynedd yr efeilliaid cerddorol enwog o Auchtermuchty; yr Albanwyr a wnaeth ymgartrefu yn Rwsia oedd canolbwynt y rhaglen ddwy ran *Brian Cox's Russia*; a dathlodd *Billy Connolly: Portrait of a Lifetime* ben-blwydd Big Yin yn 75 oed, gan ddenu 580,000 o wylwyr a sicrhau cyfran o 30% o'r gynulleidfa yn yr Alban.



Ymhlith y prif gyfresi roedd *The Forest*, a ddilynodd y rheini sy'n gweithio yng Nghoedwig fawreddog Galloway, a chyfres 10 rhan *Island Medics*, ar gyfer rhwydwaith BBC One, a aeth y tu ôl i'r lleni yn Ysbyty Gilbert Bain yn Lerwick.

Parhaodd BBC Studios i gynhyrchu rhaglenni o'r radd flaenaf ar gyfer y BBC, gan gynnwys *Earth's Natural Wonders* a *The Truth About Getting Fit* ar gyfer BBC One; ac *Imagine*, *Trust Me I'm a Doctor* a *This Farming Life* ar gyfer BBC Two, yn ogystal â dod â sioe *Front Row* BBC Radio 4 i'r teledu.

Ymhlith y ffefrynnau comedi rhwydwaith yn ystod y flwyddyn roedd dwy bennod Nadoligaidd arbennig o *Mrs Brown's Boys* (denodd y bennod ar ddydd Nadolig 9 miliwn o wylwyr yn y DU), cyfres newydd o *Two Doors Down* ac wythfed gyfres o'r ffenomenon gomedi *Still Game*.

Dathlwyd 70 mlynedd o Wyl Caeredin ar draws llwyfannau a gwasanaethau darlledu'r BBC, gan gynnwys uchafbwyntiau o'r *Royal Military Tattoo* ar y teledu, gyda Bill Paterson yn adrodd, a 33 o ddigwyddiadau cerddoriaeth glasurrol a gynhyrchwyd ar gyfer BBC Radio 3.




Rhoddyd sylw i fando, rygbi, cwrlo, pêl-droed ryngwladol a Chwpan yr Alban i gyd wrth ddarlledu o fyd y campau yn ystod y flwyddyn. A chafodd y sawl sy'n hoffi cerddoriaeth fwynhau darllediadau byw ac uchafbwyntiau teledu o ddigwyddiadau fel Proms in the Park, Gŵyl TRNSMT o Glasgow a Thecas ac SSO y BBC o'r Barrowlands fel rhan o Ddiwrnod Cerddoriaeth y BBC.

Yn ei 10fed blwyddyn, gwnaeth BBC ALBA barhau i gyrraedd cynulleidfaedd Gaelleg a di-Aeleg, gydag amrywiaeth gyfoethog o raglenni. Dychwelodd y ddrama boblogaidd *Bannan* am gyfres newydd a dilynodd *Dhan Uisge* anturiaethau nofio gwyllt Calum Maclean o amgylch yr Alban.

Cafwyd cyfresi newydd ar Radio Scotland, gyda'r cwis pynciol *Stop the Press*, a chanolbwyntiwyd ar hanes gyda llinyn gylchgrawn newydd, *Time Travels*, a chyfres hanes llafar, *Our Story*, gyda Mark Stephen.

Ar y cyfryngau cymdeithasol, mae dogfennau ffurf fer a chomedi *The Social* yn parhau i daro deuddeg gyda chynulleidfaedd, gyda *Natalie's Snow Day* yn cael ei weld 13 miliwn o weithiau ac ychydig o dan filiwn o ymgysylltiadau.

Perfformiad fesul gwasanaeth

Gwasanaethau penodedig	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £34.5 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad % y boblogaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreulwyd yn gwyllo neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr/gwrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth ar gyfer pob awr y'i defnyddiwyd
 Mae BBC ALBA yn cynnig amrywiaeth nodedig o ddeunydd rhaglenni gwreiddiol i siaradwyr a dysgwyr Gaelig sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaelig.	£7.9m 2016/17: £6.0m	62.1%* 2016/17: 67.2%*	04:58 2016/17: 05:23	dd/g 2016/17: dd/g	14.3c 2016/17: 9.6c
 Mae BBC Radio Scotland yn wasanaeth llafar yn bennaf i oedolion. Mae rhaglennu genre cymysg yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliant yr Alban ac yn ymdrin â materion a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i wrandawr ledled y wlad.	£22.6m 2016/17: £21.1m	19.2% 2016/17: 20.3%	06:25 2016/17: 07:18	76.7 2016/17: 75.8	7.8c 2016/17: 6.0c
 Mae BBC Radio nan Gàidheal yn cynnig gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Gaelig. Mae rhaglenni genre cymysg yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliant yr Alban ac, o safbwynt Gaelig a thrwy gyfrwng yr iaith Gaelig, yn ymdrin â materion a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i wrandawr ledled y wlad.	£4.0m 2016/17: £3.7m	61.1%** 2016/17: 68.4%**	07:43 2016/17: 08:40	dd/g 2016/17: dd/g	20.8c 2016/17: 15.6c

BBC Radio Scotland: Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud a chynulleidfaoedd 15+. Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr; data yn seiliedig ar Ardal Arolygu Gyfan – TSA); Mynegai Gwerthfawrogiad – panel Pulse o 20,000 o oedolion yn y DU 16+ gan GfK (data yn seiliedig ar oedolion 16+ oed sy'n byw yn ardal BBC Scotland).

* BBC ALBA: Panel TRP yn seiliedig ar y boblogaeth 16+ oed sy'n siarad Gaelig yn yr Alban. Mae BBC ALBA yn cyrraedd 11.3% o'r boblogaeth 16+ gyffredinol yn yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth am 01:55 yr wythnos ar gyfartaledd (ffynhonnell: Arolwg Barn TNS yr Alban yn seiliedig ar bob oedolyn 16+ oed yn yr Alban).

** Radio nan Gàidheal: Panel TRP yn seiliedig ar y boblogaeth 16+ oed sy'n siarad Gaelig yn yr Alban.

Mae dd/g yn golygu nad oes Data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.

69%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw.

(aneffeithiol 9%)

53%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw.

(aneffeithiol 19%).

82%

Cyrhaeddiad Teledu'r BBC

% yr oedolion yn yr Alban mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

2016/17: 83%

58%

Cyrhaeddiad Radio'r BBC

% yr oedolion yn yr Alban sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos.

2016/17: 56%

49%

Gwasanaethau newyddion penodedig yr Alban ar y teledu

% yr oedolion yn yr Alban mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

2016/17: 50%.

09:22

Amser Teledu'r BBC y pen

Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yn yr Alban (oo:mm).

2016/17: 09:36

08:15

Amser Radio'r BBC y pen

Amser a dreulir yn gwrando ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yn yr Alban (oo:mm).

2016/17: 08:01

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB, RAJAR. Noder: Mae'r holl ffigurau cyrhaeddiad yn seiliedig ar oedolion 16+ felly ni fydd ffigurau 2016/17 ar gyfer Teledu a Radio'r BBC yn cyfateb i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/17 am eu bod yn seiliedig ar 4+ oed (Teledu) a 15+ oed (Radio).

Amser y pen yn seiliedig ar oedolion 16+. Mae cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+.

Mae cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud.

Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Dechreuodd y flwyddyn drwy gyhoeddi buddsoddiad o £11 miliwn ychwanegol yn ein cynnwys a gwasanaethau lleol yng Ngogledd Iwerddon, dros gyfnod o dair blynedd a gorffennodd drwy gymeradwyo buddsoddiad sylweddol yn ein heiddo a'n technoleg yn Belfast.

Soft Border Patrol



Gyda chynnydd mewn gwariant comisiynu ar deledu lleol, gwnaethom ddatblygu'r gyfres gomedi *Soft Border Patrol*. Mae'r ffugraglen ddogfen newydd bynciol hon yn dilyn tîm o swyddogion gwarchod y ffin wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau mewn fersiwn o Ogledd Iwerddon lle mae Brexit wedi arwain at ffin feddal.

Gwnaethom greu mwy o gynnwys i gynulleidfaoedd iau. Cyrhaeddodd *The Top Table* – gyda phobl ifanc yn herio gwleidyddion ac eraill mewn awdurdod – 17% o'r boblogaeth mewn cyfres fer o bedair rhaglen. *Beauty Queen* a *And Single* oedd ein cyfres gyntaf a gyflwynwyd fel 'box set' ar BBC iPlayer yn syth ar ôl i'r bennod gyntaf gael ei darlledu. Cafwyd mwy na miliwn o geisiadau iPlayer ar draws y gyfres.

Gwnaeth BBC Bitesize a *Bwletin Ysgol* hefyd wasanaethu cynulleidfaoedd iau. Defnyddiodd ein hymgyrch Make It, a gafodd ei llywio gan ymchwil helaeth yn seiliedig ar dystiolaeth, asedau digidol a digwyddiadau allgymorth er mwyn cyrraedd bechgyn a dynion ifanc o gefndiroedd difreintiedig sy'n tangyflawni yn yr ysgol ac sy'n chwilio am waith.

Adlewyrchodd allbwn BBC Newyddion Gogledd Iwerddon, gan gynnwys *BBC Newline* a *The View*, yr agenda newyddion a'r sefyllfa wleidyddol newidiol iawn yng Ngogledd Iwerddon, gyda chynulleidfaoedd ymhlith defnyddwyr mwyaf newyddion yn y DU ar bob llwyfan. Denodd BBC Newyddion Gogledd Iwerddon Ar-lein 1.98 miliwn o borwyr wythnosol ar gyfartaledd, cynnydd o 11% o gymharu â 2016/17, a gwnaethom ddechrau cynllunio ar gyfer gwella ein harlwy newyddion ar-lein, gan gynnwys gwell gwasanaeth gyda'r nos yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos.

Parhaodd BBC Radio Ulster i fod yn un o'r gorsafoedd sy'n perfformio orau o blith portffolio radio cyfan y BBC, diolch i raglenni fel *Good Morning Ulster*, *The Nolan Show* a *Talkback*, yn ogystal â'r amrywiaeth o raglennu cerddoriaeth, llafar ac adloniant. Roedd yr orsaf yn gyfrifol am tua hanner holl ddefnydd radio'r BBC yng Ngogledd Iwerddon, a gwnaeth gyfrif am un rhan o bump o'r holl oriau radio y gwrandawyd arnynt yng Ngogledd Iwerddon. Parhaodd yr orsaf i feithrin talent newydd fel rhan o'i llinyn *New Voices*.

Gwnaethom lofnodi cytundeb cydweithredol newydd â phrifysgolion lleol er mwyn cefnogi arloesedd a'r ymchwil ddiweddaraf mewn darlledu sy'n torri tir newydd. Mae hyn yn adeiladu ar waith ymchwil a datblygu presennol ar gyfer y BBC yn Belfast, gan gynnwys parhau i ryddhau gwerth yr archif ddigidol o dan brosiect Rewind. A gwnaethom adnewyddu ein partneriaeth lwyddiannus â Northern Ireland Screen er mwyn helpu i ddatblygu diwydiant sgrin rhyngwladol gystadleuol yng Ngogledd Iwerddon. O ran drama, llwyddodd cyfres pedwar o *Line of Duty* i ddenu cynulleidfa gyfartalog o 8.2 miliwn ledled y DU, cafodd ei henwebu am bedair gwobr BAFTA a chafodd ei chomisiynu am ddwy gyfres arall. *Come Home*, gyda Christopher Eccleston a Paula Malcomson, yw'r gyfres ddrama ddiweddaraf i ddod allan o Belfast. Y gyfres newydd arloesol, *Pablo*, ar CBeebies am fachgen awtistig creadigol sy'n tynnu lluniau o ffrindiau dychmygol sy'n anifeiliaid oedd y gyfres deledu gyntaf wedi'i hanimeiddio i gynnwys cymeriad awtistig a'r rhaglen deledu gyntaf gyda chast craidd cwbl awtistig.

Cafodd cynnwys BBC Gaeilge ac iaith Albanaid Ulster, wedi'i gefnogi gan

Gronfeydd Darlledu Gaeleg ac iaith Albanaid Ulster Northern Ireland Screen, fudd o gasgliadau penodedig ar BBC iPlayer.

Cafodd cynulleidfaoedd y DU brofi harddwch arfordir Gogledd Iwerddon wrth i *The One Show* deithio o Carrickfergus i Sarn y Cedwri am wythnos o raglenni arbennig. Dangosodd hyn effaith gadarnhaol portread rhwydwaith, gyda'r rhaglen yn cyflawni 29% o'r gyfran gyfartalog yng Ngogledd Iwerddon am yr wythnos honno, o gymharu ag 16% ar gyfartaledd am y flwyddyn. Hefyd darlledwyd golygfeydd ysblennydd Castell Coole yn Swydd Fermanagh i gynulleidfaoedd y DU fel rhan o *Last Night of the Proms*.



Adlewyrchodd teledu BBC NI fywyd cymunedol gyda rhaglenni lleol yn cynnwys cyfres hirsefydledig *Nolan Live*, *Spotlight* a *True North* a ddenodd gryn gynulleidfa ac a ychwanegodd gyfran at BBC One a BBC Two yng Ngogledd Iwerddon. Cyrhaeddodd y gyfres *Survivors* ar BBC One NI 15% o boblogaeth Gogledd Iwerddon a rhoddodd lwyfan unigryw i ddiodeffwyr y Trafferthion adrodd eu hanesion personol. Arweiniodd y cymysgedd o raglenni eithrio, portread a rhaglennu rhwydwaith dirgrynol teledu BBC NI at gyfran BBC One gyfartalog yng Ngogledd Iwerddon o 20%, sef y lefel uchaf ers 2008/09.

Cafodd y rhaglenni dogfen *George Best: All By Himself* a *Wild Ireland: The Edge Of The World* eu darlledu i gynulleidfaoedd y DU, gyda'r olaf o'r rhain yn ennill gwobr am y rhaglen ddogfen hanes naturiol orau yng Ngwobrau Rhaglenni Dogfen Prydain.

Ym myd y campau, gwnaethom ddathlu Johnny Rea, a ddaeth yn ail yn BBC Sports Personality of the Year, gyda'r rhaglen ddogfen *Johnny Rea: 3 In A Row*, daliwyd cyfro North West 200 a Grand Prix Ulster a darlledwyd y rhan fwyaf o gemau Ulster ym Mhencampwriaeth GAA Ulster. Ar-lein, cafodd gemau cartref rhagbrofol Cwpan y Byd tîm merched Gogledd Iwerddon eu ffrydio'n fyw. Cyrhaeddodd gemau tîm rygbi Ulster a ddarlledwyd ar BBC Two NI 30% o boblogaeth Gogledd Iwerddon.

Gorffennodd y flwyddyn drwy gymeradwyo buddsoddiad o £77 miliwn mewn eiddo a thechnoleg. Bydd hyn yn ein helpu i wasanaethu cenedlaethau'r dyfodol wrth gynnal ein treftadaeth fel cyrchfan diwylliannol i'r gymuned gyfan.

Perfformiad fesul gwasanaeth

Gwasanaethau penodedig	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £17.6 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad % y boblogaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreulir yn gwyllo neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth ar gyfer pob awr y'i defnyddiwyd
 Mae BBC Radio Ulster yn wasanaeth llafar yn bennaf, sy'n cwmpasu amrywiaeth o raglenni sy'n adlewyrchu newyddion, digwyddiadau a phob agwedd ar fywyd cymunedol yn ei ehangder.	£17.6m	38.0%	10:18	77.1	5.8c
 Mae BBC Radio Foyle yn wasanaeth llafar yn bennaf i gynulleidfaoedd yng ngogledd-orllewin Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnig cymysgedd o newyddion a rhaglennu eraill sy'n ategu ac yn cyfrannu at wasanaeth BBC Radio Ulster ar draws y rhanbarth.	2016/17: £17.5m	2016/17: 34.3%	2016/17: 11:19	2016/17: 74.9	2016/17: 5.9c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud a chynulleidfaoedd 15+.

Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr; data yn seiliedig ar Ardal Arolygu Gyfan – TSA); Mynegai Gwerthfawrogiad – panel Pulse o 20,000 o oedolion yn y DU, 16+ gan GfK (data yn seiliedig ar oedolion 16+ oed sy'n byw yn ardal BBC Northern Ireland).

67%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran **hysbysu, addysgu a diddanu** pobl yn y DU/nhw.

(aneffeithiol: 16%)

55%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn **effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw**.

(aneffeithiol: 24%)

81%

Cyrhaeddiad Teledu'r BBC
% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

2016/17: 82%

62%

Cyrhaeddiad Radio'r BBC
% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos.

2016/17: 60%

53%

Gwasanaethau newyddion penodedig Gogledd Iwerddon ar y teledu

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

2016/17: 52%

07:22

Amser Teledu'r BBC y pen
Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yng Ngogledd Iwerddon (oo:mm).

2016/17: 07:45

07:43

Amser Radio'r BBC y pen
Amser a dreulir yn gwrando ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yng Ngogledd Iwerddon (oo:mm).

2016/17: 07:53

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB, RAJAR.
Noder: Mae'r holl ffigurau cyrhaeddiad yn seiliedig ar oedolion 16+ felly ni fydd ffigurau 2016/17 ar gyfer Teledu a Radio'r BBC yn cyfateb i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/17 am eu bod yn seiliedig ar 4+ oed (Teledu) a 15+ oed (Radio).
Amser y pen yn seiliedig ar oedolion 16+ oed.
Mae cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud.
Mae cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud.

Y BBC yn Rhanbarthau Lloegr

Mae gwasanaethau lleol a rhanbarthol y BBC yn Lloegr yn parhau i addasu i ymddygiad newidiol cynulleidfaedd a thirlun gwleidyddol newidiol y wlad.

Cafodd pwysigrwydd gwasanaethau lleol a rhanbarthol y BBC yn Lloegr ei danlinellu eleni pan gyhoeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol strategaeth newydd ar gyfer y 39 o orsafoedd radio lleol wrth ddatlu hanner canmlwyddiant y gwasanaeth.

Adnewyddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ymrwymiad y BBC i radio lleol a chyhoeddodd fod y BBC yn bwriadu ail-greu'r gwasanaeth at y dyfodol drwy wneud ein gorsafoedd hyd yn oed yn fwy lleol ac yn fwy creadigol. Mae'r strategaeth newydd yn canolbwyntio ar gynnwys sy'n dod â chymunedau ynghyd, yn creu adegau i'w rhannu ac yn dathlu llwyddiannau lleol.

Bydd ein 39 o orsafoedd yn Lloegr yn fwy creadigol, gyda mwy o bwyslais ar ddarganfod a meithrin talent newydd a meithrin partneriaethau â grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol ar hyn o bryd gan eu gorsaf radio leol.

Bydd y rhaglen a rennir gyda'r nos a ddarllidir ar draws holl orsafoedd radio lleol Lloegr yn gorffen yn 2018 ac yn ei lle cyflwynir rhaglenni lleol newydd sy'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardaloedd a wasanaethir gan bob gorsaf.

Yn ei 50fed blwyddyn, mae Radio Lleol y BBC yn Lloegr yn dal i ddenu mwy na chwe miliwn o wrandawyr bob wythnos. Gan ddangos pwysigrwydd y gwasanaeth, cafodd BBC Radio Merseyside Ryddid Dinas Lerpwl i gydnabod ei gwasanaethau i'r gymuned.

Chwaraeodd Radio Humberside rôl ganolog yng ngweithgareddau Dinas Diwylliant Hull 2017. Cwblhaodd yr orsaf 200 o ddarllediadau allanol o ddigwyddiadau yn Hull. Chwiliodd Radio Leeds am 'Voice of Bradford' gan ddewis Faisal Motin, 24 oed, oedd yn gweithio i adran Cyllid a Thollau EM ac sydd bellach yn helpu'r orsaf i gyrraedd cymunedau nas gwasanaethir yn ddigonol.

Mewn manau eraill, rydym wedi gwella newyddion lleol ar-lein y BBC sydd wedi ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys lleol. Gall defnyddwyr ar-lein bellach chwilio am straeon newyddion yn ôl tref a dinas, felly mae'n haws dod o hyd

i gynnwys sy'n berthnasol iddynt. Mae ein holl wasanaethau lleol yn Lloegr yn parhau i arbrofi gyda ffyrdd newydd o adrodd straeon ar lwyfannau ar-lein y BBC ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae Rhanbarthau Lloegr y BBC wedi cael y dasg o gyflawni gwaith Partneriaeth Newyddion Lleol y BBC. Fel rhan o'r Bartneriaeth Newyddion Lleol, mae'r BBC wedi ymrwymo i ariannu 145 o newyddiadurwyr newydd i ohebu'n benodol ar waith awdurdodau lleol. Lleolir y 145 o newyddiadurwyr hyn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae gwaith pilot yn mynd rhagddo i ymestyn y bartneriaeth i Ogledd Iwerddon.

Y BBC sy'n talu am y Gohebwy'r Democratiaeth Leol ond cânt eu cyflogi gan sefydliadau newyddion allanol. Caiff y deunydd a gynhyrchir ganddynt ei rannu â'r BBC a'r 800 a mwy o wasanaethau newyddion sy'n rhan o'n partneriaeth. Mae'r gohebwy'r yn sicrhau bod eu newyddiaduraeth gwasanaeth cyhoeddus yn craffu ar benderfyniadau'r sawl mewn awdurdod, sy'n effeithio ar gymunedau lleol.

Yn ogystal â'r Gohebwy'r Democratiaeth Leol, byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau newyddion allanol ar ein Huned Rhannu Data, sy'n cynhyrchu newyddiaduraeth a arweinir gan ddata a rennir wedyn â'n partneriaid. Yn 2018, byddwn yn rhannu cynnwys y BBC â'n partneriaid drwy ein gwasanaeth Canolfan Newyddion, gan alluogi sefydliadau allanol i gael gafael ar y deunydd a gynhyrchir gennym.

Ar y teledu, *Inside Out* yw unig raglen deledu materion cyfoes rhanbarthol Lloegr o hyd. Mae ein 11 o dimau golygyddol *Inside Out* yn parhau i gynhyrchu newyddiaduraeth wreiddiol, sy'n gosod yr agenda. Yn 2018, gwnaethom lansio 13eg gwasanaeth newyddion teledu rhanbarthol am 6.30pm, wrth i raglen eithrio fer yng Nghaergrawnt gael ei hehangu'n rhaglen lawn, gan ddarparu gwell gwasanaeth i ardaloedd o Loegr sydd wedi gweld twf sylweddol yn y boblogaeth.

Gyda'i gilydd, ein bwletinau teledu rhanbarthol am 6.30pm ar BBC One yw'r darlllediadau newyddion a gaiff eu gwyllo fwyaf yn y DU o hyd, yn seiliedig ar gynulleidfa gyfartalog. Ym mis Mawrth, eu cynulleidfa gyfunol oedd yr uchaf ers pum mlynedd wrth i bobl wyllo er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y tywydd oer. Gwylodd cyfanswm o 6.8 miliwn o bobl yn Lloegr fwletinau 6.30pm ar 1 Mawrth, sef y cynulleidfa deledu dros nos uchaf yn Lloegr y diwrnod hwnnw.

Byddwn yn parhau i wneud cyfresi a rhaglenni teledu untro sy'n adlewyrchu bywyd yn Lloegr fel *Sea Cities*, a ganolbwyntiodd ar borthladdoedd Sunderland, Bryste a Brighton. Eleni, byddwn yn darlledu cyfres am ysbysai arloesol yn Lloegr ac un arall sy'n edrych ar hanes rhai o gymunedau amrywiol hynaf Lloegr.

Rydym yn parhau i feithrin partneriaethau ledled Lloegr, gyda'r BBC yn chwarae rôl arweiniol yn Ninas Diwylliant Hull 2017, a rôl weithredol erbyn hyn yn Ninas Diwylliant Cofentri 2021. Yn 2018, mae'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth ag Arddangosfa Fawr Gogledd Lloegr.

Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiadau mawr i ddatlu cynnwys y BBC a wnaed yn Lloegr. Cynhaliwyd sgriniad carped coch o *Peaky Blinders* yn Birmingham a daeth Syr David Attenborough i sgriniad arbennig o *Blue Planet II* ym Mryste.



BBC Radio Manchester
Cyflwynwyr Paul Lockitt,
Chelsea Norris ac Inzy Rash

Perfformiad fesul gwasanaeth

Gwasanaethau penodedig	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £118.2 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad % y boblogaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn gwyllo neu'n gwrandao ar wasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth ar gyfer pob awr y'i defnyddiwyd
BBC LOCAL RADIO Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth llafar yn bennaf sy'n cynnig newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau, gyda phwyslais cryf ar ryngweithedd.	£118.2m 2016/17: £112.9m	14.3% 2016/17: 14.6%	08:52 2016/17: 08:36	82.5 2016/17: 82.7	4.1c 2016/17: 4.0c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer cynulleidfaoedd 15+ oed+
Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr; data yn seiliedig ar Ardal Arolygu Gyfan – TSA); Mynegai Gwerthfawrogiad – panel Pulse o 20,000 o oedolion yn y DU, 16+ gan GfK (data yn seiliedig ar oedolion 16+ oed sy'n byw yn ardal BBC England).

% yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
Effeithiol	74%	72%	77%	78%	69%
Aneffeithiol	9%	9%	9%	8%	9%

% yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
Effeithiol	57%	54%	61%	57%	57%
Aneffeithiol	20%	20%	19%	20%	19%

Cyrhaeddiad Teledu'r BBC: % yr oedolion mewn cartrefi â theledu mewn gwahanol rannau o Loegr sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
2017/18	80%	81%	81%	82%	76%
2016/17	82%	83%	82%	84%	78%

Cyrhaeddiad Radio'r BBC: % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sy'n gwrandao ar Radio'r BBC bob wythnos

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
2017/18	65%	62%	69%	75%	53%
2016/17	65%	63%	69%	76%	53%

Gwasanaethau newyddion penodedig Rhanbarthau Lloegr: % yr oedolion yn Lloegr mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
2017/18	42%	44%	42%	46%	35%
2016/17	43%	45%	43%	47%	38%

Amser a dreuliwyd yn gwyllo Teledu'r BBC y pen mewn cartrefi â theledu, bob wythnos (oo:mm)

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
2017/18	08:07	08:24	07:57	09:02	07:00
2016/17	08:37	08:50	08:31	09:38	07:29

Amser a dreuliwyd yn gwrandao ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
2017/18	10:12	09:35	11:09	13:06	07:17
2016/17	10:22	09:34	11:13	13:22	07:36

Ffynhonnell: Ipsos MORI, BARB, RAJAR. Mae cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Mae cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud.

5 Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mae gan y BBC rôl hanfodol i'w chwarae ar gyfer y DU yn cyfleu diwylliant, llais a gwerthoedd y DU i'r byd. Gellir dadlau bod y cyfrifoldeb hwn yn bwysicach nag erioed mewn cyfnod lle mae'r DU yn ystyried ail-lunio ei hunaniaeth genedlaethol ac ailddiffinio ei chyberthynas â'r byd.

Unwaith eto, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu'r ffaith bod y cyfryngau yn llai rhydd nag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl mewn sawl rhan o'r byd. Bu twf parhaus mewn sefydliadau newyddion mawr a noddir gan y wladwriaeth a newyddion a gyfunir gan lwyfannau digidol. Gall Al Jazeera, China Central Television (CCTV) ac RT (Russia Today yn flaenorol) ddenu adnoddau sylweddol ac, er y gall y gwasanaethau a gynigir gan y sefydliadau hyn gynnig cynyrchiadau o ansawdd uchel, maent hefyd yn adlewyrchu safbwynt penodol o'r byd ac agenda eu cefnogwyr. Gyda'r posibilrwydd y bydd gwasanaethau gwladol mewn gwledydd llai rhydd yn dylanwadu ar ddadleuon byd-eang a darpariaeth newyddion, mae gwerth cyrhaeddiad byd-eang y BBC i ddemocratiaeth a rhyddid yn fwy nag erioed.

BBC World Service yw un o allforion diwylliannol pwysicaf y DU. Mae'n ysbrydoli ac yn cyfoethogi bywydau miliynau ledled y byd, gan eu helpu i wneud synnwyr o'r byd y maent yn byw ynddo. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi cael ei ehangu fwyaf ers y 1940au. Rydym bellach yn gweithredu mewn mwy na 40 o ieithoedd ledled y byd, o Pidgin i Gorëeg, gyda buddsoddiad newydd gan y Llywodraeth er mwyn cynyddu effaith a chyrhaeddiad y BBC yn rhyngwladol. Fel rhan o'r broses ehangu, rydym wedi agor swyddfeydd newydd ac estynedig o Gairo i Seoul, ac wedi cyflogi newyddiadurwyr newydd ledled y byd. Yn ogystal â gwella ein darllediadau i gynulleidfaoedd dramor, mae hyn hefyd yn rhoi safbwynt manylach i'n cynulleidfaoedd newyddion yn y DU o feysydd sydd wedi cael llai o sylw yn draddodiadol.

Mae dau wasanaeth newyddion rhyngwladol y BBC a ariennir yn fasnachol, BBC World News a bbc.com, yn parhau i ddarparu newyddion i ddefnyddwyr gan un o'r darparwyr newyddion mwyaf dibynadwy, yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd. Yn y cyfamser, mae BBC Worldwide – sydd bellach yn rhan o BBC Studios sydd newydd gael ei gyfuno – yn buddsoddi mewn cynnwys gan y BBC, yn ei fasnacheiddio ac yn ei arddangos ledled y byd, er mwyn adeiladu cyrhaeddiad ac enw da brand y BBC dramor, hyrwyddo creadigrwydd Prydeinig ac, ar yr un pryd, sicrhau elw masnachol i'r BBC fuddsoddi mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

67%

% yr oedolion yn y DU sy'n meddwl bod y BBC yn effeithiol yn adlewyrchu'r DU i'r byd.

(11% o'r farn ei fod yn aneffeithiol)

Ffynhonnell: Ipsos MORI.

59%

% sy'n cytuno bod y BBC yn eu helpu i gael dealltwriaeth fanylach o'r newyddion.

Ffynhonnell: BBC Brand Tracker 2017 (y DU yn flaenorol).

Yn y Safle 1af ar gyfer: Ymddiriedaeth Annibyniaeth Dibynadwyedd

Ffynhonnell: BBC Brand Tracker 2017 (y DU yn flaenorol).



Gellir dadlau bod y cyfrifoldeb hwn yn bwysicach nag erioed mewn cyfnod lle mae'r DU yn ystyried ail-lunio ei hunaniaeth genedlaethol ac ailddiffinio ei chydberthynas â'r byd.

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mewn blwyddyn gythryblus arall, mae'r BBC wedi parhau i adlewyrchu'r byd i'r DU, a'r DU i'r byd.

Denodd y BBC y cynulleidfaoedd mwyaf yn rhyngwladol unwaith eto, gyda'r ffigurau newydd, y Mesur Cynulleidfa Fyd-eang, yn datgelu cynulleidfa wythnosol o 376 miliwn. Mae hyn yn cynnwys yr holl gynnwys rhyngwladol.

Roedd y flwyddyn ddiwethaf yn un hynod i BBC World Service, lle cynhaliwyd ein proses ehangu fwyaf ers y 1940au, diolch i fuddsoddiad o £85 miliwn yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth y DU. Mae'r broses ehangu hon yn ein galluogi i gyflwyno newyddion dibynadwy i fwy o rannau o'r byd, yn cynnwys y rhannau hynny lle mae mynediad i wybodaeth ddiduedd am ddim yn gyfyngedig iawn.

Gwnaethom ddechrau ein proses ehangu drwy lansio BBC News Pidgin, wedi'i anelu at gynulleidfaoedd yng Ngorllewin Affrica. Drwy gydol y flwyddyn, cyflwynwyd gwasanaethau newydd mewn Afaan Oromoo, Amhareg, Tigrinya, Corëeg, Gwjarati, Marati, Punjabeg, Telwgw, Igbo ac Ioruba ac i goroni blwyddyn hanesyddol o ehangu, lansiodd BBC Serbian ym mis Mawrth.

Fel rhan o'r prosiect, gwnaethom agor swyddfeydd newydd ac estynedig mewn lleoliadau fel Dhaka, Mumbai, Nairobi, Delhi, Seoul, Bangkok, Yangon, Tunis, Cairo, Beirut a Belgrad a chyflogi mwy na 1,000 o staff newydd ledled y byd. Drwy gael mwy o newyddiadurwyr ar lawr gwlad, gallwn gwmpasu mwy o ardaloedd na roddir llawer o sylw iddynt a gwella ein harlwy i gynulleidfaoedd yn y DU.

Cynyddodd cynulleidfa BBC World Service o 269 miliwn i 279 miliwn, yn unol â'n targedau rhagamcanol ar gyfer y gwasanaethau newydd a nod cyffredinol y BBC o gyrraedd 500 miliwn erbyn 2022.

Drwy gydol y flwyddyn, mae BBC World Service wedi parhau i gynhyrchu newyddiaduraeth dreiddiol a manwl ledled y byd, mewn mwy na 40 o ieithoedd gwahanol, yn cynnwys adroddiadau dewr a chlodwio o Syria, Gogledd Irac, Twrci, Yemen, Feneswela ac Affganistan.

Yn Affrica, rydym wedi cynnal ymchwiliadau eithriadol ar effaith terfysgaeth a rhyfel yn Nigeria, Sudan a Somalia. Roedd newyddiadurwyr African World Service yng nghanol ein hadroddiadau byd-eang ar gwymp Mugabe yn Zimbabwe. Ac mae adroddiadau o Frasil a Rwsia wedi tynnu sylw at newyddion camarweiniol a ffug.

Rydym yn anelu ein newyddion rhyngwladol at genhedlaeth newydd o ddefnyddwyr, er mwyn diogelu'r World Service i genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar fformatau newydd a chynulleidfaoedd newydd. Er enghraifft, mae'n amlwg bod yr arfer o wrando ar radio tonfedd fer wedi gostwng yn gyflym eto eleni, ac mae ymchwil wedi dangos, gydag argaeledd cynyddol ffonau deallus rhad yn fyd-eang, bod cynulleidfaoedd yn parhau i newid i lwyfannau digidol i gael newyddion.

Mae BBC World Service yn parhau i wneud yn dda gyda chynulleidfaoedd ifancach yn rhyngwladol – mae chwarter ein cynulleidfa fyd-eang wythnosol rhwng 15 a 24 oed.

Mae *BBC Minute*, crynodeb newyddion byd-eang 60 eiliad wedi'i dargedu'n benodol at wrandawyr ifancach, bellach yn cael ei ddarlledu yn Saesneg gan 28 o bartneriaid radio ledled y byd, mewn 16 o wledydd gwahanol.

Cymerodd ein tymor 100 Women, a gynhaliwyd ar ein holl lwyfannau rhyngwladol ac sydd bellach wedi'i sefydlu fel uchafbwynt blynyddol, safbwynt newydd 'newyddiaduraeth sy'n canolbwyntio ar atebion' wrth i ni herio timau o arbenigwyr benywaidd i ddatrys problemau allweddol sy'n wynebu menywod ledled y byd.



Uchod: BBC Minute
Caiiff ein crynodeb newyddion byd-eang 60 eiliad ei ddarlledu gan 28 o bartneriaid radio mewn 16 o wledydd



Uchod:
Cyflwynydd BBC News Pidgin, Ogechi Obidiebube

Chwith:
Adroddiadau clodwiw o'r newyn yn Yemen gan Nawal Al-Maghafi, a gafodd wobwr Talent Ifanc y Flwyddyn RTS

Mae'r World Service yn Saesneg hefyd wedi cael budd o'r hwb ariannol newydd, gan sicrhau cymysgedd mwy cyfoethog o gynnwys ym meysydd y celfyddydau, diwylliant, trafodaeth a gwyddoniaeth, a'n helpu i ddatblygu fformatau newydd.

Cynhaliwyd ein rhaglen drafod ddemocrataidd fyw, *World Questions*, lle mae cynulleidfaoedd yn dwyn panel o wleidyddion a ffigurau cyhoeddus i gyfrif, mewn lleoliadau mor amrywiol â Kathmandu, Moscow, Beirut, Nairobi a Belgrad, ychydig cyn lansio BBC News Serbian.

Arweiniodd y broses o benodi ein golygydd podlediadau ymroddedig cyntaf at ryddhau cynnwys podlediadau newydd hynod a llwyddiannus – mae miliwn o bobl yn gwrandao ar bodlediadau BBC World Service bob wythnos. Ymysg yr enghreifftiau nodedig o gynnwys mae *The Assassination*, podlediad hynod Owen Bennett Jones ynghylch llofruddiaeth Benazir Bhutto, a phodlediad *Global News* a ail-lansiwyd yn ddiweddar.

Rydym yn cynnwys y gynulleidfa mewn ffyrdd newydd – mae ein rhaglen *CrowdScience*, sy'n mynd i'r afael â chwestiwn gan wrandawr bob wythnos, wedi ateb cwestiynau o bob cwr o'r byd, a gwnaethom gynnal recordiadau byw yn Sydney ac yn yr Ŵyl Free Thinking yn Gateshead.

Mae'r World Service wedi parhau i gyflwyno'r gorau o ddiwylliant y DU i weddill y byd, gyda chyfres y Proms a gyflwynir bob blwyddyn bellach yn cyflwyno un o drysorau'r BBC i gynulleidfa fyd-eang. Mae ein rhaglenni wedi dangos gwyliau a digwyddiadau Prydeinig yn cynnwys Gŵyl Lenyddol Rhydychen a Free Thinking. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth ag amgueddfeydd a sefydliadau o'r DU sy'n enwog yn fyd-eang fel yr Amgueddfa Wyddoniaeth a'r Amgueddfa Brydeinig.

Cyflwynodd *The Arts Hour on Tour* ddiwylliant a'r celfyddydau i gynulleidfaoedd brwdfrydig, gyda recordiadau mewn dinasoedd yn cynnwys Addis Ababa, Seoul a St Petersburg.

Cynyddodd y World Service yn Saesneg ei gyrhaeddiad daearyddol hefyd – drwy drefniant partneriaeth newydd â gorsaf FM yng ngogledd Norwy, llwyddwyd i ddarlledu o'r tu mewn i Gylch y Gogledd am y tro cyntaf erioed.

Mae ein sianel newyddion teledu 24 awr ryngwladol, BBC World News, wedi parhau i gyflwyno rhaglenni newyddion cyfrwng Saesneg i gynulleidfa o bron i 100 miliwn ledled y byd eleni.

Datblygodd *100 Days*, a gyflwynwyd ar y cyd o Lundain ac Efrog Newydd, yn *Beyond 100 Days*, gan ddadansoddi'r datblygiadau diweddaraf yn America Arlywydd Trump.

Gwnaethom ddathlu 20 mlynedd o'r rhaglen cyfweiliadau sy'n enwog yn fyd-eang *HARDtalk*. Ymysg yr uchafbwyntiau golygyddol eraill roedd *A History of Africa* gyda Zeinab Badawi; cyfres chwe rhan, *Tales of Modern China*; a thymor o chwaraeon i fenywod. Gwnaethom gyflwyno uchafbwyntiau diwyllianol o'r DU i weddill y byd gyda rhaglenni arbennig o Ŵyl y Gelli, Arddangosfa Haf yr Academi Frenhinol a'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol.

Yn ein cyfres o drafodaethau byd-eang ar y teledu, aeth un o weinidogion Llywodraeth Sbaen yn benben ag un o gynrychiolwyr Llywodraeth Catalan, a ddarlledwyd yn fyw o Barcelona.

A pharhaodd ein gwefan newyddion fasnachol fyd-eang, bbc.com, i gyflwyno newyddion a rhaglenni nodwedd i gynulleidfa ryngwladol enfawr. Mae'r gynulleidfa ar gyfer bbc.com yn tyfu yn UDA, marchnad cyfryngau fwyaf y byd.

Rydym wedi ailstrwythuro ein busnes i gyfuno BBC Advertising gyda BBC Global News Ltd, yr is-gwmni masnachol sy'n rhedeg BBC World News a bbc.com. Mae hyn yn golygu y gall y busnes integredig unigol newydd ddatblygu ein cynnwys newyddion yn fasnachol.

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mae gan y BBC swyddfeydd mewn 60 o wledydd a 76 o ddinasoedd. Ymysg y rhain mae Newsgathering, BBC World Service, BBC Monitoring, BBC Global News Ltd a Media Action.



347m

BBC Newyddion

Cyfanswm y gynulleidfa wythnosol ryngwladol.

2016/17: 345 miliwn

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

160m

Radio BBC World Service

Saesneg ac ieithoedd eraill.

2016/17: 155 miliwn

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

279m

BBC World Service

Yn cynnwys teledu, radio, ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill.

2016/17: 269 miliwn

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

42m

BBC World Service ar-lein a chyfryngau cymdeithasol

Saesneg ac ieithoedd eraill.

2016/17: 39 miliwn

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

111m

Teledu BBC World Service

Ieithoedd heblaw am Saesneg.

2016/17: 110 miliwn

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

376m

Cyrhaeddiad byd-eang

yn cynnwys BBC News a BBC Studios.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn ddiweddariad blynyddol o faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (Teledu, Radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfansymiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service.



Nid yw'r llun hwn wrth raddfa. Mae at ddiben cyfeirio yn unig.

95m


Sianel deledu BBC World News*
Sianel newyddion fyd-eang cyfrwng Saesneg.
2016/17: 99 miliwn

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

37m

bbc.com* a'r cyfryngau cymdeithasol
Gwefan ryngwladol cyfrwng Saesneg.
2016/17: 34 miliwn

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.



* Caiff sianel BBC World News a bbc.com eu hariannu'n fasnachol.

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mae BBC World Service wedi gweld cynnydd eto eleni, yn enwedig cynnydd digidol ar y rhan fwyaf o wasanaethau, gyda help mewn rhai marchnadoedd drwy syndicetio teledu a radio. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad parhaus mewn radio tonfedd fer (SW) ledled y byd a heriau gyda theledu wedi'i syndicetio mewn rhai marchnadoedd ynghyd â'r newidiadau yn yr amgylchedd gwleidyddol wedi effeithio ar berfformiad rhai gwasanaethau.

Cyrhaeddiad BBC World Service ar bob llwyfan fesul gwasanaeth iaith

	2017/18 Miliynau	2016/17 Miliynau	Newid o flwyddyn i flwyddyn %		2017/18 Miliynau	2016/17 Miliynau	Newid o flwyddyn i flwyddyn %
World Service Saesneg	78.8	75.2	4.8%	Nepali	5.3	5.2	0.8%
Afrique	12.0	10.5	14.3%	Pashto	10.1	6.7	50.9%
Arabeg	44.3	42.9	3.1%	Perseg	22.5	18.0	24.8%
Azeri	0.1	0.1	-19.7%	Rwsieg	2.9	3.9	-26.9%
Bengaleg	16.4	16.5	-0.6%	Sinhala	0.9	0.9	-3.6%
Brasil	5.6	6.3	-12.0%	Somalieg	3.6	3.6	1.8%
Byrmaneg	4.2	6.0	-30.4%	Swahili	16.1	16.1	0.0%
Tseinëeg	1.1	0.8	32.4%	Tamil	9.8	9.5	2.2%
Y Llynnoedd Mawr	1.4	1.4	0.0%	Thai	1.1	1.6	-34.6%
Hawsa	24.6	23.6	4.1%	Twrceg	1.7	1.5	16.4%
Hindi	11.8	12.5	-6.6%	Tsieina y DU	0.1	0.1	10.1%
Indoneseg	4.0	3.9	2.5%	Wcreineg	3.6	3.6	1.4%
Kyrgyz	3.1	3.0	0.4%	Wrdw	7.8	11.6	-32.5%
Dysgu Saesneg	2.3	1.9	17.2%	Wsbeg	2.3	0.7	247.7%
Mundo	7.2	6.8	6.0%	Fietnameg	1.0	0.9	7.4%

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn ddiweddariad blynyddol o faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (Teledu, Radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfansymiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa'r World Service.

Noder: Nid yw data lefel gwasanaeth unigol ar gyfer y gwasanaethau newydd a lansiwyd fel rhan o'r broses o ehangu'r World Service wedi'u cynnwys yn y tabl hwn gan nad yw'r gwasanaethau hyn wedi bod yn weithredol am flwyddyn eto.

Perfformiad a chyd-destun y farchnad

Mae'r adran hon yn ystyried cyrhaeddiad wythnosol teledu a radio'r BBC yn erbyn y prif grwpiau masnachol yn y DU, yn ogystal â pherfformiad ein gwasanaethau teledu a radio rhwydwaith.



t.60

Perfformiad cynulleidfaoedd a chyd-destun y farchnad

t.63

Perfformiad gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein

Perfformiad cynulleidfaoedd a chyd-destun y farchnad

Erys perfformiad y BBC gyda chynulleidfaoedd yn gryf. Nododd Cynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2017/18 dargedau penodol ar gyfer perfformiad cyffredinol cynulleidfaoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol, a chyflawnwyd neu rhagorwyd ar bob un ohonynt.

Pennwyd nodau eang gan fod y BBC yn gwella'r systemau mesur cynulleidfaoedd a ddefnyddir ganddo a chyflwynodd hyn rywfaint o ansicrwydd yn y broses o bennu amcanion yn ystod y cyfnod o drosglwyddo i'r dulliau gweithredu newydd. Defnyddiwyd y BBC gan 92% o oedolion ar-lein bob wythnos yn 2017/18, yn unol â'r targed o 92 i 95%, a threuliodd oedolion yn y DU 19 awr ar gyfartaledd bob wythnos yn defnyddio gwasanaethau'r BBC, o fewn yr ystod targed o 18:15-19:45. Gwnaethant roi sgôr o saith allan o ddeg i'r BBC, ar gyfartaledd, o ran eu hargraff gyffredinol, sgôr o saith allan o ddeg i ansawdd y rhaglenni a'r gwasanaethau a sgôr o chwech allan o ddeg i werth am arian, gyda phob un o fewn y targed.

O ran cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus, mae dros 70% o oedolion o'r farn bod y BBC yn effeithiol yn cyflawni ei

genhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu yn 2017/18*. Ac ym mhob grŵp cynulleidfa, ni waeth beth yw eu hoedran, rhyw, grŵp cymdeithasol, tarddiad ethnig na daearyddiaeth, mae mwyafrif clir yn cytuno â hyn gyda dwy ran o dair neu fwy o bob grŵp yn nodi bod y BBC yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o'r oedolion yn y DU hefyd o'r farn bod y BBC wedi cyflawni pob elfen o'r dibenion yn effeithiol, gyda'r sgorau uchaf ar gyfer helpu pobl i ddeall beth sy'n mynd ymlaen yn y DU a'r byd heddiw, ac ar gyfer ansawdd yn cynnwys a'r gwasanaethau.

Er y canlyniadau cryf hyn, ceir gwahaniaethau sylweddol yn y defnydd a wneir o allbwn y BBC ym mhob rhan o'r boblogaeth ac ar yr effaith a gaiff yr allbwn.

Ym mhob grŵp cynulleidfa, mae'r nifer fwyaf o bobl o'r farn bod y BBC wedi cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion. Ym mhob band oedran, rhyw, grŵp cymdeithasol ac ardal o'r DU, ac ymysg cynulleidfaoedd gwyn a chynulleidfaoedd o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), mae'r gyfradd sy'n nodi bod y BBC yn effeithiol ar bob mesur yn uwch o lawer na'r gyfradd sy'n nodi ei fod yn aneffeithiol.

Ond roedd y sawl sy'n defnyddio llai ar y BBC – grwpiau C2DE, pobl ifanc 16-34 oed, cynulleidfaoedd BAME, y sawl sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Llundain – ymysg y rhai a oedd yn tueddu i roi sgorau effeithiolrwydd is na'r oedolion yng ngweddill y DU am gyflawni'r genhadaeth. Yn ogystal ag adlewyrchu apêl gymharol arlwy'r BBC, gall lefel absoliwt y defnydd amrywio, yn rhannol, oherwydd graddau'r gystadleuaeth sydd wedi'i hanelu at grwpiau gwahanol, a chenedlaethau a chyfnodau bywyd gwahanol.

Roedd sgorau effeithiolrwydd ar draws pob diben, yn cynnwys y diben creadigrwydd, ansawdd a natur nodedig, yn is ymysg C2DR na chynulleidfaoedd ABC1. O gymharu â grwpiau oedran hŷn, rhoddodd cynulleidfaoedd ifanc sgorau effeithiolrwydd is yn enwedig o ran y graddau y mae'r BBC yn cyflawni'r genhadaeth iddyn nhw yn bersonol, yn darparu ar gyfer sawl math gwahanol o chwaeth ac yn adlewyrchu pobl fel nhw. Rhoddodd cynulleidfaoedd BAME sgorau llawer is na chynulleidfaoedd gwyn, yn benodol ar gyfer y diben creadigrwydd a'r diben cynrychiolaeth. Roedd y cyfraddau effeithiolrwydd yng ngogledd Lloegr yn

Nodiadau:

Ipsos MORI, 3,568 o oedolion 16+ yn y DU, Ebrill-Mai 2018.

* Sgôr gyfartalog o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU a nhw.

Y ffigurau cyrhaeddiad ac amser wythnosol a nodir yn yr adroddiad hwn yw'r cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog a'r amser wythnosol cyfartalog y pen ym flwyddyn ariannol 2017/18 oni nodir yn wahanol.

92%

Cyrhaeddiad o ran oedolion

Canran yr oedolion yn y DU mewn cartrefi sydd ar-lein sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

Targed: 92-95%

19:12

Cyfanswm yr amser a dreulir

Faint o amser y mae cynulleidfaoedd oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos.

Targed: 18:15-19:45 (00:mm)

Ffynhonnellau: Ipsos MORI, Kantar Media (Gor17-Maw18).

7/10

Argraff gyffredinol

Argraff gyffredinol oedolion yn y DU o'r BBC (sgôr gymedrig allan o 10).

Targed: 6-7/10

7/10

A yw oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC yn darparu rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel (sgôr gymedrig allan o 10).

Targed: 6-7/10

6/10

A yw oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn cynnig gwerth am arian (sgôr gymedrig allan o 10).

Targed: 5-6/10

Cyrhaeddiad wythnosol Teledu a Radio'r BBC o gymharu â darparwyr eraill

Setiau teledu

Cyrhaeddiad wythnosol	Holl deledu'r BBC BBC	Holl deledu ITV itv	Holl deledu Channel 4 4	Holl deledu Channel 5 5	Sianelau darlledu teledu eraill	Defnyddiau eraill o setiau teledu**
Oedolion 16+ oed	80.2% 2016/17: 82.1%	69.7% 2016/17: 71.2%	62.2% 2016/17: 63.1%	44.9% 2016/17: 45.3%	70.6% 2016/17: 71.7%	55.3% 2016/17: 51.4%
Oedolion ifanc 16-34 oed	60.4% 2016/17: 64.8%	53.2% 2016/17: 55.9%	50.8% 2016/17: 53.9%	29.0% 2016/17: 32.0%	58.4% 2016/17: 61.8%	64.6% 2016/17: 60.4%

Ffynhonnell: BARB (cartrefi sy'n berchen ar set deledu), 15+ munud o gyrhaeddiad olynol.

** Yn cynnwys SVOD, chwarae gemau, DVDs.

Gwasanaethau radio/ffrydio cerddoriaeth

Cyrhaeddiad wythnosol	Holl radio'r BBC	Holl radio masnachol	Ffrydio cerddoriaeth
Oedolion 15+ oed	64.2% 2016/17: 64.3%	65.4% 2016/17: 64.7%	20.5% 2016/17: 16.8%
Oedolion ifanc 15-34	53.0% 2016/17: 53.3%	70.8% 2016/17: 71.1%	40.8% 2016/17: 32.8%

Ffynhonnell: Radio'r BBC a radio masnachol gan RAJAR, 15 munud o gyrhaeddiad. Amcangyfrifon ffrydio cerddoriaeth gan MIDAS/RAJAR.

tueddu i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr gyfan, a rhoddodd cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r Alban hefyd sgorau is ar gyfer y graddau y mae'r BBC yn darparu ar gyfer eu rhan nhw o'r DU.

Yn ogystal â cheisio lleihau bylchau o ran y defnydd a wneir o'r BBC a'r effaith a gaiff, rydym hefyd yn ymateb i heriau strwythurol a chystadleuol parhaus sy'n effeithio ar berfformiad cynulleidfaoedd.

Mae'r defnydd o'r BBC yn uchel iawn o hyd, ond mae cystadleuaeth ddwys gan ddarlledwyr hirsefydlog a darparwyr cyfryngau mwy newydd yn golygu bod y cyrhaeddiad wythnosol cyffredinol a'r amser a dreuliwyd gyda'r BBC yn is flwyddyn ar ôl blwyddyn yn 2017/18. Ar gyfer Teledu'r BBC, roedd y gostyngiad yn fwy na gweddill y farchnad darlledu deledu, gan adlewyrchu, yn rhannol, absenoldeb y Gemau Olympaidd yn amserlen y BBC yn 2017/18 o gymharu â Rio 2016 y flwyddyn flaenorol. Dros yr hirdymor, mae'r holl deledu a ddarlledir yn ogystal â Radio'r BBC wedi gweld gostyngiad wrth

i gystadleuwyr newydd dyfu'n sylweddol. Mae hyn yn arbennig o wir ymysg pobl dan 35 oed, a bydd angen i ddarlledu cyhoeddus weithio'n galed er mwyn sicrhau perthnasedd i genedlaethau iau.

Mae amcangyfrifon yn awgrymu, er bod plant dan 6 oed yn treulio mwy o amser gyda'r BBC o gymharu ag unrhyw ddarparwr cyfryngau arall (tua 7 awr yr wythnos), mae plant 6-15 oed yn treulio cyfnodau tebyg o amser gyda'r BBC ac YouTube (tua 5 awr a hanner yr wythnos).


Ac mae oedolion ifanc 16-34 oed bellach yn treulio tua saith awr a hanner yr wythnos yn defnyddio'r set deledu at ddibenion sy'n cynnwys SVOD a chwarae gemau. Maent hefyd yn treulio mwy na phedair awr a hanner yr wythnos gyda gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth – sy'n cyfateb yn fras i'r amser maent yn ei dreulio gyda Radio'r BBC. Wedi dweud hynny, o gyfuno ei holl lwyfannau, y BBC yw'r darparwr cyfryngau unigol y mae oedolion o bob grŵp oedran, yn cynnwys oedolion ifanc, yn treulio'r rhan fwyaf o amser ag ef.



DJ 6 Music Mary Anne Hobbs


Amser a dreuliwyd yn defnyddio'r set deledu at ddibenion gwahanol bob wythnos 2013/14-2017/18, oriau:munudau

Oedolion 15+ oed: Amser wythnosol cyfartalog y pen (oo:mm)




*Yn cynnwys SVOD, chwarae gemau, DVDs.
Ffynhonnell: BARB (cartrefi sy'n berchen ar set deledu).

Oedolion ifanc 15-34 oed: Amser wythnosol cyfartalog y pen (oo:mm)




Amser a dreuliwyd yn defnyddio gwasanaethau radio/ffrydio cerddoriaeth bob wythnos 2013/14-2017/18, oriau:munudau

Oedolion 15+ oed: Amser wythnosol cyfartalog y pen (oo:mm)



Ffynhonnell: y BBC a radio masnachol gan RAJAR.
Amcangyfrifon ffrydio cerddoriaeth gan MIDAS/RAJAR.

Oedolion ifanc 15-34 oed: Amser wythnosol cyfartalog y pen (oo:mm)



Dde: Comedi glodwiw BBC Four, Detectorists










Chwith: DJ Radio 1Xtra, Jamz Supernova

Perfformiad fesul Gwasanaeth

Eleni, mae'r Adroddiad Blynyddol yn newid y ffordd rydym yn mesur ein perfformiad; gan symud o adolygu perfformiad fesul llwyfan (h.y. teledu, radio, newyddion, ar-lein) i adolygiad o'n perfformiad wedi'i fesur yn erbyn pob un o'r dibenion cyhoeddus. Fodd bynnag, er mwyn cymharu ag Adroddiadau Blynyddol cynharad, rydym wedi cynnwys perfformiad fesul gwasanaeth lle mae data yn bodoli.

Perfformiad teledu fesul gwasanaeth

Teledu rhwydwaith	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £1570.6 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliyd yn gwyltio sianel bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol	
 BBC One	BBC One yw ein prif wasanaeth a sianel teledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, adloniant a ffeithiol.	£1,009.4m 2016/17: £1,115.4m	68.9% 2016/17: 71.5%	07:21 2016/17: 07:33	79.1 2016/17: 79.7	6.2c 2016/17: 6.7c*
 BBC TWO	Mae BBC Two yn sianel genre cymysg sydd â rhaglenni treiddgar o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth fwyaf o raglenni sy'n meithrin gwybodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglenni comedi, drama a chelfyddydol nodedig.	£374.3m 2016/17: £403.3m	44.6% 2016/17: 46.2%	03:07 2016/17: 03:08	81.8 2016/17: 82.0	8.1c 2016/17: 9.0c*
 BBC FOUR	Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddorol, diwylliannol a ffeithiol o'r DU a thu hwnt.	£37.8m 2016/17: £50.5m	12.7% 2016/17: 13.5%	01:45 2016/17: 01:46	82.8 2016/17: 82.6	4.9c 2016/17: 6.9c*
 BBC CBBC	Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant rhwng 6 a 12 oed, gan ddarparu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a phleserus.	£67.9m 2016/17: £69.5m	3.9% 2016/17: 4.3%	02:33 2016/17: 02:30	dd/g 2016/17: dd/g	17.0c 2016/17: 20.9c*
 BBC CBeebies	Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.	£29.9m 2016/17: £28.7m	7.3% 2016/17: 7.5%	04:13 2016/17: 04:10	dd/g 2016/17: dd/g	2.8c 2016/17: 3.0c*
 BBC NEWS	Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddiwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd.	£49.7m 2016/17: £47.8m	9.5% 2016/17: 9.9%	02:46 2016/17: 02:46	dd/g 2016/17: dd/g	5.9c 2016/17: 5.7c*
 BBC PARLIAMENT	BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n ymroddedig i wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU.	£1.6m 2016/17: £1.8m	0.5% 2016/17: 0.6%	01:45 2016/17: 01:52	dd/g 2016/17: dd/g	5.3c 2016/17: 4.9c*

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed.

Ffynonellau: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwyr – mae pob sianel yn cynnwys ei sianel cyd-ddarlledu HD lle y bo'n berthnasol); Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK.

D.S. Achosion o wyllo set deledu a fesurir gan ddata BARB ar hyn o bryd, sy'n golygu na chaiff achosion o wyllo iPlayer ar ddyfeisiau eraill eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffigurau cyrhaeddiad ac amser. Mae'r defnydd o iPlayer yn tyfu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu plant a phobl ifanc fel CBeebies a CBBC.

* Mae'r gost fesul defnyddiwr bob awr yn 2017/18 yn cynnwys gwyllo ar setiau deledu ac ar ddyfeisiau eraill felly ni ellir cymharu'n uniongyrchol â ffigurau cost fesul defnyddiwr bob awr yn 2016/17 gan eu bod yn cynnwys gwyllo ar setiau deledu yn unig.








CBBC: ymhlith ei chynulleidfaoedd darged o blant rhwng 6 a 12 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 17.9% a'r amser a dreuliyd fesul gwylwyr oedd 02:52 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 22.1% o blant rhwng 6 a 12 oed a'r amser a dreuliyd fesul gwylwyr oedd 02:20.

CBeebies: ymhlith ei chynulleidfaoedd darged o blant rhwng 0 a 6 oed (wedi'i mesur fel plant rhwng 4 a 6 oed a gwragedd a gwyr ty â phlant rhwng 0 a 3 oed), cafwyd cyrhaeddiad o 38.1% a'r amser a dreuliyd fesul gwylwyr oedd 04:49 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 45.0% o blant rhwng 0 a 6 oed a'r amser a dreuliyd fesul gwylwyr oedd 04:06.

BBC News a BBC Parliament: Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant – yn 13.6% ac 1.1% yn y drefn honno (15.2% a 1.3% ymysg y boblogaeth 16+ oed).

dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.

Perfformiad radio fesul gwasanaeth

Radio rhwydwaith	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £289.9 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
 Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniant i bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed ac yn cynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori wedi'u teulwra i oedolion ifanc.	£37.5m 2016/17: £35.9m	17.7% 2016/17: 17.5%	06:18 2016/17: 06:16	79.2 2016/17: 78.8	1.2c 2016/17: 1.2c
 Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd.	£6.4m 2016/17: £6.6m	1.9% 2016/17: 1.8%	04:40 2016/17: 04:45	85.6 2016/17: 82.5	2.5c 2016/17: 2.8c
 Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar sy'n cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc byw, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol amrywiol, ac yn cynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawyr.	£49.1m 2016/17: £51.2m	28.1% 2016/17: 28.0%	11:54 2016/17: 11:54	82.2 2016/17: 82.0	0.5c 2016/17: 0.5c
 Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu sbectrwem eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol ledled y DU.	£37.7m 2016/17: £37.4m	3.7% 2016/17: 3.7%	05:56 2016/17: 06:15	83.4 2016/17: 82.7	6.1c 2016/17: 5.7c
 Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio sy'n cynnig gwasanaeth llafar cymysg, gyda newyddion a materion cyfoes treiddgar ac ystod eang o raglenni llafar eraill gan gynnwys drama, darlenniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn.	£91.2m 2016/17: £87.9m	20.6% 2016/17: 20.9%	11:02 2016/17: 11:12	80.8 2016/17: 80.8	1.4c 2016/17: 1.3c
 Lansiodd yr orsaf yn wreiddiol yn 2002 fel BBC 7, a chafodd ei hail-lansio ym mis Ebrill 2011 fel BBC Radio 4 extra. Y rhwydwaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniant llafar, yn cynnwys comedi, drama a darlenniadau.	£2.9m 2016/17: £3.0m	4.0% 2016/17: 3.8%	05:38 2016/17: 05:56	79.4 2016/17: 78.6	0.5c 2016/17: 0.5c
 Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw yn barhaus, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gwrandawyr wrth iddynt ddigwydd, a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth eang.	£44.8m 2016/17: £45.5m	9.7% 2016/17: 10.4%	06:34 2016/17: 06:41	79.9 2016/17: 79.9	2.5c 2016/17: 2.3c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd 15+ oed.




Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr); Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK.

Radio 1: ymhlith ei grŵp targed o bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 33.3% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 06:15.

1Xtra: ymhlith pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 5.7% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 03:47.



Radio 2: ymysg ei grŵp targed o bobl 35+ oed, cafwyd cyrhaeddiad o 34.6% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 12:56.

Asian Network: ymysg ei grŵp targed o Asiaid o dan 35 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 13.9% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 06:18. Diffiniadau ethnigrwydd yn RAJAR o flywyddyn ariannol 2014/15: Asiaidd = Gwyn ac Asiaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall.

Radio rhwydwaith	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £289.9 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
 Mae BBC Radio 5 live sports extra yn cynnig dewis ehangach o chwaraeon byw i wrandawr drwy ymestyn y darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon amrywiol.	£2.9m 2016/17: £2.7m	2.3% 2016/17: 2.3%	03:19 2016/17: 02:52	85.1 2016/17: 85.3	1.3c 2016/17: 1.5c
